# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.00 - 09.15)

**Yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 1 a 2.**

## 1 Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) - trafod y cwmpas a'r dull gweithredu

(09.15 - 09.30) (Tudalennau 1 - 8)

Dogfennau atodol:

Papur Preifat 1 - Y cwmpas a'r dull o gynnal gwaith craffu

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - cyflwyniad o'r canfyddiadau o gyfweliadau â theuluoedd

(09.30 - 09.45) (Tudalennau 9 - 47)

Dogfennau atodol:

Cyfweliadau teuluol - Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Grŵp cynghori ar-lein Cyfarfod 1 - Cofnodion

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – sesiwn dystiolaeth 12

(09.45 – 11.00) (Tudalennau 48 – 75)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Amelia John, Cyfarwyddwr Dros Dro Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

Nicola Edwards, Dirprwy Gyfarwyddwr Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru

Claire Severn, Pennaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a Gofal Plant, Llywodraeth Cymru

Rebecca Johnson, Pennaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a Gofal Plant, Llywodraeth Cymru

Gill Huws-John, Pennaeth Tasglu Hawliau Pobl Anabl, Llywodraeth Cymru

Louise Brown, Pennaeth y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur – Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 6 a 9

(11.00)

## 6 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - trafod y dystiolaeth

(11.00 - 11.05)

## Egwyl

(11.05 - 11.15)

## 7 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2022-2023

(11.15 - 12.25) (Tudalennau 76 - 88)

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

Comisiynydd Plant Cymru Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 8 Papurau i'w nodi

(12.25)

### 8.1 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 89 - 90)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Byddar (Saesneg yn unig)

### 8.2 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch

(Tudalennau 91 - 97)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Byddar

**8.3 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 98 - 107)

Dogfennau atodol:

Nodyn o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar 27 Medi [yn y cnawd]

**8.4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 108 - 115)

Dogfennau atodol:

Nodyn o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar 27 Medi [rhithwir]

**8.5 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 116 - 124)

Dogfennau atodol:

Ymweliad ag ASD Rainbows ar 9 Hydref

**8.6 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 125 - 137)

Dogfennau atodol:

Nodyn o sesiwn grŵp ffocws Sparkle ar 15 Medi

**8.7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 138 - 145)

Dogfennau atodol:

Nodyn o sesiwn grŵp ffocws Gofal Plant ASD Oak Hill ar 15 Medi

**8.8 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 146 - 156)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog yr Economi

**8.9 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 157 - 165)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

**8.10 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 166 - 167)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gyngor Bro Morgannwg (Saesneg yn unig)

**8.11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 168 - 170)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**8.12 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 171 - 176)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Bennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**8.13 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 177 - 189)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg

**8.14 P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol**

(Tudalen 190)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**8.15 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog yr Economi**

(Tudalennau 191 - 197)

Dogfennau atodol:

Llythyr ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a Gweinidog yr Economi (Saesneg yn unig)

**8.16 P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru**

(Tudalennau 198 - 199)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

## 9 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2022-2023 - trafod y dystiolaeth

(12.25 - 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Papur tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg ac i ba raddau mae darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

## DARPARIAETH ADDYSG

### 1. Cefndir

1.1. Rydym wrthi'n diwygio addysg yng Nghymru mewn ffordd systemig, gan gynnwys cyflwyno cwricwlwm newydd a system newydd i sicrhau bod cynlluniau priodol ar gyfer anghenion y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u bod yn cael eu diogelu'n briodol. Gyda'i gilydd, mae'r Cwricwlwm i Gymru a'r system ADY yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau dysgu a chanlyniadau plant a phobl ifanc. Mae'r ddau yn pwysleisio system addysg gynhwysol sy'n cydbwyso sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at y cwricwlwm a diwallu anghenion dysgwyr unigol.

1.2. Dyluniwyd y Cwricwlwm i Gymru i godi dyheadau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY; gan weld pob dysgwr fel unigolyn sydd â gwahanol gryfderau a meysydd i'w datblygu, a all ddatblygu mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol gyflymder. Mae'r system ADY yn cael ei gweithredu dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 1 Medi 2021 a mis Awst 2025. Mae'n disodli'n raddol y system anghenion addysgol arbennig (AAA). Adnabod yn gynnar, ymyrryd ac atal yw un o nodau allweddol y system ADY sy'n newid y fframwaith cyfreithiol a'r arferion i gefnogi plant a phobl ifanc, fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd fwy amserol.

1.3. O dan y system ADY, mae gan ddysgwyr 0-25 oed sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu eu ADY yr hawl i gynllun statudol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU) sy'n nodi eu hanghenion a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

1.4. Mae'n werth nodi na fydd gan bob plentyn a pherson ifanc anabl ADY o reidrwydd. Bydd gan ddysgwr ADY os penderfynir bod ei 'anhawster dysgu neu ei anabledd' yn golygu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY).

1.5. Mae gan ysgolion a gynhelir a cholegau addysg bellach ddyletswyddau o dan Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r dyletswyddau hyn ar wahân, ac efallai y bydd angen addasiadau rhesymol, darpariaeth o dan CDU neu, mewn rhai achosion, y ddau, ar ddisgybl. Nid yw cyflawni'r dyletswyddau o dan un Ddeddf yn negyddu'r angen i gyflawni'r dyletswyddau o dan y llall.

1.6. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi mai cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth geisio cyflawni pedwar diben gorfodol y cwricwlwm. Nid 'beth' a addysgwn yw'r unig beth pwysig, ond 'sut' awn ati i

addysgu ac, yn hollbwysig, ‘pam’ rydym yn ei addysgu. Mae'r canllawiau wedi'u datblygu yng Nghymru, gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach. Mae'r canllawiau'n helpu ysgolion i ddylunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae’n cynnwys gwybodaeth am ofynion cyfreithiol, canllaw ar sut i ddatblygu cwricwlwm ysgol ac esboniad o ddibenion ac egwyddorion asesu.

1.7. Mae'r Cod Cynnydd yn nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer pob dysgwr. Mae cynnydd mewn dysgu yn gofyn am bartneriaethau rhwng pawb dan sylw, gan gynnwys y dysgwr. Dylai gydnabod anghenion dysgu unigol a chefndir yr holl ddysgwyr, ac annog ystyriaeth gyfannol o’u datblygiad. Felly dylai’r ymarferwyr a’r dysgwyr ddod i ddeall sut mae’r dysgwyr yn dysgu, beth yw eu hagwedd at ddysgu a’u dull o ddysgu er mwyn eu cefnogi i barhau i wneud cynnydd ac i feithrin ymrwymiad tuag at eu dysgu.

1.8. Bwriad y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn eu gosod ar ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac asiantaethau eraill yw chwalu rhwystrau fel bod dysgwyr ag ADY yn cael y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gywir ar yr adeg gywir a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses.

1.9. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn helpu ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill i baratoi i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y system ADY ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr, awdurdodau lleol, Estyn a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

1.10. Rydym wedi buddsoddi dros £62 miliwn o gyllid grant refeniw mewn ADY rhwng 2020 a 2023 a chynyddwyd y grant gweithredu ADY gennym o £5.4 miliwn i £12 miliwn ledled Cymru ar gyfer 2023-24. Bwriad y grant ychwanegol hwn yw cynyddu'r adnoddau i ysgolion weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol.

1.11. Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ei hail gam ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig at wella seilwaith addysg ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion arbennig newydd a darpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd. Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mae cyfradd ariannu Llywodraeth Cymru yn cynyddu o 65 y cant i 75 y cant o gyfanswm costau'r prosiect.

1.12. Yn ogystal â'r buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud yn y seilwaith addysg drwy ein rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym hefyd wedi sicrhau bod £20 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf ar gael i awdurdodau lleol yn 2022 a 2023. Mae'r cyllid hwn i gefnogi gwella neu greu gofodau a chyfleusterau cynhwysol i helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth a gofodau sydd â'r technolegau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt.

1.13. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar weithredu'r cwricwlwm a'r diwygiadau ADY. Mae’r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor fel rhan o'r craffu hwnnw yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i weithredu'r diwygiadau hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried llwythi gwaith Cydlynwyr ADY a gwaith i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynorthwywyr addysgu.

## 2. Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol

2.1. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg addas i blant a phobl ifanc yn eu hardal, gan gynnwys y rhai ag ADY, ac mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gynllunio lleoedd mewn ysgolion. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i adolygu i ba raddau y mae eu patrwm presennol o ddarpariaeth ysgol yn ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am leoedd ysgol a gofynion cyflwyno'r cwricwlwm modern.

2.2. O dan y Ddeddf ADY, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i adolygu eu trefniadau ar gyfer ADY, a rhai eu hysgolion, yn gyson. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod yr awdurdod lleol yn ystyried, ar lefel strategol, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gyffredinol yn ei ardal, yn ogystal â threfniadau i gefnogi nodi anghenion a darpariaeth i ddiwallu’r anghenion hynny. Mae'r adolygiad hwn yn rhan allweddol o gynlluniau a phenderfyniadau strategol lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion cyfredol ac anghenion tebygol yn y dyfodol a sicrhau darpariaeth a gwasanaethau digonol i ddiwallu'r anghenion hynny.

2.3. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sefydlu dull cyson o weithredu'r Cod ADY a'r Ddeddf ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwnaethom ofyn i Estyn adolygu cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol o ran gweithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol a chefnogi disgyblion ag ADY. Mae'r adolygiad hwn yn hanfodol i'n helpu i ddeall y cynnydd a gyflawnwyd, a meysydd i'w gwella sy'n ofynnol ar draws y system wrth i'r diwygiadau ADY barhau i gael eu gweithredu.

2.4. Canfuwyd bod disgyblion yn yr ysgolion a adolygwyd ganddynt, ar y cyfan, yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, er iddynt ganfod bod lleoliadau unigol yn dehongli ac yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid addysg i nodi heriau ac amrywiadau o ran gweithredu, tynnu sylw at arfer effeithiol a chyd-greu camau pellach.

## 3. Darpariaeth Gymraeg

3.1. Un o nodau craidd y Ddeddf ADY yw creu system ddwyieithog o gymorth i ddysgwyr ag ADY. O dan y system ADY newydd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg ystyried a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) gael ei darparu i blant neu bobl ifanc yn Gymraeg. Pan fo dysgwr angen DDdY yn Gymraeg, rhaid nodi hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol, a rhaid i'r corff gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.

3.2. Mae'r Ddeddf ADY hefyd yn cynnwys cyfres o ddyletswyddau strategol sydd â'r nod o sbarduno cynnydd tuag at system ADY ddwyieithog. Yn benodol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg. Os nad yw'n ddigonol, rhaid iddynt gymryd camau i unioni hynny.

3.3. Rhaid i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sut y byddant yn defnyddio canfyddiadau eu hadolygiadau o dan y Ddeddf ADY i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu o fewn y sector ADY.

3.4. Mae'r heriau a amlygwyd gan [Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol], papur polisi ar y cyd gan y Comisiynydd Iaith a Chomisiynydd Plant Cymru, yn adleisio llawer o'r pwyntiau a godwyd gyda ni gan y sector a chan ddysgwyr a'u teuluoedd. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn flaenoriaeth.

3.5. Mae grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol wedi'i sefydlu i helpu i gydgysylltu a blaenoriaethu datblygiad darpariaeth ddysgu ychwanegol, adnoddau a dysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg ar lefel genedlaethol. Bydd y grŵp yn cael ei gefnogi gan Arweinydd Cenedlaethol y Gymraeg a fydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu cynnig cyson ledled Cymru.

3.6. Drwy'r cwmni adnoddau addysgol dwyieithog newydd 'Adnodd', ein nod yw parhau i greu adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru a nodi a chomisiynu adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY yn well.

## 4. Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl

4.1. O dan y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg, mae dyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc. Mae'r ddyletswydd yn rhoi effaith i hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRPD).

4.2. Mae'r system ADY yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol ac ysgol i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ethos Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r defnydd o ddulliau PCP. Mae Pennod 4 o God ADY Cymru yn esbonio'r ddyletswydd hon a'r hyn a ddisgwylir. Mae adnoddau o bob math ar gael ar Hwb i helpu ymarferwyr i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

4.3. Canfu adolygiad thematig diweddar Estyn o weithredu diwygiadau ADY fod awdurdodau lleol ac ysgolion yn unedig yn eu brwdfrydedd dros PCP a

chynllunio. O ganlyniad, mae'r berthynas rhwng ysgolion a theuluoedd wedi gwella. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyd-fynd yn dda â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a ddyluniwyd i fod yn gynhwysol.

4.4. Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gefnogi awdurdodau lleol yn eu dyletswyddau fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021. Mae hyn yn rhoi canllawiau ar ddarparu cyngor a gwybodaeth; datrys anghytundebau; cyfeillion achos; a gwasanaethau eirioli annibynnol.

4.5. O dan y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi cyngor a chanllawiau diduedd i bobl ar ADY a'r system ADY a chymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau hyn yn hysbys i ddarparwyr, plant, pobl ifanc a rhieni.

4.6. Canfu adolygiad thematig Estyn o weithredu'r diwygiadau ADY fod bron pob awdurdod lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad wedi lanlwytho gwybodaeth berthnasol am ddiwygio ADY i'w gwefannau. Yn ogystal, mae ystod o daflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, a phlant a phobl ifanc, hefyd wedi'u cynhyrchu. Mae'r rhai sydd wedi'u cynhyrchu gan glystyrau o ysgolion, neu'n rhanbarthol, yn helpu i sicrhau neges gyson ar draws rhanbarth.

4.7. Fodd bynnag, nododd Estyn fod ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth i rieni ar wefannau cynghorau ac ysgolion yn rhy amrywiol a bod rhai teuluoedd yn cael eu hysbysu'n anghywir nad yw'r system ADY yn berthnasol i'w plentyn. Yn ogystal, mae gwybodaeth gan Dribiwnlys Addysg Cymru a rhieni yn awgrymu bod angen mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau a mwy o atebolrwydd.

4.8. Mae argymhellion yn adolygiad Estyn yn cynnwys y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth glir, gywir a chyfredol i randdeiliaid mewn perthynas â'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu hysgolion; ac i ysgolion wella ansawdd yr wybodaeth y maent yn ei darparu i rieni a datgan yn glir beth mae'r ysgol yn ei ystyried yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

## 5. Tasglu Hawliau Anabledd

5.1. Mae'r Tasglu Hawliau Anabledd yn dod â phobl â phrofiad bywyd, sefydliadau cynrychiadol ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ynghyd, gyda'r nod o gael gwared ar yr anghydraddoldebau a'r gwahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu bob dydd, ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Tasglu'n gweithio'n unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, ac o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn unig.

5.2. Mae'r Tasglu wedi sefydlu nifer o weithgorau thematig i ddatblygu blaenoriaethau allweddol ar gyfer plant ac oedolion anabl. Mae gan y gweithgorau amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n

cefnogi pobl anabl, pobl â phrofiad bywyd ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

5.3. Mae'r Gweithgor Plant a Phobl Ifanc wedi cynnal dau gyfarfod hyd yma ac wedi clywed cyflwyniadau gan gydweithwyr yn CAMHS ac Anabledd Dysgu Cymru. Rydym yn gwneud cynlluniau i gael cyfranogiad plant, rhieni a gofalwyr i lywio ein gwaith. Bydd y grŵp yn cyflwyno argymhellion a chamau gweithredu a gydgynhyrchwyd i'r Tasglu Hawliau Anabledd ar 14 Rhagfyr 2023. Bydd argymhellion y gweithgorau yn ffurfio Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd, y byddwn yn dechrau ei ddrafftio yn 2024.

## 6. Y Gweithlu ADY

6.1. Rhan allweddol o'n gwaith ar weithredu'r system ADY newydd yw helpu i sicrhau y gall athrawon ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY fel y gallant roi addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau eraill wedi'u targedu ar waith fel y gall plant ddysgu'n fwy effeithiol a gwneud y defnydd gorau o gyngor a chymorth arbenigol a ddarperir gan arbenigwyr.

6.2. Fel rhan o'r dysgu proffesiynol sydd ar gael i bob athro, rydym wedi datblygu llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol ar-lein. Bwriad y llwybr hwn, sydd ar gael ar Hwb, yw helpu pob athro i gefnogi dysgwyr ag ADY, ac yn enwedig Cydlynwyr ADY (CADY) sydd â rôl strategol mewn ysgolion a nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf i athrawon sy'n ceisio cyngor ac arweiniad ar ADY. Byddwn yn parhau i adolygu dysgu proffesiynol ar ADY wrth i'r diwygiadau ADY gael eu cyflwyno.

6.3. Er mwyn cynorthwyo gyda chyflenwi arbenigwyr, ariannodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn awdurdodau lleol sy'n addysgu dysgwyr sydd â nam ar y synhwyrau ac rydym yn sianelu dros £2.6 miliwn rhwng 2022-23 a 2024-25 i hyfforddi seicolegwyr addysgol newydd, drwy gytundeb gyda Phrifysgol Caerdydd, y mae'n rhaid iddynt dreulio dwy flynedd gyntaf eu gyrfa yn gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru.

6.4. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio eu gweithlu ac, o dan y Ddeddf ADY a’r Tribiwnlys Addysg, mae'n ofynnol iddynt adolygu eu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a threfniadau eu hysgolion a gynhelir yn gyson. Rhaid i'r adolygiad hwn ystyried maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael.

6.5. Rydym yn effro i bryderon ynghylch y llwyth gwaith cynyddol a roddir ar y CADY a'r angen i ysgolion sicrhau bod digon o gymorth o amgylch y CADY i'w atal rhag mynd yn ynysig a chael ei lethu gan lwythi achosion. Mae'r Cod ADY yn nodi'n glir nad yw’r ffaith bod CADY wedi'i ddynodi yn dileu cyfrifoldebau’r gweithlu ehangach.

6.6. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen CADY wedi bod yn edrych ar gyflog ac amser heb gyswllt CADY mewn ymateb i argymhelliad gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) a disgwylir iddo adrodd yn ôl i Weinidog y

Gymraeg ac Addysg erbyn mis Rhagfyr gydag argymhellion ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ar y mater hwn.

## 7. DARPARIAETH GOFAL PLANT

### Trosolwg

7.1. Mae'r sector Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru yn cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, sy'n ddarostyngedig i gyfres o Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

7.2. Y gwahaniaeth allweddol yw rhwng gwarchod plant a gofal dydd. Mae gwarchod plant yn fath o ofal plant a ddarperir gan un neu fwy o bobl ar gyfer plant o'u geni hyd at 12 oed mewn eiddo domestig nad yw'n gartref i'r plentyn ei hun, am fwy na 2 awr y dydd am dâl. Darperir gofal dydd ar safleoedd annomestig, ac mae'n cynnwys meithrinfeydd dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol, grwpiau chwarae, crèches a chwarae mynediad agored.

7.3. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth o system Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) integredig yn 2019, gan ganolbwyntio ar yr egwyddor y dylai pob plentyn gael profiad dysgu a gofal ysgogol o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal y maent yn ei fynychu. Yn eistedd o fewn tirwedd ehangach o gymorth y blynyddoedd cynnar, mae ECPLC yn canolbwyntio ar ddarpariaeth cyn ysgol (0-5), gan adeiladu ar y rhaglenni sydd eisoes ar waith yn y maes hwn:

- Dechrau'n Deg;
- Y Cynnig Gofal Plant;
- Darpariaeth gyffredinol addysg gynnar.

7.4. Dechrau'n Deg, a lansiwyd yn 2006, yw rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru. Mae'n parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan ei hymrwymiad i barhau i gefnogi'r rhaglen drwy gydol tymor y llywodraeth hon.

7.5. Nod y rhaglen blynyddoedd cynnar hon sydd wedi'i thargedu yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan bedair oed gyda phedair elfen graidd; gofal plant o ansawdd sydd wedi'i ariannu'n llawn, cymorth rhianta, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg wedi'i dargedu'n ddaearyddol gan ddefnyddio data budd-daliadau incwm, dangosydd procsi ar gyfer tlodi, i nodi ardaloedd sydd â'r cyfrannau uchaf o blant o dan 4 oed sy'n byw mewn aelwydydd sy’n cael budd-dal incwm. Mae canllawiau rhianta Dechrau'n Deg yn cydnabod y gallai fod angen ystyriaeth arbennig ar rai rhieni ac efallai y bydd angen i'r rhai sy'n darparu cymorth rhianta addasu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys rhieni plant anabl a'r rhai sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

7.6. Yn 2021-22, y flwyddyn olaf o ddata'r rhaglen sydd ar gael ar hyn o bryd, roedd gan 2% o blant ar lwythi achosion ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg nam datganedig. Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn datgan bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer plant ag ADY ac anableddau i'w galluogi i gael darpariaeth i'r graddau y bo hynny'n ymarferol ac er budd gorau'r plentyn. Gall yr ymrwymiad hwn ymestyn i hyfforddiant, prynu offer a chefnogi addasiadau i'r amgylchedd. Mae canllawiau rhianta Dechrau'n Deg hefyd yn cydnabod y gallai fod angen ystyriaeth arbennig ar rai rhieni ac efallai y bydd angen i'r rhai sy'n darparu cymorth i rieni addasu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys rhieni plant anabl a'r rhai sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

7.7. Y Cynnig Gofal Plant i Gymru yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed rhieni cymwys am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

7.8. Nod y Cynnig yw ystyried y rhwystrau y gall rhieni cymwys eu hwynebu wrth geisio manteisio ar elfen gofal plant, yn enwedig y rhai sydd â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol gan gynnwys anableddau dysgu, amhariadau corfforol ac amhariadau ar y synhwyrau. Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn gynhwysol i blant cymwys sydd angen cymorth ychwanegol, mae help ar gael drwy ffrwd ariannu ar wahân o'r enw Grant Cymorth Ychwanegol (ASG) y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

7.9. Mae adolygiad annibynnol o'r ASG yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a disgwylir iddo adrodd ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion erbyn mis Mawrth 2024. Mae'r tîm adolygu wedi cyhoeddi arolwg i bob un o'r 2,500 a mwy o ddarparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o bryderon darparwyr o ran cael mynediad at gymorth a chyllid ar gyfer y plant hynny sydd ag anghenion cymorth ychwanegol sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Rydym yn gwybod bod llawer o ddarparwyr yn cael mynediad yr ASG ar gyfer y plant cymwys hynny sydd ei angen, ond oherwydd y gofynion cyfredol o ran monitro ac adrodd am grantiau, ni all Llywodraeth Cymru asesu cwmpas y galw yn llawn. Bwriad y prosiect ymchwil yw i ni ddeall yn well a yw'r grant presennol yn ddigonol ac yn hawdd ei gyrraedd, a gwneud gwelliannau lle bo angen i sicrhau y gall pob plentyn cymwys elwa.

7.10. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd y tîm ymchwil hefyd yn gofyn am farn rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig, gan gynnwys y rhai sydd wedi derbyn cymorth drwy'r ASG, er mwyn deall yn well sut y gellir hyrwyddo, cyrchu a chydgysylltu'r cymorth hwn.

## 8. Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol

8.1. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i fodloni

gofynion rhieni yn eu hardal i'w galluogi i weithio neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant. I'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae ALlau yn cynnal asesiad o ddigonolrwydd gofal plant y mae'n rhaid iddo gael ei gefnogi gan gynllun gweithredu, sy'n nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth a sut y maent yn bwriadu eu pontio a'u hadolygu'n gyson. Yna, rhaid iddynt adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r camau hyn yn flynyddol. Rhoddodd ALlau eu hadroddiadau cynnydd diweddaraf i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2023.

8.2. Mae'r asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau ystyried y materion sy'n ymwneud â mynediad at ofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau o rieni a gofalwyr, gan gynnwys teuluoedd â phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n anabl. Dangosodd rhai o'r bylchau a nodwyd gan asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn 2022 ddigwyddedd uwch o blant ag anghenion ychwanegol ar ôl y pandemig, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion lleferydd ac iaith.

8.3. Gall y dull mae ALlau yn ei ddefnyddio i nodi a gweithredu atgyfeiriadau ADY yn eu hardaloedd fod yn wahanol o un ALl i'r llall, ond mae gan y rhan fwyaf o ALlau eu timau/pobl ymroddedig eu hunain i reoli darpariaeth ADY i sicrhau cynhwysiant a mynediad.

8.4. Mae adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol ar gyfer 2022-23 yn dangos bod timau amlasiantaethol yn targedu cymorth i'r plant hynny y nodwyd bod ganddynt ADY, a gallai hyn gynnwys darparu hyfforddiant i'r sector, adnoddau arbenigol, cymorth un i un a/neu gymorth arall.

8.5. Mae elfen Gofal Plant a Chwarae y Grant Plant a Chymunedau yn darparu cyllid i ALlau i'w helpu i fynd i'r afael â bylchau yn eu hasesiadau o ddigonolrwydd gofal plant, gan gynnwys gwella mynediad i'r rhai ag ADY. Mae ALlau wedi defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi Lleoedd a Gynorthwyir, Dwylo Ychwanegol a chymorth un i un i wella mynediad ar gyfer plant ag ADY.

8.6. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn cynnal 'Paneli Darpariaeth Uwch' amlasiantaethol bob hanner tymor i sicrhau bod plant y nodwyd bod ganddynt oedi mewn datblygiad yn cael eu cefnogi'n briodol gydag ymyrraeth gynnar mewn lleoliadau. Maent hefyd yn darparu ystafell synhwyraidd yn y ganolfan blant integredig yn ystod gwyliau ysgol ac ar gyfer sesiynau ar ôl ysgol.

8.7. Mewn awdurdod lleol arall, defnyddiwyd y cyllid grant gofal plant a chwarae i ddatblygu llyfrgell adnoddau o offer arbenigol ar gyfer ADY, wedi'u hategu gan ganllawiau ar strategaethau i fanteisio'n llawn ar yr offer.

## 9. Camau Nesaf

9.1. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei map trywydd newydd ar gyfer addysg—safonau a dyheadau uchel i bawb. Mae hyn yn

nodi ein blaenoriaethau ar gyfer addysg, a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni yn y tymor Senedd hwn.

9.2. Mae hwn yn fap trywydd cydlynol sy'n cwmpasu ehangder addysg yng Nghymru ac ar gyfer Cymru, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16 a thu hwnt. Mae'n nodi'r chwe amcan y credwn y byddant yn ein helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny, sef: dysgu am oes; chwalu rhwystrau; profiad addysg cadarnhaol i bawb; addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel; dysgu yn y gymuned; ac mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

9.3. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd, rhannu arferion effeithiol a gweithio drwy heriau wrth i'r system ADY barhau i gael ei gweithredu. Bydd Estyn yn cynnal ail adolygiad thematig yn 2024, yn ogystal â gwerthusiad ffurfiannol o weithredu'r system ADY (y Ddeddf ADY a'r Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig). Bydd barn y rhai sy'n gweithredu'r system ADY a phrofiadau plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn rhoi gwybodaeth bwysig i asesu cynnydd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

**Ebost**: rob@robwilks.com
(Rob Wilks, Ysgrifennydd)

**Cross-Party Group on Deaf Issues**

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

**Email**: rob@robwilks.com
(Rob Wilks, Secretary)

# GOHEBIAETH
# CORRESPONDENCE

**Recipient Name:** Senedd Children, Young People and Education Committee

**Address:** Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

**Email:** SeneddChildren@senedd.wales

**CC:** Ian Morgan, Chief Executive, Welsh Joint Education Committee (ian.morgan@wjec.co.uk)
Philip Blaker, Chief Executive, Qualifications Wales (philip.blaker@qualifications.wales, enquiries@qualifications.wales)

12 November 2023

Dear Members of the Senedd Children, Young People and Education Committee

**GCSE British Sign Language**

At the Cross-Party Group for Deaf Issues (the Group) meeting on 30 June 2023, it was agreed that the Chair would write to you on behalf of the Group to bring to your attention significant concerns raised regarding the introduction of the GCSE British Sign Language (BSL) and its potential impact on deaf education in Wales.

During our discussion, Group members highlighted the issue of the GCSE BSL set to be introduced in England in September 2025. While the Department of Education in London launched a consultation on this matter, it is crucial to note that Qualifications Wales has announced the development of a 'Made-for-Wales' GCSE in BSL. The focus of our agenda item shifted to address the Welsh GCSE BSL specifically.

The Group has concerns regarding the potential shortage of qualified teachers for the new GCSE BSL. In England, where the GCSE BSL will be available from September 2025, there are worries that hearing teachers may be recruited to teach BSL due to a lack of deaf teachers. This could pose a significant challenge, as these hearing teachers may not have the requisite levels of BSL skill to effectively teach the language. We wish to emphasise the importance of prioritising the development

of a generation of fluent BSL users, particularly among deaf children, before rushing into the implementation of a GCSE in BSL in Wales.

The British Association of Teachers of Deaf Children and Young People Cymru representative of the Group also noted that Teachers of Deaf Children and Young People are already receiving requests for teaching resources, and there is a need to establish foundational support before introducing the GCSE in Wales.

In light of these concerns, the Group agreed that the Chair would write to the Senedd Children, Young People and Education Committee, the Welsh Joint Education Committee and Qualifications Wales to express our reservations and seek further clarification on the readiness and implications of introducing GCSE BSL in Wales.

Therefore, on behalf of the Group, I kindly request that you consider these important matters during your scrutiny of the GCSE BSL initiative. We believe it is crucial to ensure that the introduction of GCSE BSL is well-planned and considers the unique needs and challenges faced by the Deaf community in Wales.

Thank you for your attention to this matter. We look forward to your insights and guidance on ensuring the successful implementation of GCSE BSL in Wales, and to receiving your response accordingly.

Yours faithfully

Mark Isherwood

**Mark Isherwood MS**
**Chair of the Cross-Party Group on Deaf Issues**

**Lynne Neagle AS/MS,**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Tachwedd 2023

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Medi 2023 ynghylch eich gwaith parhaus yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r llythyr yn gofyn hefyd am ragor o wybodaeth neu ddiweddariadau mewn nifer o feysydd, ac rwyf wedi'u cynnwys yn yr ymateb hwn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddatblygu ein Strategaeth Iechyd Meddwl a'n Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed er mwyn ymgynghori arnynt yn ddiweddarach eleni. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor ein bod yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i helpu i lywio'r gwaith hwn. Fe wnes i gyfarfod â Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Gorffennaf i drafod yr aliniad rhwng y themâu allweddol ar draws argymhellion eu Pwyllgor Iechyd Meddwl a'r rhaglen waith iechyd meddwl sy'n datblygu, a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y strategaeth. Mae swyddogion wedi cael nifer o sesiynau gyda Senedd Ieuenctid Cymru a'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid hefyd, yn fwyaf diweddar ym mis Hydref i lywio ein gwaith strategaeth ymhellach.

Fe wnaethom lansio arolwg dros yr haf hefyd i lywio ein strategaethau, a gwnaethom hyrwyddo hyn i annog pobl ifanc i rannu eu barn. Ein nod yw cydgrynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn ac argymhellion adroddiadau blaenorol Pwyllgor y Senedd i lywio'r camau gweithredu yn y strategaethau. Er mwyn newid a gwella'r cymorth sydd ar gael yn ystyrlon, mae'n hanfodol ein bod yn canolbwyntio ein gwaith mewn meysydd blaenoriaeth allweddol neu themâu cyffredin ar draws yr adroddiadau, arolygon ac adolygiadau amrywiol sy'n gwneud argymhellion i wella iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc. Mae'r strategaethau newydd yn gyfle i wneud hynny; gan nodi blaenoriaethau allweddol a fydd yn arwain at y newidiadau rydym ni i gyd am eu gweld.

Bydd y strategaethau drafft yn nodi'r camau gweithredu lefel uchel a byddant yn cael eu cefnogi gan Gynlluniau Cyflawni manylach. Pan fydd y strategaethau'n destun ymgynghoriad, bydd swyddogion yn dechrau gwaith ar y Cynlluniau Cyflawni manwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein nod yw sicrhau'r Pwyllgor, drwy'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni, bod y themâu allweddol o adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu cynnwys.

Yna bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiadau arferol yn erbyn y Cynllun Cyflawni yn hytrach nag adroddiadau ar wahân ar adroddiadau blaenorol y Pwyllgor a gyhoeddwyd yn nhymor diwethaf y Senedd. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn sicrwydd rheolaidd, ond mae'n sicrhau hefyd y gall swyddogion a chydweithwyr yng Ngweithrediaeth y GIG ganolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu heb orfod darparu diweddariadau lluosog.

Byddwn yn cyhoeddi'r strategaethau Iechyd Meddwl ac Atal Hunanladdiad er mwyn ymgynghori arnynt ddiwedd y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, hoffwn gynnig cyfarfod gyda swyddogion i roi briff ffeithiol i chi ar sut mae argymhellion y Pwyllgor wedi llywio'r camau gweithredu.

**<u>Pontio o CAHMS i AMS</u>**

Mae 'Sort the Switch' yn cynnwys un prif argymhelliad cyffredinol i weithredu ac i wella ein gallu i fonitro Canllawiau Pontio Llywodraeth Cymru. Rwy'n derbyn yr argymhelliad allweddol hwn ac rwyf wedi ymrwymo i'w gyflawni. Fel y gwyddoch, ym mis Mai 2022, comisiynwyd TGP Cymru gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad a chyhoeddi adroddiad yn tynnu sylw at brofiadau pontio pobl ifanc yn eu geiriau eu hunain. Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd MIND Cymru adroddiad pontio annibynnol pobl ifanc hefyd. Mae'r ddau adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ac, i sicrhau ein bod yn gallu canolbwyntio adnoddau prin mewn meysydd allweddol, rydym yn canolbwyntio ar y themâu cyffredin yn y ddau adroddiad, sef:

- Gwella cymorth wrth aros i symud i AMHS.
- Gwella cyfathrebu a gwybodaeth.
- Gwell cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal iechyd pontio.
- Gweithredu'r canllawiau pontio.
- Gwella ein gallu i fonitro cynnydd a phrofiad.

Er y bydd ffocws yn y meysydd hyn yn cyflawni'r weledigaeth yn y ddau adroddiad, rwy'n cydnabod bod adroddiad Sort the Switch yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion sylfaenol ehangach – er enghraifft, ymestyn cymorth eiriolaeth, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith pontio. Mae'r argymhellion ehangach hyn wedi cael eu hystyried ynghyd ag amrywiaeth o wybodaeth arall i lywio'r strategaethau drafft a byddwn yn ymgynghori ar y rhain yn ddiweddarach eleni.

Yn dilyn y gweithdai a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2022/23, mae Rhwydwaith Gweithredu CAMHS (yng Ngweithrediaeth y GIG) yn gweithio gyda Byrddau Iechyd (CAMHS ac AMHS), Mind Cymru a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd i wella a monitro'r broses bontio barhaus. Mae Rhwydwaith Gweithredu CAMHS yn trafod gyda Mind Cymru ar hyn o bryd i nodi cyfranogwyr ac i ddod â grŵp o bobl ifanc at ei gilydd. Byddaf yn ymwneud â'r broses gysylltu ac ymgynghori hon gyda phobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio fframwaith cryfach ar gyfer monitro gweithrediad y canllawiau a disodli neu ail-ddylunio'r pasbort person ifanc. Bydd prif ffocws Rhwydwaith Gweithredu CAMHS fel a ganlyn:

- Datblygu dealltwriaeth glir o'r broses bontio yn barhaus mewn ymgynghoriad â phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o wasanaethau.

- Parhau i feithrin dealltwriaeth o arlwy bresennol y Byrddau Iechyd a'u dulliau drwy brofiad bywyd pobl ifanc.
- Gweithio gyda phobl ifanc a byrddau iechyd i gyd-greu tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymarfer i gefnogi datblygiad gwasanaethau.
- Annog a hwyluso byrddau iechyd i ddarparu proses bontio ddi-dor, o safon uchel.
- Sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth o ansawdd a chynlluniau gofal iechyd pontio yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda'r person ifanc.
- Rhannu arfer da ar draws byrddau iechyd.
- Parhau i archwilio'r dystiolaeth ar gyfer ymestyn ystod oedran CAMHS Arbenigol i 25 oed.
- Datblygu ac adrodd yn rheolaidd am werthuso a monitro aeddfedrwydd darpariaeth gwasanaethau mewn Byrddau Iechyd unigol.

Bydd y gwaith mae tîm Rhwydwaith Gweithredu CAMHs yn ei wneud nawr yn cynnwys ymgynghoriad parhaus â phobl ifanc wrth weithio ochr yn ochr ag Is-adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG. Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall taith a phrofiad y person ifanc ac yn cefnogi datblygiad dulliau casglu data a holiaduron bodlonrwydd cleifion. Bydd y bwriad i ddatblygu dull gwerthuso ac adrodd rheolaidd ar wasanaethau'n cefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau hefyd.

Bydd gwella pontio yn flaenoriaeth yn y Strategaeth ddrafft, gyda diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni terfynol unwaith y cytunir arno.

Mewn perthynas â gwaith yr Uned Gyflawni ar CAMHS; mae'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer CAMHS yn arwain gwaith i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol a nodwyd gan Uned Gyflenwi'r GIG (sydd bellach yn rhan o Weithrediaeth y GIG), gan gynnwys cefnogi rhannu enghreifftiau o arfer da ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei ategu gan fanyleb gwasanaeth genedlaethol ar gyfer CAMHS arbenigol y GIG i sicrhau tegwch o ran darpariaeth ar draws Cymru gyfan a galluogi Byrddau Iechyd i ddatblygu cynlluniau gwella ansawdd. Y nod presennol yw i'r bwrdd iechyd gytuno ar gynlluniau gwella y gellir eu dwyn i gyfrif amdanynt erbyn gwanwyn 2024. Cyn bo hir, bydd Gweithrediaeth y GIG yn penodi arweinydd clinigol iechyd meddwl i sbarduno'r gwaith hwn ar y cyflymder angenrheidiol.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ochr yn ochr â'r ffocws cryfach ar berfformiad mewn cyfarfodydd misol rhwng Gweithrediaeth y GIG a'r byrddau iechyd. Mae gan bob bwrdd lwybrau perfformiad ac amseroedd aros ar waith i gyrraedd targedau amseroedd aros erbyn mis Mawrth 2024.

Yn fy ymateb ar 26 Mai i argymhelliad 8 o'ch ymholiad i gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, nodais ein bod bellach wedi cytuno ar ein trefniadau llywodraethu ac adrodd ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan (elfen addysg dull system gyfan ehangach NYTH/NEST).

Disodlodd Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni newydd, a gynullwyd ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol blaenorol ar Ddull Ysgol/System Gyfan o Ymdrin â Lles. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cyflawni ei gylch gwaith mewn perthynas â lleoliadau addysg drwy gyhoeddi'r Fframwaith statudol ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol (Mawrth 2021) a chyllid sylweddol cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgarwch. O'r herwydd, roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau'n teimlo y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ganolbwyntio ar weithredu a

darparu gweithgarwch yn awr. Cynhaliodd y Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni newydd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai.

Mae gan y Bwrdd ffocws penodol ar graffu a her i sicrhau bod ein Fframwaith a'r gwaith cysylltiedig sy'n cefnogi ei weithrediad yn cael ei weithredu'n gyson ac yn effeithiol. O dan y Bwrdd, mae saith ffrwd waith yn adrodd ar y gweithgarwch allweddol sydd ei angen i gyflawni ein hamcanion llesiant yn llwyddiannus, sef:

- gweithredu'r Fframwaith;
- cyflwyno ein gwasanaeth cymorth mewnol CAMHS mewn ysgolion;
- ehangu a gwella cwnsela mewn ysgolion;
- lles a hyfforddiant y gweithlu addysg;
- grŵp addysg gyfan, sy'n edrych ar les ar draws y sector cyfan o'r cyfnod sylfaen i addysg uwch;
- grŵp cyfeirio rhanddeiliaid sy'n ystyried materion megis adnoddau, monitro a gwerthuso; a
- ein Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol sy'n sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn llywio gweithgarwch.

Yn fy ymateb i'ch ymholiad, ymrwymais i ddarparu adroddiad blynyddol (fesul blwyddyn academaidd) ar weithgarwch. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried yr adroddiad cyntaf o'r fath a byddaf yn ysgrifennu eto am hyn maes o law.

Rydym yn cydnabod hefyd na all yr ysgol fynd i'r afael ar ei phen ei hun â'r holl faterion lles sy'n wynebu pobl ifanc heddiw a bod rhaid i'n dull ysgol gyfan fod yn rhan o ddull system gyfan ehangach. Mae'r fframwaith NYTH/NEST yn defnyddio dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Nod ein llywodraethu o ran NYTH/NEST yw meithrin egwyddorion system gysylltiedig. Mae ein Grŵp Llywio Cenedlaethol NYTH/NEST yn gymysgedd o gydweithwyr Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol sy'n ymwneud â chreu NYTH/NEST i gyfarwyddo gweithrediad. Yn ogystal, mae gennym grŵp trawslywodraethol sy'n cynnwys ystod eang o ddeiliaid polisi i sicrhau bod NYTH/NEST yn cael ei gymhwyso drwy gydol ein gwaith ehangach ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n bwysig i ni fod ein gwaith system gyfan mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant yn cael ei lywio a'i gyfarwyddo gan bobl ifanc eu hunain, felly rydym yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol a grwpiau ieuenctid eraill i ymgysylltu'n barhaus â'n gweithrediad NYTH/NEST parhaus. Rydym yn datblygu adroddiadau NYTH/NEST cenedlaethol blynyddol a fydd yn darparu diweddariadau cynnydd ar weithredu NYTH/NEST yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Er mwyn cefnogi gweithrediad NYTH/NEST, rydym yn cyd-gynhyrchu offeryn Hunanasesu a Gweithredu NYTH/NEST a hyfforddiant NYTH/NEST, yn ogystal â dogfen enghreifftiau o arferion da.

O ran y cwestiynau penodol a godwyd gennych (5 a i c) yn eich llythyr:

a. Gwaith cydlynwyr gweithredu Iechyd Cyhoeddus Cymru, pa mor sefydledig yw'r rhwydwaith o gydlynwyr ledled Cymru, a pha effaith mae'r gwaith hwn yn ei gael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £670,000 i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y flwyddyn bresennol i gefnogi gweithredu'r Fframwaith statudol. Mae hyn wedi galluogi ICC i recriwtio saith cydgysylltydd gweithredu (cyfwerth ag amser llawn), sydd wedi'u hymgorffori yn Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach. Mae'r cynnydd i wreiddio'r Fframwaith ar draws ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn parhau i wella, yn enwedig ymysg ysgolion sydd â dysgwyr oedran uwchradd. Fodd bynnag, mae ffocws parhaus yn cael ei roi ar gynyddu cyfran yr ysgolion sydd â chynlluniau gweithredu

strategol wedi'u gwreiddio'n rheolaidd yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol (SDPs). Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2023 roedd 52% o ysgolion (48% o ysgolion cynradd, 73% o ysgolion uwchradd a 73% o ysgolion arbennig/UCDau) wedi ymgymryd â'r broses hunanwerthuso, tra bod gan 28% (24% o ysgolion cynradd, 46% o ysgolion uwchradd a 47% o ysgolion arbennig/UCDau) gynlluniau gweithredu ar waith. Mae'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a minnau'n parhau i bryderu am gyflymder y cynnydd, a gwnaethom y pwynt hwn i ICC pan wnaethom gyfarfod â nhw ym mis Medi. Mae ICC wedi gosod targed o 80% o ysgolion â dysgwyr uwchradd i nodi camau gweithredu yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol erbyn mis Mawrth 2024, gan gynyddu i o leiaf 90% erbyn mis Mawrth 2025

Mae ICC yn cynnal gwerthusiad dulliau cymysg hefyd sy'n canolbwyntio ar weithredu'r Fframwaith ar draws sawl cam, gan gynnwys hunanasesu anghenion a chryfderau; creu cynllun gweithredu; a gweithredu gweithio ar draws y system. Mae'r gwaith hwn yn defnyddio adborth gan ysgolion sydd eisoes wedi ymgysylltu â chydlynwyr gweithredu.

Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg ym mis Mehefin/Gorffennaf 2023 a archwiliodd gynnydd ysgolion a lleoliadau addysg o ran datblygu eu dulliau ysgol gyfan a'u defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni hyn. Gwahoddodd yr arolwg aelodau o uwch dimau rheoli ac arwain a/neu staff arweiniol iechyd a lles o ysgolion a lleoliadau addysg i ymateb. Roedd hyn yn cynnwys ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau'n ffurfiol ar 16 Tachwedd fel Bwletin Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Yn ogystal, wrth ddisgwyl cytundeb cyllidebol, rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol hefyd ar ffurf cyfweliadau a/neu waith grŵp ffocws gydag ymatebwyr i ystyried rhai o'r materion a godwyd yn yr arolwg ymhellach.

b. <u>Diweddariad ar waith i fesur a gwerthuso gweithrediad/canlyniadau'r dull ysgol gyfan, yn dilyn cyhoeddi'r asesiad gwerthuso ym mis Ionawr 2022.</u>

Mae gweithgarwch amrywiol ar y gweill i fesur a gwerthuso gweithgarwch ar lefel strategol, leol ac ysgol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y gweithgarwch yn anghymesur ac nad yw'n cydnabod yn llawn yr holl gyd-ddibyniaethau yn y maes hwn. O'r herwydd, rydym wedi cytuno bod angen datblygu strategaeth werthuso a monitro fanwl sy'n ceisio uno'r holl weithgarwch hwn mewn cynllun gwerthuso a fydd yn cynnwys ein prosiectau ymchwil tymor byr ac a fydd yn archwilio sut y gallwn ystyried monitro tymor hwy. Rwy'n obeithiol y gall y gwaith cwmpasu cychwynnol ar y gwaith hwn ddechrau yn gynnar yn 2024 i'w gytuno gan y Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni ac i lywio'r broses gyllido a phennu'r gyllideb ar gyfer 2024-25.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Crynodeb ymchwil ar effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau cwnsela statudol mewn ysgolion a chymunedau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cam 2 ein hymchwil i archwilio gweithrediad yr arolwg dull ysgol gyfan (fel y manylir arno yn (a) uchod), a fydd yn archwilio'r help a ddarperir i ysgolion a lleoliadau addysg a'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi datblygiad eu dull gweithredu, yn ogystal â sut y gellir eu cefnogi ymhellach i gyflawni eu dull.
- Arolwg bob dwy flynedd Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar gyfer uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd a gwaith i ymestyn hyn i ysgolion cynradd.
- Gwerthusiad Canolfan Iechyd Meddwl Pobl Ifanc Wolfson o'r dull ysgol gyfan yng Nghymru.

- Gweithgarwch gwerthuso ICC (fel y manylir yn (a) ar weithredu'r dull ysgol gyfan ac ysgolion sy'n cymryd rhan yn y broses.
- Cyd-ddibyniaethau ehangach megis y gweithgarwch lles mae ysgolion yn ei gefnogi gan ddefnyddio eu cyllid Grant Datblygu Disgyblion a gwaith Estyn o ran ystyried lles fel rhan o'r broses arolygu.
- Data a ddarperir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gefnogi'r cyllid a ddarparwn mewn perthynas â chwnsela ysgol; darparu hyfforddiant ac ymyriadau mewn ysgolion; ac mewn perthynas â'n gwasanaeth cymorth mewnol CAMHS mewn ysgolion.

c. Rhwystrau a nodwyd hyd yma i weithredu'r dull ysgol gyfan yn llwyddiannus ledled Cymru (er enghraifft, mewn perthynas â chapasiti staff ysgolion i gefnogi lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, ac argaeledd cymorth arbenigol mewn ardaloedd lleol).

Mae'r pwyntiau rydych chi'n eu gwneud ynghylch capasiti ac argaeledd cymorth yn ddilys. Yn ogystal, nid yw sefydlu llif gwaith ein gweithlu, o dan y Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni, wedi gwneud cynnydd ar y cyflymder yr hoffem ei weld, am amrywiaeth o resymau. Fodd bynnag, trafododd y Bwrdd y cynnydd yn y maes hwn yn ei gyfarfod diweddar ar 24 Hydref a chytunodd ar nifer o gamau gweithredu a ddylai fod yn newid sylweddol yn y gwaith hwn.

Yn ogystal, rydym yn falch bod gennym gymorth mewnol CAMHS mewn ysgolion ar gael ar draws Cymru gyfan bellach, gyda dros £5 miliwn o gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r fenter bwysig hon. Fodd bynnag, fel y mae'r timau'n sefydlu, byddwn am sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ac yn deg ar draws Cymru gyfan ac nad yw amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth yn rhoi plant a phobl ifanc dan anfantais o ran derbyn cymorth.

Mae yna gyd-ddibyniaeth rhwng y fframwaith NYTH/NEST a'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol. Rydym wedi bod yn glir, a byddwn yn cryfhau ein cyfathrebiadau, i sicrhau bod addysgwyr yn deall bod y ddau yn ganllawiau sy’n ategu ei gilydd i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Fframwaith statudol yn darparu canllawiau statudol i ysgolion i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol, tra bod y fframwaith NYTH/NEST yn ymwneud â'r system gyfan, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae alinio'r gwerthoedd craidd yn sicrhau y bydd gweithredu'r naill fframwaith neu'r llall yn eu hardal benodol yn bodloni egwyddorion y ddwy set o ganllawiau. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau hyn yn darparu dull cyfannol o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant plant, gan hyrwyddo eglurder, cydweithio a pharhad ymarfer ar draws pob sector a, chyn belled â bod addysgwyr yn gweithio tuag at y Fframwaith dull ysgol gyfan statudol, byddant yn bodloni gofynion NYTH/NEST hefyd.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Eitem 8.3

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Digwyddiad i Randdeiliaid

27 Medi 2023

**Yn bresennol:**

- Jayne Bryant AS (Cadeirydd)
- Heledd Fychan AS
- Buffy Williams AS
- Naomi Stocks, Clerc (cofnodydd)

## 1. Y cefndir

**1.** Ar 27 Medi 2023, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid i lywio ei ymchwiliad: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Cynrychiolwyd rhanddeiliaid o grwpiau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**2.** Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd. Roedd gan rai o'r rhanddeiliaid dan sylw brofiadau personol yn ogystal â phrofiad proffesiynol o'r materion hyn.

## 2. Materion cyffredinol

**3.** Roedd thema barhaus bod rhaid i deuluoedd frwydro er mwyn cael unrhyw gymorth. Clywsom enghreifftiau o deuluoedd sydd wedi brwydro fwyaf ac eto ni ddarparwyd y cymorth neu ni chynhaliwyd y cymorth. Clywsom am achos pan fo cymorth wedi'i nodi, ond na fo wedi'i ddarparu wedyn. Dywedwyd wrthym fod y sefyllfa wedi'i chamgyfleu i'r teulu, a oedd wedi ymddiried yn y bobl a oedd yn darparu'r cymorth.

**4.** Disgrifiodd un arall ei fod wedi darganfod yn ystod tribiwnlys nad oedd ei blentyn wedi gweld therapydd galwedigaethol ers 18 mis er bod cynlluniau'n nodi y byddai'n ei weld yn wythnosol, a hynny er ei fod mewn sefyllfa freintiedig. Roedd pryderon nad oes sicrwydd, hyd yn oed pan gytunir ar fframwaith cymorth, y bydd yn cael ei gyflawni, ac os na fydd, ni ddywedir wrth deuluoedd. Gofynnwyd inni pam y mae rhaid i bobl frwydro? Dywedwyd wrthym na ddylai fod unrhyw frwydr os yw teulu wedi cael ei asesu'n briodol a bod y ddarpariaeth gywir yn ei lle. Y rheswm pam y mae rhaid i deuluoedd frwydro yw oherwydd nad yw'r system yn addas i'r diben. Amlygwyd effeithiau pwysau brwydro ar y teulu cyfan.

**5.** Codwyd pryderon i'r plant a'r bobl ifanc hynny y bydd eu teuluoedd yn derbyn pa gymorth bynnag sy'n cael ei roi iddynt oherwydd eu bod yn methu brwydro, yn anfodlon brwydro neu nad ydynt yn gwybod sut i frwydro. Galwodd pobl am raglen o gymorth a gynhelir i blant ni waeth beth yw gallu'r teulu i frwydro er mwyn cael y cymorth. I rai rhieni / gofalwyr, gall eu hanghenion ychwanegol eu hunain effeithio ar y gallu i frwydro er mwyn cael unrhyw gymorth. Amlygwyd y bydd rhai cyflyrau'n enetig.

**6.** Clywsom fod anghysondebau mewn cymorth ledled Cymru, ac weithiau hyd yn oed o fewn yr un ardal neu ranbarth. Nid yw rhai teuluoedd yn ymwybodol o gymorth sy'n newid bywyd y mae ganddynt hawl iddo neu sydd ar gael.

**7.** Tynnodd pobl sylw at y newidiadau dros y 30 mlynedd diwethaf yn y math o angen. Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl roedd anableddau corfforol yn bennaf. Awgrymwyd y bu methiant i ddelio â'r cynnydd a'r newid mewn angen. O ganlyniad, nid yw gwasanaethau'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r anghenion newidiol hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod cynnydd yn nifer y teuluoedd y mae angen cymorth arnynt.

**8.** Awgrymwyd bod gwelliannau o ran nodi anghenion a mynd i'r afael â hwy wedi sbarduno'r newidiadau hyn a'r cynnydd hwn yn rhannol. Dywedwyd wrthym na ddechreuodd asesiadau diagnostig tan y 1980au a'u bod yn canolbwyntio'n bennaf ar anableddau dysgu. Fodd bynnag, mae gwell dealltwriaeth o niwroamrywiaeth wedi golygu bod anghenion yn cael eu nodi'n well. Dywedwyd wrthym fod y dysgwyr hyn bob amser wedi bod mewn ysgolion gyda'r anghenion hyn ond y byddent wedi cael trafferth yn yr ysgol ac yr ystyriasid o'r blaen eu bod yn anodd ac yn lletchwith. Fodd bynnag, nid dyna farn yr holl gyfranogwyr. Yn benodol, amlygwyd materion ynghylch diagnosis i ferched.

**9.** Er nad yw hyn yn dod o fewn cylch gwaith yr ymchwiliad, tynnwyd sylw hefyd at heriau ynghylch taliadau uniongyrchol. Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu rhoi yn lle gwasanaethau. Fodd bynnag, mae problemau oherwydd bod gan awdurdodau lleol gyfraddau sefydlog ar

gyfer gwasanaethau, felly os nad ydynt yn prynu gwasanaeth ar gyfradd y farchnad, ni all y rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol gael mynediad ato.

**10.** Amlygwyd pwysigrwydd hamdden fel rhan o addysg. Clywsom enghreifftiau o ddarpariaeth hamdden gynhwysol fel gwersi nofio, clybiau chwarae a chlybiau technoleg gan y trydydd sector. Gofynnwyd cwestiynau o ran pam nad oedd y ddarpariaeth hon yn cael ei darparu gan awdurdodau lleol. Dywedwyd wrthym nad yw darpariaeth gynhwysol yn cael ei darparu mewn lleoliadau prif ffrwd, ac o ganlyniad mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd hamdden. Cafodd ei ddisgrifio fel gwahaniaethu amlwg. Dywedwyd wrthym fod teuluoedd a'u plant eisiau mynd i ddarpariaeth integredig ond nad yw staff yn y lleoliadau hyn wedi'u hyfforddi i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol. Mae problemau hefyd mewn lleoliadau prif ffrwd o ran mynediad corfforol, megis mynediad i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn.

**11.** Amlygwyd heriau hefyd o ran darpariaeth integredig, ac nad yw lleoliadau integredig yn briodol ar gyfer rhai plant a phobl ifanc.

**12.** Mae rhywfaint o'r ddarpariaeth gynhwysol yn caniatáu i rieni / gofalwyr ollwng a all wneud gwahaniaeth mawr i'r rhieni / gofalwyr. Ond rhaid i rai rhieni / gofalwyr aros am y cyfnod cyfan. Felly, nid yw'n darparu unrhyw seibiant nac amser i rieni / gofalwyr wneud pethau eraill.

**13.** Er bod y gymdeithas ehangach wedi gwella mewn sawl ffordd, er enghraifft, bydd busnesau fel siopau trin gwallt yn aml yn rhedeg oriau tawel, clywson nad yw'r newid ehangach hwn wedi'i weld mewn darpariaeth hamdden / ar ôl ysgol i blant a phobl ifanc. Clywsom hefyd am yr angen am fannau cymunedol lle y gall teuluoedd fynd i beidio â phoeni am ymddygiad eu plant. Dywedwyd wrthym y gall y mannau hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu fel teulu. Mae'n eu helpu i beidio â theimlo'n ynysig.

**14.** Amlygwyd pwysigrwydd caniatáu i blant ag anghenion ychwanegol gymryd rhan mewn gweithgareddau fel teithiau preswyl hefyd. Dywedwyd wrthym nad yw addysg ond yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

**15.** Roedd pobl yn teimlo'n gryf bod y materion hyn hefyd yn gysylltiedig â'r mater ehangach ynghylch lle plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn y gymdeithas. Dylai fod cyfleusterau hamdden y gallant eu defnyddio ym mhobman yng Nghymru, ac mae angen gwella sgiliau darpariaeth prif ffrwd er mwyn cyflawni hyn. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i geisio sbarduno newid diwylliannol a helpu lleoliadau i ddod yn fwy cynhwysol. Dywedwyd wrthym hefyd y gall yr ysgogiad i wahanu plant am oedran cynnar olygu "allan o olwg allan o feddwl" sy'n cael canlyniadau nes eu bod yn oedolion. Mae angen mannau i bob plentyn a

pherson ifanc ddod at ei gilydd, er mwyn helpu i feithrin cydlyniant cymdeithasol yn y tymor hwy.

**16.** Codwyd y baich sy'n cael ei roi ar y teulu i ddod o hyd i fannau priodol. Mae'n ychwanegu at y llwyth gwaith a'r baich gweinyddol sydd eisoes yn uchel iawn i deuluoedd.

**17.** Clywsom hefyd am yr effaith gadarnhaol y gall Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd ei chael, a disgrifiodd un sefydliad trydydd sector hwy fel un o'r pethau mwyaf gwerthfawr y mae'n ei wneud. Un o'u rolau yw lledaenu gwybodaeth i deuluoedd yn rheolaidd, a ddisgrifiwyd fel un pwysig iawn.

**18.** Dywedwyd wrthym fod yna enghreifftiau o arfer da, a bod pobl yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cynhwysol. Fodd bynnag, cawsom ein hatgoffa nad yw plant a phobl ifanc anabl yn un grŵp unffurf. Er enghraifft, o ran niwroamrywiaeth rydym ond yn dechrau deall y dylid rhoi addasiadau rhesymol ar waith. Ar hyn o bryd mae llawer o'r plant hyn yn cael eu gwahardd gan yr ystyrir ei bod yn broblem ymddygiadol.

# 3. Darpariaeth gofal plant

**19.** Clywsom am yr heriau o ran sicrhau gofal plant hygyrch a chynhwysol, a'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar allu rhieni a gofalwyr i weithio. Dywedwyd wrthym fod angen i ofal plant, pan fydd ar gael, fod yn ddibynadwy er mwyn cefnogi cyflogaeth. Amlygwyd nad yw cynlluniau chwarae yn aml yn cael eu sefydlu ar gyfer y math hwnnw o angen dibynadwy a chynaliadwy. Dywedwyd wrthym fod llawer o rieni wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd diffyg gofal plant, a bod cronfa enfawr o dalent wedi ei gwastraffu.

**20.** Ymhlith yr heriau eraill o ran cael mynediad at ofal plant roedd diffyg darpariaeth ar gyfer plant hŷn, gan fod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth brif ffrwd yn dod i ben pan fyddant yn 11 oed, ond gall fod ei angen ar rai plant a phobl ifanc anabl nes eu bod yn 19 oed. Dywedwyd wrthym hefyd na fydd mynediad generig at ofal plant yn addas i rai plant a phobl ifanc, a bod angen darpariaeth arbenigol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn sy'n gallu cynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc hyn yn briodol.

**21.** Clywsom hefyd am y diffyg darpariaeth seibiant byr, sydd hefyd yn cael effaith enfawr ar y teulu ehangach. Nid oedd rhai yn hoffi defnyddio'r term Saesneg "respite" oherwydd ei fod yn rhoi ystyr negyddol i'r ddarpariaeth, a dywedwyd bod "short break" yn fwy cadarnhaol. Mae hyn oherwydd bod manteision i'r plentyn (sy'n treulio amser gyda phobl y tu allan i'r teulu agos) a'r teulu. Dywedwyd wrthym hefyd am beidio â drysu rhwng seibiannau byr a gofal plant oherwydd bod gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio, a bod seibiannau byr yn fath gwahanol o

ddarpariaeth. Mae darpariaeth seibiant byr yn cael effaith enfawr ar y teulu cyfan, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, sydd yn aml yn ofalwyr ifanc hefyd.

## 4. Darpariaeth ysgol statudol

**22.** Clywsom fod gwaith wedi'i wneud gydag Estyn i sicrhau bod arolygiadau'n ystyried anghenion plant ag anghenion ychwanegol. Clywsom y gall fod yn gyfrifoldeb i'r arolygydd unigol. Er bod rhaid i Estyn edrych ar lesiant, dywedwyd wrthym nad yw adborth yn cael ei gymryd gan deuluoedd ar eu profiadau. Awgrymwyd efallai nad yw plant ag anghenion dysgu ychwanegol, nad ydynt efallai wedi cael digon o gymorth, yn cael cyfle i rannu eu profiadau ag Estyn.

**23.** Gofynnodd rhai pobl a yw Estyn yn edrych ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y grwpiau hyn o blant. Mae angen ystyried y ffaith bod plant a phobl ifanc yn datblygu ar eu cyflymder eu hunain. Dywedwyd wrthym nad yw'n ddigon da dibynnu ar rywun sy'n rhagweld yr hyn y byddant yn ei wneud, a gofynnwyd inni sut ydych chi'n nodi a ydynt yn gwneud cynnydd digonol. Codwyd pryderon hefyd am y diffyg dyheadau ar gyfer y plant hyn, a dywedwyd wrthym nad corlan yw'r ysgol.

**24.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd dull unigol o weithredu. Dywedwyd wrthym am ddulliau penodol y gellir eu defnyddio ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ond nad oeddent yn gweithio i rai plant. Mae angen i'r cymorth ganolbwyntio ar yr unigolyn, ac ar briodoleddau ac anghenion penodol yr unigolyn.

**25.** Clywsom fod awydd gan staff addysg a gofal iechyd i wneud hyfforddiant sy'n ofynnol fel rhan o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth. Dywedwyd wrthym fod angen yr hyfforddiant hwn yn glir.

**26.** Mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unigol, dywedwyd wrthym nad ydynt bob amser yn cael eu rhannu â'r holl gynorthwywyr addysgu, ond dyma'r staff sydd yn aml yn gorfod darparu'r cymorth a rheoli unrhyw broblemau. Dywedwyd wrthym nad oes gan gynorthwywyr addysgu yr hyfforddiant cywir yn aml i ymdrin â'r problemau hyn, a bod hynny'n rhoi'r cynorthwywyr addysgu dan bwysau.

**27.** Codwyd pryderon ynghylch polisïau rheoli presenoldeb. Er enghraifft, gwobrau am lefelau penodol o bresenoldeb. I rai plant ag anableddau, mae cadw cyfraddau presenoldeb o tua 95% yn amhosibl. Mynegwyd pryderon hefyd am osgoi ysgol oherwydd gorbryder, a'r ffaith nad yw hyn yn cael ei gofnodi fel rheswm dros absenoldeb.

**28.** Dywedwyd wrthym fod bwlch mawr yn y cymorth o ran pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd; ac yna i addysg ôl-16. Fodd bynnag, clywsom hefyd rywfaint o adborth cadarnhaol ar gymorth mewn colegau addysg bellach (sydd y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad hwn.)

**29.** Dywedwyd wrthym y gallai fod cyfleoedd cyfyngedig i blant ag anghenion ychwanegol i sicrhau profiad gwaith, ac yn aml nid yw'n canolbwyntio ar yr hyn y mae gan y person ifanc ddiddordeb ynddo.

**30.** Clywsom bryderon am ddarpariaeth a chymorth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn fwy o broblem mewn ardaloedd Cymraeg anhraddodiadol. Amlygwyd hefyd nad oedd lefel yr angen cyfrwng Cymraeg yn cael ei nodi'n ddigonol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal asesiadau yn iaith gyntaf plentyn hefyd, yn enwedig asesiadau lleferydd ac iaith.

**31.** Cafwyd trafodaethau hefyd ynghylch y cynnydd mewn addysg gartref. Gall hyn fod yn ddewis cadarnhaol i lawer. Nid oedd rhai plant a phobl ifanc am ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y pandemig, ac nid yw rhieni / gofalwyr am eu gorfodi. Dywedwyd wrthym fod llawer o bryder ynghylch presenoldeb yn yr ysgol, gall ysgolion fod yn lleoedd prysur iawn, ac mae ystadau ysgolion, yn enwedig adeiladau newydd, yn aml ar ffurf cynllun agored nad yw'n gyfeillgar iawn o ran awtistiaeth. Dywedwyd nad yr ysgol yw'r lleoliad cywir i rai. Mae teuluoedd eraill yn addysgu gartref am nad ydynt yn cael y cymorth cywir yn yr ysgol.

**32.** Dywedwyd wrthym nad yw awdurdodau lleol yn rhagweithiol o ran addysg heblaw yn yr ysgol, a fyddai'n aml o fudd i lawer o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol.

**33.** Yn gysylltiedig â'r materion hyn, cafwyd trafodaethau hefyd am absenoldebau a gwaharddiadau i blant ag anghenion ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod cyfraddau absenoldeb a gwahardd yn anghymesur i'r grwpiau hyn. I'r plant a'r bobl ifanc hynny ar amserlenni rhan-amser, gall fod problemau o ran cofnodi presenoldeb.

**34.** Dywedwyd wrthym hefyd fod problemau o ran gwaharddiadau anghyfreithlon pan fo plant a phobl ifanc yn cael eu tynnu allan o'r ysgol heb reswm. Dywedwyd wrthym nad yw rhai rhieni'n ymwybodol o'r gofynion ynghylch gwaharddiadau, ac y bydd ysgolion yn aml yn gwahardd plentyn yn anffurfiol, fel nad oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer gwaharddiadau tymor penodol, pan fo rhaid nodi dyddiad dychwelyd yn ysgrifenedig, a phan fo rhaid cofnodi'r rhesymau dros wahardd. Disgrifiodd un rhiant ei brofiad o orfod mynd i'r ysgol yn gyson i gasglu ei blentyn am waharddiadau anffurfiol a mynd ag ef yn ôl mewn wythnos.

## Teithiau ysgol

**35.** Dywedwyd wrthym fod ymarfer cymysg o ran tripiau ysgol, gydag arfer da iawn mewn rhai cymunedau ond ddim mewn rhai eraill. Er enghraifft, bydd rhai ysgolion yn gallu cefnogi tripiau i Langrannog, ac ni fydd eraill yn gallu gwneud hynny. Gofynnwyd inni os gall rhai ysgolion ddarparu ar gyfer hyn, pam na all eraill? Dywedwyd wrthym ei bod yn aml oherwydd diffyg cynllunio, a pheidio â rhoi asesiadau risg priodol ar waith. Cafodd ei ddisgrifio fel "loteri cod post".

**36.** Dywedodd un rhiant ei fod wedi gofyn i ysgol ei blentyn pam nad oeddent erioed wedi gallu mynd ar ymweliad ac mai'r ateb a gafodd oedd nad oeddent yn gwybod.

**37.** Dywedwyd bod rhesymau ariannol dros rwystrau eraill i blant a phobl ifanc allu mynd ar deithiau ysgol, neu'r angen i reoli plant eraill ag anghenion eraill.

## Cludiant dysgwyr

**38.** Roedd pryderon ynghylch hygyrchedd cludiant dysgwyr. Dywedwyd wrthym am achosion pan fo rhaid i rieni / gofalwyr fynd gyda'u plentyn ar gludiant dysgwyr oherwydd pryderon am ymddygiad y plentyn neu bryderon ynghylch rheoli cyflwr penodol plentyn. Mae cwmnïau trafnidiaeth, yn enwedig cwmnïau tacsi, yn poeni am y risgiau. Teimlwyd bod diffyg cynllunio ac asesiadau risg. Mae angen hyfforddi hebryngwyr trafnidiaeth yn briodol, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u hyfforddi.

**39.** Dywedwyd wrthym hefyd nad yw teuluoedd yn aml yn cael cynnig cludiant i ddechrau, gan fod disgwyl y bydd y rhieni / gofalwyr o gwmpas i ddarparu cludiant. Dywedwyd mai hon yw un o'r nifer o frwydrau ochr yn ochr â'r lleill. Gall fod heriau i deuluoedd ddarparu cludiant, gan y gallai wrthdaro â mynd â phlant eraill i wahanol ysgolion. Dywedwyd bod hyn yn broblem enfawr. Pan fydd y materion hyn wedi'u codi, yr ymateb gan awdurdodau lleol yw i deuluoedd ddatrys y broblem eu hunain.

**40.** Dywedodd pobl y gallai gweithio gartref roi mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y teulu am gludiant, ond nid oes modd i bawb wneud hyn. Mae llawer o deuluoedd yn dibynnu ar deulu / ffrindiau i helpu. Dywedwyd ei fod yn wasanaeth bregus, ac mai'r cyfan y mae ei angen yw i un darn o'r jig-so gael ei golli er mwyn i bopeth fynd i'r wal.

## Tribiwnlysoedd

**41.** Codwyd pryderon ynghylch nifer y teuluoedd sy'n gorfod mynd i dribiwnlysoedd, a lefel y straen a'r pryder y mae hyn yn ei roi ar deuluoedd. Disgrifiodd un rhiant y tribiwnlys cyntaf yr

oeddent yn rhan ohono fel y peth mwyaf ingol iddo ei wneud erioed yn ei fywyd. Awgrymwyd bod awdurdodau lleol yn gwthio pobl i dribiwnlysoedd yn fwriadol er mwyn gohirio darparu gwasanaethau.

**42.** Dywedwyd wrthym y gall y system eich gyrru i'r cyfeiriad anghywir, gan nodi enghraifft pan fo teulu wedi'i yrru i gael diagnosis, er nad oedd y plentyn eisiau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd i gael cymorth. Yn yr achos hwn, y cyfreithiwr oedd yn pwyso am ddiagnosis. Dywedwyd wrthym fod y system yn anghywir, gan y dylid gwrando ar y plentyn, yn hytrach na dibynnu ar ddiagnosis. Dywedodd pobl fod llawer o sôn am wrando ar rieni, ond yn aml ddim am wrando ar y plentyn. Nid oes gan y plentyn ddweud na dewis. Yn yr achos a amlinellwyd, pe bai'r system wedi gweithio o amgylch anghenion y plentyn, ni fyddai wedi dilyn y llwybr a ddilynwyd.

**43.** Yn dilyn hyn, cododd pobl mai dim ond heriau ymddygiad y plentyn sy'n cael eu hamlygu yn aml ac nid ei briodoleddau. Yn syml, ni ofynnir i blant a phobl ifanc beth maen nhw ei eisiau.

### Diwygiadau ADY

**44.** Clywsom safbwyntiau yn cymharu'r system ADY newydd â'r system hŷn. Dywedodd un person yr oedd ganddo brofiad o dribiwnlysoedd o dan y ddwy gyfundrefn nad oedd yn credu bod y system flaenorol wedi dyddio, er ei fod yn cydnabod bod eraill yn credu ei bod felly. Dywedodd mai'r gweithredu oedd y broblem gyda'r system flaenorol. Bydd y problemau hyn yn parhau gyda'r system newydd, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Roedd yn teimlo mai'r brif broblem yw sut y mae teuluoedd yn ymgysylltu â'r system.

**45.** Amlygodd un arall mai un o'r prif wahaniaethau rhwng y systemau yw y dylid arwain y system newydd ar sail anghenion yn hytrach na diagnosis. Fodd bynnag, nid oedd yn teimlo bod y newid hwn wedi digwydd mewn gwirionedd eto, ac y gofynnir i deuluoedd am ddiagnosis yn aml cyn y gellir darparu cymorth. Cododd y pryderon parhaus ynghylch yr amseroedd aros am ddiagnosis, gyda rhai plant a phobl ifanc yn dal i aros am ddiagnosis am flynyddoedd.

**46.** Dywedwyd wrthym nad yw rhai rhieni yn ymwybodol o'r system newydd, na beth yw Cynllun Datblygu Unigol.

## 5. Pa welliannau y gellir eu gwneud?

**47.** Gofynnwyd pa newidiadau a fyddai'n gwella pethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cawsom ystod o ymatebion.

**48.** Codwyd materion ynghylch amserlennu apwyntiadau. Gofynnodd pobl pam nad oes apwyntiadau ar gael dros y Sul / gyda'r nos? Dywedwyd y byddai cael apwyntiad meddygol ar y penwythnos yn un peth yn llai i boeni amdano. Dywedodd pobl y byddai trefnu gwasanaethau o amgylch anghenion teuluoedd yn hytrach nag anghenion gweithwyr proffesiynol yn ddechrau da. Mae hon yn broblem benodol i'r rhai sydd â nifer o apwyntiadau.

**49.** Codwyd heriau ynghylch y ffaith bod rhaid i rieni / gofalwyr fod ar gael bob amser hefyd. Gwnaed y gymhariaeth rhwng yr hawliau cyflogaeth sydd gan bobl fel oedolion, pan fo modd ichi gymryd amser i ffwrdd am apwyntiadau, ond mae diffyg hawliau tebyg i blant neu rieni / gofalwyr sydd â phlant ag anghenion ychwanegol.

**50.** Mae'r dybiaeth hon ynghylch argaeledd rhieni / gofalwyr yn mynd yn ehangach, dywedwyd wrthym ni. Felly mae hefyd yn ymwneud â bod ar gael i wneud unrhyw therapi / gwaith rhwng apwyntiadau. Dywedodd un rhiant iddo gael y cwestiwn pam ydych chi'n gweithio? Pam nad ydych chu'n gwneud therapi? Roedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol newid y dybiaeth hon.

**51.** Roedd awgrymiadau i newid y ffordd y mae pobl yn cael gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael. Clywsom fod rhwystredigaethau ynghylch cyfeirio gwasanaethau, yn enwedig pan nad yw'r wybodaeth yn gyfredol. Teimlwyd bod hwn yn faes lle roedd angen gwelliannau.

**52.** Bod yn fwy ymwybodol, a gwella gwybodaeth ehangach am wahanol gyflyrau, ac yn enwedig o ran niwroamrywiaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, staff a myfyrwyr. Roedd yna alw hefyd am gyfraniad enfawr at hyfforddiant i'r holl staff, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig a llywodraethwyr. Dywedwyd wrthym fod bylchau enfawr mewn gwybodaeth am gyflyrau a dealltwriaeth ohonynt.

**53.** Amlygodd rhywun fod llawer o ddeunyddiau hyfforddi hygyrch ac am ddim ar rai cyflyrau fel awtistiaeth, ac nid oedd yn gwybod pam nad oedd mwy o ysgolion yn manteisio ar y cyfleoedd hyfforddi hyn.

**54.** Codwyd pwysigrwydd y model cymdeithasol o anabledd. Dywedwyd wrthym fod y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn defnyddio model cymdeithasol. Fodd bynnag, amlygwyd fod model meddygol hefyd yn bwysig ar gyfer rhai cyflyrau, ac roedd pryderon nad yw'r holl wasanaethau iechyd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

**55.** Dywedwyd wrthym hefyd am effaith y materion hyn ar frodyr a chwiorydd nad ydynt yn anabl. Dywedwyd eu bod bob amser yn anweledig yn y sgyrsiau hyn.

**56.** Codwyd pwysigrwydd rôl SACDA wrth gydlynu rhwng addysg a gofal iechyd. Gofynnodd pobl pa mor ddifrifol y mae Byrddau Iechyd yn cymryd rôl SACDA, ac i ba raddau y mae wedi gwella'r rhyngwyneb rhwng iechyd ac addysg? Gwnaed galwadau i ddeall canlyniadau rôl SACDA, a yw wedi gwneud yr hyn y dylai?

**57.** Dywedwyd wrthym fod angen model therapi gwahanol. Roedd pobl yn teimlo bod gwasanaethau'n dod yn fodel ymgynghori, pan fo therapydd yn dweud wrthych beth y mae rhaid ichi ei wneud, a'ch bod yn mynd i ffwrdd a'i wneud. Mae llai o gymorth un-i-un, ac ychydig o fonitro neu ddim monitro o gwbl. I rai, mae hwn yn fodel annigonol. Mae hefyd angen hyfforddiant rhieni ar gyfer y cymorth hwnnw a gynigir yn yr ystafell ddosbarth, ac nid yw'n gweithio cystal mewn lleoliadau cartref. Awgrymwyd mai dyma lle y gallai rôl SACDA helpu i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn cael eu cysylltu.

**58.** Mae angen hyfforddiant mwy cyffredinol, amlygwyd mai dim ond un diwrnod y bydd athrawon yn ei wneud ar anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'u hyfforddiant addysgu.

**59.** Dywedwyd wrthym hefyd nad yw'r pethau cywir yn cael eu mesur. Gellir ystwytho rhestrau aros, ac oherwydd hyn, mae pobl yn aml yn gweithio mewn seilos gan eu bod yn canolbwyntio ar gyrraedd y targedau yn hytrach na darparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae hyn hefyd wedi arwain at dwf rheolaeth ar draul gofal clinigol, mae seilwaith rheoli enfawr ar draul y gwasanaethau sydd i fod i gael eu darparu.

**60.** Roedd teimlad bod maint Cymru yn rhoi cyfle gan ei bod yn ddigon bach i ddatblygu consensws ar sut i wella, ac yna i ddarparu gwell gwasanaethau. Dywedwyd wrthym fod rhaid i Gymru fod yn ddewr, newid cyfeiriad a dechrau gwrando ar deuluoedd ynghylch y caledi.

Eitem 8.4

Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

# A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Nodyn o ddigwyddiad i randdeiliaid: 27 Medi 2023

**Yn bresennol:**

- Laura Anne Jones AS
- Ken Skates AS (yn rhannol))
- Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
- Sian Hughes, Ymchwilydd

## 1. Maint y broblem

### Gofal plant

**1.** Roedd cytundeb cyffredinol bod gofal plant ar gyfer plant ag anableddau, neu sydd ag anghenion ychwanegol, yn gyfyngedig iawn. Roedd enghreifftiau o leoliadau penodol lle'r oedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ond ychydig iawn o leoedd oedd ar gael. Awgrymwyd y gallai rhieni deimlo'n nerfus ynghylch gadael eu plant yng ngofal staff nad oes ganddynt yr hyfforddiant angenrheidiol.

**2.** Er bod croeso i fynediad at daliadau uniongyrchol, ni ellid eu defnyddio gan nad yw'n bosibl dod o hyd i ofal plant digonol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

**3.** Roedd diffyg cyfathrebu rhwng rhieni a lleoliadau gofal plant, a chafwyd enghraifft o riant yn cael gwybod na allai eu plentyn fynd, mwyach, heb unrhyw gyfathrebu blaenorol am unrhyw broblemau. Teimlai rheini eu bod cael eu gwneud i deimlo mai nhw oedd y broblem, heb unrhyw awgrym y gallai lleoliadau addasu i gefnogi plentyn ag anghenion ychwanegol. Galwyd am fwy o atebolrwydd ar gyfer lleoliadau gofal plant ynghyd â chanllawiau ar gyfathrebu â rhieni.

**4.** Mae yna amrywiadau ledled Cymru o ran mynediad at dechnoleg clyw cynorthwyol, ac amrywiaeth yn yr amser a oedd ar gael gan staff er mwyn cael hyfforddiant i ddefnyddio'r dechnoleg honno. Ceir amrywiaeth hefyd o ran mynediad at wasanaethau allanol megis therapi lleferydd ac iaith.

**5.** Mae angen hyfforddiant gorfodol i staff ac athrawon meithrin a gwybodaeth am sut i gael mynediad at wasanaethau allanol.

# 2. Addysg

**Ystad yr ysgol**

**6.** Mae anawsterau gyda mynediad i gadeiriau olwyn mewn rhai ysgolion prif ffrwd. Dylid addasu pob ysgol ar gyfer y rheini sydd â nam ar y clyw neu'r golwg. Mae anallu i gyfathrebu am ba bynnag reswm yn eithrio rhai dysgwyr. Mae ysgolion ag acwsteg dda o fudd i bawb. Mae safbwyntiau cymysg ynghylch pa mor llwyddiannus fu ysgolion yr 21ain ganrif mewn perthynas â gwella acwsteg.

**Asesiad**

**7.** Roedd pryder ynghylch ysgolion yn gwrthod asesu disgyblion ar sail tystiolaeth gyfyngedig (er enghraifft, bod ag oedran darllen da) sy'n golygu nad yw'r ysgol yn gallu darparu'r cymorth sydd ei angen ar y dysgwr. Nid yw asesu wedi'i seilio ar anghenion unigol y plentyn. Nid yw ysgolion yn derbyn diagnosis preifat ar gyfer plentyn, a geisir yn aml gan rieni oherwydd hyd y rhestrau aros.

**8.** Mae diffyg argaeledd profion cyfrwng Cymraeg. Mae yna offer sgrinio dyslecsia y gellir eu defnyddio ar gyfer plant o 6 oed ymlaen, ond nid oes cysondeb yn eu defnydd ledled Cymru. Dywedwyd ei bod bron yn amhosib defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, neu Gymraeg arwyddo gyda chefnogaeth mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

**Amserlenni llai**

**9.** Mae'n ymddangos bod llawer o ddefnydd o amserlenni llai ar gyfer plant ifanc, o dan oedran ysgol gorfodol (4 a 5 oed) yn ogystal â dysgwyr hŷn. Mae'n ymddangos bod hyn yn dod yn duedd. Dim ond pan fydd gan ysgolion gytundeb y rhieni y dylid defnyddio'r rhain, a phan fod hynny er budd gorau'r plentyn. Rhoddwyd enghreifftiau o ysgol yn cynnig dwy awr yn yr ysgol heb unrhyw drafodaeth gyda'r teulu ar sut i ddiwallu anghenion y plentyn. Nid yw'r defnydd o amserlenni gostyngol yn cael ei fonitro. Roedd yna enghreifftiau o blant wedi bod ar amserlenni llai am flynyddoedd lawer, yn hytrach na bod yn fesur tymor byr. Teimlwyd bod amserlenni llai yn lleihau'r straen ar ysgolion a achosir gan ddiffyg cyllid, adnoddau a staff, ac y gellir ei weld fel 'opsiwn hawdd' i ysgolion. Mae prinder staff arbenigol ar gyfer plant byddar.

**10.** Gall ysgolion fygwth gwahardd plant oherwydd problemau ymddygiad, heb ystyried nad yw'r ysgol yn gallu cefnogi'r plentyn i raddau digonol. Awgrymwyd y gallai gwahardd fod yn opsiwn gwell i deuluoedd gan fod hawl i apelio, ond yn aml mae teuluoedd yn ofni gwahardd yn fawr.

**11.** Efallai y bydd angen amserlen lai ar rai dysgwyr – megis y rheini â Covid hir – ond gyda gwaith yn cael ei anfon adref ar eu cyfer.

**12.** Mae angen i'r system fod yn addas ar gyfer yr unigolyn, ac er budd gorau iddo, a chyda chytundeb rhieni.

## Y gweithlu

**13.** Efallai na fydd staff ysgol yn deall cyflwr penodol plentyn ar bob adeg. Nid yw ysgolion na staff meddygol yn deall amodau mwy newydd fel Covid hir yn dda, ac efallai y bydd plant yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i addysg. Mae angen mwy o hyblygrwydd a dull dysgu cyfunol ar rai dysgwyr.

**14.** Mewn cymunedau gwledig, gall un athro fod yn cefnogi mwy nag un dosbarth blynyddoedd cynnar felly efallai na fydd yn gallu cefnogi plentyn ag anghenion ychwanegol.

**15.** Mae yna ddiffyg hyfforddiant arbenigol i wneud addasiadau syml mewn perthynas ag acwsteg mewn ystafell a fyddai'n helpu pob dysgwr, nid dim ond y rheini â nam ar eu clyw. At hynny, mae diffyg mynediad i lefelau uwch o Iaith Arwyddion Prydain, a chefnogaeth Iaith Arwyddion Prydain i blant a'u teuluoedd.

**16.** Gall diffyg staff cymorth mewn ysgolion fod yn ynysig i blentyn sy'n gallu cael ei fwlio ac sy'n unig. Mae angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr yn ystod egwyl yn y maes chwarae.

**17.** Nid yw athrawon cyflenwi yn cael gwybodaeth am anghenion plant unigol mewn dosbarthiadau. Gall hyn arwain at broblemau gydag ymddygiad y plentyn, a chosb o ganlyniad.

**18.** Mae llawer o athrawon plant byddar yn agos at ymddeoliad ac ychydig 'ar y gweill'.

**19.** Mae llawer o adnoddau rhad ac am ddim ar gael i gefnogi athrawon i helpu dysgwyr â nam ar eu clyw neu ar eu golwg, a all fod yn drawsnewidiol. Ni fyddai mabwysiadu ymagwedd ychydig yn wahanol at addysgu yn ychwanegu at lwyth gwaith athro, byddai'n lleddfu'r baich.

**20.** Dylid ystyried darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn Addysg Gychwynnol Athrawon i'w helpu i ddeall anableddau, yn enwedig gan fod rhai anableddau yn gudd. Mae angen bod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol.

**21.** Dylai fod mwy o fodelau rôl athrawon anabl.

## Gwybodaeth a chyfathrebu

**22.** Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd. Mae rhai adnoddau annibynnol ar gael, ond dim ond ychydig bach o ffynonellau meddygol.

**23.** Roedd rhai'n teimlo bod yna safbwynt mai ysgolion sy'n gwybod beth sydd orau i ddysgwyr, a bod diffyg cyfathrebu â rhieni ynglŷn â sut i gefnogi dysgwyr unigol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Mae arbenigedd pawb arall yn cael ei werthfawrogi'n fwy nag arbenigedd rhiant.

**24.** Ni roddir gwybodaeth yn rhagweithiol i rieni am eu hawliau i adnabod anghenion. Mae canfod yn gynnar yn allweddol i gael mynediad at gymorth ac mae angen i rieni ddeall sut i nodi anghenion eu plentyn.

**25.** Roedd rhai o'r farn bod gwybodaeth am ddewisiadau ar gael, ond efallai bod rhieni plant anabl hefyd yn llywio systemau eraill fel budd-daliadau, iechyd a thai. Mae rhieni'n teimlo mai eu cyfrifoldeb nhw yw cael cymorth. Weithiau mae'n rhaid i riant ddewis pa beth i ymladd drosto.

**26.** Mae angen cefnogi teuluoedd ond hefyd eu grymuso i ymgymryd â materion eu hunain.

## Gwahaniaethu

**27.** Yn aml, nid yw rhieni yn sylweddoli eu bod yn destun gwahaniaethu – dyfynnwyd ffigwr o 90 y cant ar gyfer y rhai y gwahaniaethwyd yn eu herbyn. Efallai y bydd teuluoedd yn cymryd yn ganiataol mai 'dyna sut mae pethau'. Disgrifiwyd gwahaniaethu fel rhywbeth cyffredin iawn

yn gyffredinol. Gellir gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd ym mhob rhan o'u bywydau, a 'dyna a ddaw'n norm'.

**28.** Mae'n bosibl bod rhieni'n cael eu 'dylanwadu' i deimlo eu bod yn broblem wrth ofyn am ddiwallu anghenion eu plentyn. Er bod llwybrau ar gael i fynd i'r afael â gwahaniaethu, gall fod yn anodd ei brofi.

**29.** Awgrymwyd bod amserlenni llai yn fath o wahaniaethu gan fod disgyblion eraill yn cael eu hawliau llawn i addysg. Yn yr un modd – i'r rheini sydd ei angen – gall gwrthod amserlen lai fod yn wahaniaethol.

**30.** Gall gwaharddiadau hefyd gael eu hystyried yn wahaniaethol pan fo dysgwr yn cael ei wahardd oherwydd na all ysgol ddiwallu anghenion dysgwr oherwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu fod gan y dysgwr anghenion ychwanegol eraill.

**31.** Gall ysgolion fod yn gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr ond efallai nad ydynt o'r farn eu bod yn gwneud hynny ac efallai nad yw'n fwriadol, ond ni allant ymdopi ag ymddygiad dysgwyr. Yn aml, daw gwahaniaethu i ben pan ddarperir cymorth priodol i'r ysgol.

**32.** Ychydig iawn o achosion o wahaniaethu oherwydd anabledd sy'n cael eu cyflwyno i'r Tribiwnlys Addysg.

## Effaith y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

**33.** Nid yw rhieni nac ysgolion yn cael y wybodaeth gywir am y gyfraith newydd. Dylai fod gan ddysgwyr fynediad at Gynllun Datblygu Unigol (CDU) o dan y system newydd, ond mae rhieni yn 'brwydro' i gael gafael ar gynllun o'r fath, ac i ddiwallu anghenion eu plant.

**34.** Mae rhestrau aros ar gyfer asesiad a diagnosis yn hir. Er y gall rhiant ofyn am nodi ADY, gall hyn gymryd 12 wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw, nid yw anghenion plentyn yn cael eu diwallu.

**35.** Mae'r system newydd yn cael ei gweithredu'n wahanol ym mhob awdurdod lleol, er gwaethaf y ffaith nad yw'r diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol wedi newid o'r ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig flaenorol.

**36.** Mae plant ag anghenion dysgu sylweddol yn cael eu hysbysu nad ydynt yn gymwys ar gyfer CDU ac felly'n cael 'darpariaeth gyffredinol'. Gall rhieni dderbyn hyn a cholli unrhyw hawl i apelio neu unrhyw fynediad i dribiwnlys neu wasanaeth datrys. Nid yw pob rhiant yn gallu herio'r ysgol neu'r awdurdod lleol ac mae pryder mai dim ond y lleisiau cryfaf sy'n cael eu clywed.

**37.** Efallai y bydd rhai ysgolion yn pryderu bod teuluoedd yn gofyn am gymorth oherwydd y goblygiadau cost i'r ysgolion. Mae yna ofn bod yr angen am gefnogaeth ADY yn cael ei ddehongli yn ôl yr hyn y gall ysgolion ei gynnig.

**38.** Nid yw'r awgrym y byddai'r system ADY newydd yn haws na'r system AAA i rieni ei llywio yn wir.

**39.** Mae angen adolygu'r Cod ADY.

# 3. Effaith

**40.** Mae'n bosibl y bydd plant byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn gwbl ynysig gan nad oes neb arall yn yr ysgol yn gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Mae'n bosibl bod gan y plentyn weithiwr cymorth, ond nid oes unrhyw gynlluniau wrth gefn os yw'r person hwnnw'n absennol.

**41.** Gall yr effaith ar blant ag ADY sy'n mynychu ysgol brif ffrwd fod yn ddrwg iawn i'w hiechyd meddwl.

**42.** Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o effaith Covid ac iechyd hirdymor. Mae dysgwyr covid hir mewn ysgolion prif ffrwd yn tyfu'n fwyfwy ynysig, ac mae methu â chymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl.

**43.** Mae'n bosibl na fydd dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad i weithgareddau ar ôl ysgol, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gallu bod yn yr ysgol am ddiwrnod llawn.

# 4. Dewisiadau

**44.** Nid oes mynediad i'r ddarpariaeth a ddewiswyd ar gael. Mewn un ardal, mae yna un ysgol arbennig hygyrch, sy'n llawn. Rhaid i rieni, felly, ddefnyddio ysgolion prif ffrwd, lle mae disgyblion yn cael trafferthion, a lle maent yn teimlo nad oes gobaith cael cymorth arbenigol. Mae rhieni yn aml o'r farn eu bod yn 'ffodus' i gael mynediad i leoliadau arbenigol. Mae yna gynnydd yn y gofynion ar gyfer lleoliadau arbenigol, ond dim cynnydd mewn capasiti.

**45.** Nid oes ysgol ar gyfer y byddar yng Nghymru felly nid oes cymorth gan gymheiriaid. Roedd pryderon am ddirywiad mewn unedau cymorth arbenigol a'u bod yn dod yn fwy cyffredinol, sy'n gwadu dewis i ddisgyblion byddar.

**46.** Mae’n bosibl bod y dyheadau ar gyfer dysgwyr yn is mewn ysgolion arbennig nag mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, mae gan rai teuluoedd flaenoriaethau gwahanol, ac mae mynychu ysgol arbennig yn dod â llawer o fanteision gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant dysgwyr.

**47.** Mae llawer o deuluoedd eisiau i'w plentyn gael ei addysgu yn y brif ffrwd. Dylai pob ysgol allu diwallu anghenion pob disgybl yn lleol, ond mae angen darparu adnoddau ar gyfer hyn. Mae hyn yn hynod o ddrud o ran cael y staff a'r adeiladau priodol.

**48.** Mae’n ddelfrydol i bobl ifanc fynd i’r ysgol leol a bod yn rhan o’r gymuned, ond nid yw hyn yn bosibl i bob dysgwr. Gall ysgolion prif ffrwd ganolbwyntio ar ganlyniadau, ond mae rhieni am i'w plant ffynnu. Mae’r pwysau ar ysgolion i gael perfformiad academaidd da yn treiddio drwodd i ddysgwyr.

**49.** Mae plant byddar yn cael eu haddysgu yn bennaf mewn ysgolion prif ffrwd lle mae’n bosibl nad oes cymorth ar eu cyfer.

**50.** Nid oes darpariaeth ar gyfer y plant hynny sy'n 'syrthio yn y canol' rhwng bod angen ysgol arbennig neu ysgol prif ffrwd.

**51.** Mae angen mwy o gyfleoedd addas o ran gyrfaoedd.

# 5. Rhwystrau

### Trafnidiaeth

**52.** Yn aml, nid oes gan fysiau offer i ddelio â chadeiriau olwyn a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Gall cludiant fod yn broblem i rai y gall fod angen eu codi o'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn wedi bod yn broblem yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle awgrymwyd bod dysgwyr yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg yn lle hynny. Mae’n bosibl y bydd gan blant byddar allu cyfyngedig i deithio’n bell.

**53.** Pan fo plentyn yn mynychu ysgol y tu allan i’r dalgylch, caiff yr awdurdod lleol wrthod darparu cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol, hyd yn oed os yw’r ysgol honno er budd gorau’r plentyn. Ni ddylid ystyried hyn yn fater o ddewis rhieni. Byddai angen enwi'r ysgol ar CDU er mwyn diwallu costau cludiant.

**54.** Mae materion yn ymwneud â diogelwch mewn rhai cludiant ysgol dan gontract heb unrhyw gludiant wedi'i addasu, megis tacsis. Roedd rhywfaint o ddealltwriaeth o’r gost i awdurdodau lleol o ddarparu cludiant arbenigol o’r cartref i’r ysgol. Gall fod yn anodd dod o

hyd i gludiant arbenigol.   At hynny, mae' anodd dod o hyd i hebryngwyr i ddysgwyr deithio i'r ysgol.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# ASD Rainbows – Nodyn ar ymweliad

9 Hydref 2023

**Yn bresennol:**

- Jayne Bryant AS (Cadeirydd)
- Heledd Fychan AS
- Naomi Stocks, Clerc (cofnodydd).

## 1. Y cefndir

**1.** Ar 9 Hydref ymwelodd Aelodau o'r Pwyllgor ag ASD Rainbows. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ymweld ag ASD Rainbows i weld y cyfleusterau a siarad â rhieni a staff.

**2.** Hoffem ddiolch i ASD Rainbows am hwyluso'r ymweliad, ac i'r holl rieni a oedd yn bresennol ac a rannodd eu profiadau mor agored a gonest.

**3.** Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd.

## 2. ASD Rainbows

**4.** Mae ASD Rainbows wedi'i leoli yn Aberpennar, ac mae'n darparu gofal plant a chymorth i blant ar y sbectrwm awtistig. Mae teuluoedd o bob rhan o dde Cymru yn defnyddio'u darpariaeth a'u cymorth. Elusen ddi-elw yw hon, ac mae wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae'n cefnogi teuluoedd â phlant sydd â diagnosis neu sydd wrthi'n cael asesiad awtistiaeth neu unrhyw anhwylderau cysylltiedig eraill fel ADHD, Fragile X a dyspracsia.

**5.** Mae'n cynnig darpariaeth cyn ysgol ac ar ôl ysgol. Caiff y ddarpariaeth cyn ysgol ei chyflwyno mewn dwy sesiwn dwy a hanner ar wahân gyda sesiynau yn y bore a'r prynhawn i blant rhwng 2 a 5 oed. Hefyd ceir grŵp rhieni a phlant hyd at oedran ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar ôl ysgol yn hygyrch i blant hyd at un ar bymtheg sydd mewn addysg amser llawn.

**6.** Fel rhan o'r ddarpariaeth cyn ysgol, defnyddir PECS (System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau). Dywedodd staff, pan fydd plant yn trosglwyddo i'r ysgol, na fydd ysgolion yn yn aml cefnogi'r defnydd o PECS. (Gan fod y system hon yn rhoi llais i'r plentyn i wneud ei anghenion yn hysbys, mae ei thynnu'n ôl yn golygu cymryd ei lais i ffwrdd)

**7.** Dywedodd staff mai ariannu oedd yr her fwyaf o ran rhedeg yr elusen. Nodwyd eu bod yn aml yn methu â chael mynediad at rai grantiau oherwydd y cyfyngiadau ar yr hyn y gellir defnyddio grantiau penodol ar ei gyfer (er enghraifft, nodwyd na allant gael mynediad at grantiau ar gyfer y ganolfan gymunedol ond mae'n llawer anoddach canfod cyllid ar gyfer y feithrinfa). Ar hyn o bryd mae'n cael arian gan Plant Mewn Angen, Sefydliad Moondance a'r Loteri Genedlaethol. Ar unrhyw adeg, gallai fod yn y broses o ymgeisio am oddeutu 30 o grantiau. Dywedodd fod bwlch yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau fel y rhai y mae'n eu cynnig.

**8.** Er ei bod wedi cofrestru gyda'r Cynnig Gofal Plant, dywedodd mai prin y mae hyn yn crafu'r wybeb, gyda'r Cynnig Gofal Plant yn £12.50 y sesiwn, a'i chostau'n £63 y plentyn fesul sesiwn.

**9.** Mae ganddi bedwar aelod o staff amser llawn, gyda mwy o staff rhan amser. Mae hefyd yn ceisio cael cyllid ar gyfer dau blentyn sydd angen cymorth unigol oherwydd anghenion iechyd cymhleth. Dywedodd pa mor bwysig yw cael staff o ansawdd da, gan fod yn rhaid i rieni deimlo'n hyderus y byddant yn gallu cefnogi eu plant. Dywedodd nad yw rhieni yn aml eisiau mynd i leoliadau prif ffrwd oherwydd pryderon ynghylch pa mor dda y caiff eu plant eu cefnogi.

**10.** Yn y dyfodol, hoffai ddarparu mwy o ddarpariaeth galw heibio, yn ogystal â darparu darpariaeth yn ystod gwyliau. Ar hyn o bryd, mae'n cadw'r ddarpariaeth cyn ysgol ar agor am dair wythnos gyntaf gwyliau'r haf.

# 3. Materion cyffredinol

**11.** Siaradodd rhieni am sut y mae'n rhaid iddynt frwydro am bob elfen o gymorth. Ar un pwynt yn ystod y sesiwn, disgrifiodd pob un o'r rhieni y buom yn siarad â nhw y sefyllfa fel ymladdfa neu frwydr, gan rannu eu henghreifftiau penodol eu hunain o'r cymorth y bu'n rhaid iddynt frwydro amdano.

**12.** Dywedodd un “mae popeth yn frwydr. Y cyfan rydyn ni'n gofyn amdano yw'r un cyfleoedd i'n plant lwyddo. Ar hyn o bryd rydym yn gadael iddynt fethu â chael yr hyn sydd ei angen arnynt. Yna mae’n rhaid gweithio'n galed i ddadwneud y difrod. Ni ddylai fod yn niweidio ein plant. Ond mae ein plant mewn addysg brif ffrwd yn cael eu gadael i lawr.” Disgrifiodd rhiant arall y gost o orfod gwneud pethau’n iawn i’w plant yn ddiweddarach mewn bywyd oherwydd y methiannau yn y system nawr. Clywsom fod rhieni “angen tân yn eich bol” ar gyfer y frwydr.

**13.** Dywedwyd wrthym fod “darpariaeth bob amser yn dechrau gyda’r swm lleiaf”. Soniodd rhieni am yr effaith drawmatig y mae hyn yn ei chael ar eu plant.

**14.** Dywedodd rhieni hefyd mai’r rhai sy’n “gweiddi uchaf sy’n cael y mwyaf”. Roeddent yn pryderu am y teuluoedd hynny heb gymorth fel ASD Rainbows i'w helpu i frwydro i gael y math cywir o gymorth. Dywedodd rhiant nad oedden nhw'n gwybod sut y byddent yn ymdopi ag effeithiau iechyd meddwl y brwydrau cyson heb ASD Rainbows. Dywedodd un arall y byddent wedi'u hynysu'n llwyr heb ASD Rainbows. Dywedodd un rhiant mai’r grŵp o rieni yr oeddem yn siarad â nhw yw’r “rhai sy’n fodlon gwthio”. Dywedon nhw eu bod yn wirioneddol bryderus am y teuluoedd hynny lle mae rhieni / gofalwyr yn fwy goddefol oherwydd “rydym ni wir yn gwthio a dyw ein plant ddim yn cael unrhyw beth”.

**15.** Dywedodd un rhiant eu bod eisiau i’w plentyn fynd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ond nad oedd yn gallu ymladd dros hyn oherwydd bod yn rhaid iddynt gydbwyso “eisiau ac angen”. Roeddent yn dweud na ddylai teuluoedd orfod ymladd i gael yr hyn sy'n iawn i'w plentyn. Roedd pryderon bod teuluoedd o ganlyniad yn cael yr addysg anghywir i'w plentyn.

**16.** Soniodd rhiant arall am siarad ag ysgol eu plentyn am hyfforddiant poti. Dywedodd yr athro wrthynt nad oeddent yn gallu cefnogi hyn. Cysylltodd y teulu â’r elusen cymorth i deuluoedd Snap Cymru, a ddywedodd wrth yr ysgol bod yn rhaid iddynt gefnogi hyn o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Dywedodd y rhiant nad oedd yr athro yn gwybod bod gofyniad arnynt. Roeddent yn dweud fod rhai rhieni mewn sefyllfa debyg wedi cael gwybod y bydd yn rhaid iddynt fynd i mewn a newid eu plentyn pan fo angen.

**17.** Mae’r brwydro cyson hefyd yn cael effaith ehangach ar y teulu, yn enwedig ar y rhieni/gofalwyr sy’n cael eu bod yn colli eu hunaniaeth. Dywedodd un rhiant nad ydych yn disgwyl ymdrin â'r materion hyn pan fyddwch yn dod yn rhiant. Roeddent yn dweud, er bod rhai pobl yn dweud na fyddent yn newid eu plant, y byddent yn “cael gwared ar awtistiaeth fy mhlentyn” pe bai modd oherwydd “nad yw’r byd wedi’i gynllunio ar eu cyfer nhw” ac na fyddant bob amser yn “gallu eu hamddiffyn”. Roeddent yn dweud bod eu plentyn yn disgrifio bod yn awtistig fel bod ar rollercoaster na allwch chi ddod oddi arno sy'n “gwneud i ni a nhw flino'n

lân”. Dywedodd rhiant arall eich bod “yn y araf yn y pen draw yn anobeithio” a disgrifiodd pa mor rhwystredig oedd hi nad yw hyd yn oed cymorth y cytunir arno yn cael ei ddarparu.

**18.** Defnyddiwyd termau fel gasleitio mewn perthynas â sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ymdrin â cheisiadau am gymorth.

**19.** Cafwyd galwad am ymwybyddiaeth ehangach o awtistiaeth. Disgrifiodd rhieni sut y bydd rhai ysgolion yn gwneud gwaith yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, ond mai dim ond yn yr wythnos honno y bydd hynny’n digwydd. Roeddent yn galw am fwy o hyfforddiant diwylliannol ac yn dweud, oni bai bod hyn yn effeithio’n uniongyrchol arnoch chi, nad ydych chi’n tueddu i feddwl am y peth. Dywedodd un person y byddai'n ddefnyddiol pe bai gan lunwyr polisi brofiad o awtistiaeth. Dywedwyd wrthym sut y caiff plant awtistig eu heithrio o gyfleoedd cymdeithasol ehangach megis partïon ac aros yn nhai ffrindiau. Ac eto maent yn ysu am gael eu cynnwys a'u derbyn.

**20.** Dywedodd un rhiant fod y system yn “gwbl drychinebus. Nid yw'r system bresennol yn gweithio. Mae’r broblem ym mhobman yng Nghymru”. Galwodd rhiant arall am newid “drwyddi draw”, a thynnodd sylw at achosion o drosglwyddo cyfrifoldeb rhwng ysgolion a gwasanaethau gofal iechyd, yn enwedig ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau datblygiadol mwy newydd. Roeddent yn dweud bod cael eich atgyfeirio yn “broblem wirioneddol” a bod “dim partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg”. Dywedodd traean fod y system “yn annheg”.

**21.** Dywedwyd wrthym “ei bod yn cymryd tîm i fagu plentyn awtistig yn effeithiol”. Dywedodd un rhiant eu bod yn ofni bod rhywbeth yn digwydd iddyn nhw, oherwydd er bod “pawb yn dweud y byddan nhw yno, fyddan nhw ddim”. Dywedwyd wrthym y bydd gwasanaethau cymorth fel Teuluoedd Cydnerth yn darparu cymorth, ond yn aml am gyfnodau byr o amser yn unig. Disgrifiodd un rhiant eu profiadau gyda Teuluoedd Cydnerth, a ddaeth i ben cyn iddynt allu cyrraedd rhan gydnerth y rhaglen. Roedd hyn oherwydd y “cymerodd amser i’r rhaglen feithrin ymddiriedaeth gyda fy mab”.

**22.** Mynegwyd pryderon am y wybodaeth sydd ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn aml, nid ydynt yn gwybod beth y mae ganddynt hawl iddo, a dywedodd rhieni nad oedd awdurdodau lleol yn gwybod ychwaith.

**23.** Amlygwyd effeithiau amseroedd rhestrau aros fel problem hefyd. Soniodd rhieni am y frwydr i gael atgyfeiriad, ac yna gorfod aros hyd at ddwy flynedd a hanner am yr apwyntiad, gyda’ch plentyn wedi newid a’r heriau’n wahanol erbyn hynny.

**24.** Roedd rhieni'n teimlo’n gryf iawn nad oedd eu plant yn gallu cyflawni eu llawn botensial ac nad oedd hawliau eu plant yn cael eu diwallu. Dywedodd un rhiant mai’r oll y maent yn

gofyn amdano yw'r un cyfleoedd â phlant eraill ond bod yn rhaid i'w plentyn gymryd "llwybr gwahanol i gyrraedd yno".

# 4. Darpariaeth gofal plant

**25.** Disgrifiodd un rhiant orfod teithio o'r tu allan i ardal Rhondda Cynon Taf i fanteisio ar ddarpariaeth ASD Rainbows. Maent wedi dewis teithio'r pellter hwn oherwydd eu bod "yn cael ymyrraeth arbenigol yma". O ganlyniad, nid ydynt bellach yn gallu cael mynediad at arbenigwr anhwylder sbectrwm awtistig yn eu hawdurdod lleol eu hunain oherwydd eu bod wedi talu am ASD Rainbows. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'w plentyn fynd i ddarpariaeth ysgol brif ffrwd heb gymorth. Roeddent yn dweud mai "y gyllideb yw popeth".

**26.** Dywedodd y staff fod y Cynnig Gofal Plant ar gael dim ond os yw'r ddau riant yn gweithio.

# 5. Darpariaeth ysgol

**27.** Mynegwyd pryderon ynghylch lefel yr hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn lleoliadau prif ffrwd. Dywedwyd wrthym nad yw'r athrawon hyn wedi'u hyfforddi'n briodol. Roedd un rhiant yn bryderus am wybodaeth ac arbenigedd athrawon mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar. Roeddent yn dweud bod eu plentyn tair oed yn cael ei ddisgrifio fel bod yn "ystrywgar" gan athro. Roeddent yn dweud bod hyn oherwydd nad oedd yr athro yn gwybod beth i'w wneud ac felly'n methu gofalu am y plentyn yn ddiogel. Dywedodd rhiant arall fod eu prifathro "yn ddi-glem".

**28.** Rhannodd rhieni eu profiadau o geisio sicrhau cymorth mewn ysgolion. Dywedodd un rhiant fod y ddarpariaeth "bob amser yn dechrau gyda'r swm lleiaf…" a bod eu plant yn dioddef trawma o ganlyniad. Roeddent yn dweud bod "y system wedi niweidio" eu plentyn, ac ar ôl cael eu gadael i lawr o'r blaen, nad yw eu plentyn bellach yn ymddiried yn yr ysgol. Roeddent yn dweud nad yw eu plentyn wedi cael unrhyw addysg gan nad oes lleoliad a fydd yn eu cefnogi. Roeddent yn dweud mai'r unig bwynt y mae trafodaethau am gymorth yn digwydd yw pan fydd eu plentyn yn methu. Roeddent hefyd yn dweud fel rhieni eu bod nhw wedi cael "gwybodaeth ffug yn fwriadol".

**29.** Clywsom y bydd "adroddiadau da" yn cael eu llunio mewn rhai achosion gan weithwyr proffesiynol fel seicolegwyr addysg, yn nodi'r cymorth sydd ei angen. Yna mae teuluoedd yn credu y bydd hyn yn cael ei roi ar waith, ond nid yw'n digwydd. Mewn achosion eraill, caiff cymorth ei roi ar waith a bydd plant yn dechrau ffynnu, ond yna caiff y cymorth ei gymryd y ffordd oherwydd "bod yr ysgolion yn meddwl bod y gwaith wedi'i wneud". Ond gan mai'r

cymorth sy'n galluogi'r plentyn i ffynnu, mae angen ei gynnal. Disgrifiodd un rhiant sut na wnaethaent glywed pan oedd newid yn y cymorth, a dechreuodd y teulu feddwl tybed pam fod eu plentyn yn llithro'n ôl, ond nid oedd yr ysgol wedi rhoi gwybod iddynt. Yna roedd yn rhaid iddynt ei herio. Roedd rhwystredigaeth yn gyffredinol ynghylch cymorth neu addasiadau'n cael eu rhoi ar waith, ond bod yr ysgol wedyn yn eu cymryd i ffwrdd.

**30.** Mynegwyd pryderon am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ysgolion a'r dogni dilynol ar wasanaethau a chymorth. Dywedwyd wrthym mewn un achos fod athro mewn cyfarfod â theulu wedi dweud na allent ddarparu'r cymorth oherwydd bod angen iddynt ddarparu cymorth i blant hŷn. Dywedodd rhiant fod ysgolion yn gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch ble i dargedu cymorth, ac oherwydd nad oes gan eu plentyn broblemau ymddygiad nid ydynt yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth. Roeddent yn dweud na ddylai ysgolion orfod gwneud y mathau hyn o benderfyniadau.

**31.** Clywsom ei bod yn anodd cael Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn eu lle oherwydd "dyw ysgolion ddim eisiau eu gwneud nhw". Hyd yn oed mewn achosion lle mae gan blant CDU, nid yw bob amser yn cael ei ddilyn. Soniodd rhieni am eu rhwystredigaeth oherwydd, pe bai'r CDU yn cael eu dilyn, byddai eu plant yn ffynnu mewn addysg prif ffrwd. Dywedodd un rhiant nad oedd yr addasiadau "yn rhai enfawr hyd yn oed", ac y byddai eu rhoi ar waith yn galluogi eu plentyn i ffynnu mewn darpariaeth prif ffrwd. Dywedwyd wrthym y gall newidiadau bach iawn wneud gwahaniaeth enfawr, ond nad ydynt yn cael eu gweithredu.

**32.** Clywsom hefyd fod yr amseroedd aros i gael cymorth "yn chwerthinllyd". Dywedodd rhieni fod hyn yn arbennig o sarhaus, ar ôl yr amser hir a'r heriau o ran sicrhau diagnosis yn y lle cyntaf.

**33.** Mynegwyd pryderon ynghylch diogelu hefyd pan fydd plant a phobl ifanc allan o'r ysgol. Dywedodd un rhiant eu bod heb gael unrhyw gysylltiad gan eu hysgol neu awdurdod lleol pan oedd eu plentyn allan o'r ysgol am gyfnod hir. Pan oedd eu plentyn allan o'r ysgol am gyfnod o naw mis, roedd yn rhaid iddynt ofyn i'r awdurdod lleol ddod i wneud yn siŵr eu bod yn iawn. Hefyd, pan fydd plant i ffwrdd am gyfnodau hir o amser, efallai y bydd yn rhaid i rieni/gofalwyr roi'r gorau i weithio'n llwyr neu leihau eu horiau.

**34.** Soniodd rhieni am heriau'r plant hynny a fydd yn cuddio problemau yn yr ysgol, ond yn dechrau "datod" pan fyddant yn dod adref". Roeddent yn dweud bod yn yn eu cynddeiriogi gan fod pobl yn meddwl eich bod chi'n gwneud pethau i fyny, ac mai chi yw'r "rhiant 'na". Soniodd un rhiant am eu pennaeth yn dweud wrthynt "mae gen i 450 o ddisgyblion eraill i ofalu amdanyn nhw". Roeddent yn dweud "mae ysgolion yn ymladd tân a'n plant ni sy'n dioddef o ganlyniad". Clywsom hefyd y gall fod yn niweidiol i berthynas y rhiant/gofalwr gyda'u plentyn,

oherwydd bod y plentyn yn dechrau colli ymddiriedaeth yn y rhiant/gofalwr fel pobl ddiogel oherwydd eu bod yn “gwneud iddynt fynd i rywle lle nad ydynt yn teimlo’n ddiogel”. Clywsom mai agwedd y plant hyn yw “ymladd neu ffoi”. Dywedodd eraill wrthym fod eu plant yn dweud pethau fel “rwy’n dymuno fy mod i ddim yn bodoli, pam wyt ti'n fy anfon i i'r carchar?”.

**35.** Soniodd rhieni am gael eu barnu’n gyson gan yr ysgol, ond nad yw’r ysgol yn eu helpu ar yr un pryd. Dywedwyd wrthym fod teuluoedd yn cael eu hannog i fynd i ddarpariaeth prif ffrwd, ond nad yw ysgolion prif ffrwd eisiau’r plant hyn, oherwydd eu bod yn eu gweld fel plant “drwg”. Mae teuluoedd yn cael adborth negyddol “yn gyson” am eu plant, pan nad yw eu plant ar fai. Dywedodd un rhiant fod yr athrawon yn mynd yn rhwystredig gyda'u plentyn tair oed ac nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth pam eu bod yn ymddwyn mewn ffordd benodol, na sut i'w helpu. Dywedodd eraill eu bod “yn gyson” yn cael eu gwneud i deimlo bod eu plentyn “yn rhwystr”. Dywedodd un arall fod staff yn dweud eu bod “ddim yn gwybod beth i'w wneud” gyda nhw.

**36.** Dywedodd un rhiant, yn achos ysgol eu plentyn, “mae’n well iddyn nhw pan nad ydyn nhw i mewn”. Er nad addysg cartref yw’r dewis i rai, roeddent yn dweud nhw eu bod yn teimlo mai dyma'r unig opsiwn. Roeddent yn dweud bod hyn er gwaethaf y ffaith bod gan eu plant hawl i addysg a hawl i fod yn yr ysgol.

**37.** Clywsom hefyd nad yw ysgolion yn ymddiheuro pan fyddant yn gwneud camgymeriad. Roedd rhieni yn cymharu hyn â sut mae plant yn cael eu dysgu i ddweud bod yn ddrwg ganddynt pan fyddant yn gwneud camgymeriad. Roeddent yn dweud bod diffyg parch. Soniodd un rhiant am sut y cyhuddwyd eu plentyn o wneud rhywbeth yn yr ysgol, a oedd yn groes i'w cymeriad. Roedd eu CDU yn nodi y byddent bob amser yn cael eu hebrwng, ond nid oeddent ar y pryd. Gan fod eu plentyn yn ddi-eiriau ni allent roi eu cyfrif o'r hyn a ddigwyddodd, a chymerwyd yn ganiataol eu bod yn euog. Disgrifiwyd hyn fel “gwahaniaethu uniongyrchol” oherwydd eu bod yn ddi-eiriau.

**38.** Dywedwyd wrthym nad oes gan blant a'u teuluoedd ddewis o ran darpariaeth ysgol. Os cynigir lle i chi mewn uned arbenigol, ni fyddwch yn gallu ymweld â hi cyn gwneud penderfyniad. Cymharwyd hyn â'r cyfleoedd i blant eraill a'u teuluoedd wneud dewisiadau am ddarpariaeth anarbenigol.

**39.** Mynegwyd pryderon ynghylch mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd un rhiant fod yn rhaid iddynt leoli eu plentyn mewn ysgol cyfrwng Saesneg, oherwydd bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg “yn methu addysgu fy mhlentyn awtistig”. Roeddent yn dweud bod yn rhaid iddynt ddewis llesiant eu plentyn o flaen eu hiaith. Roeddent yn dweud bod dim

cynnydd o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bod y system “wedi bod yr un peth ers blynyddoedd”.

**40.** Soniodd un rhiant am yr heriau y maent yn eu hwynebu a sut maent yn effeithio ar weddill y teulu, yn enwedig brodyr a chwiorydd. Gan nad yw eu plentyn yn cysgu, gall effeithio ar bresenoldeb y brodyr a chwiorydd hŷn, gan na allant wedyn eu cael i'r ysgol. Ymwelodd y swyddog presenoldeb ysgol â’r teulu, er bod yr ysgol yn ymwybodol o’r problemau ehangach, a’r cymorth a gynigiwyd oedd lle yn y clwb brecwast i’r plant eraill. Fodd bynnag, byddai hyn yn rhoi mwy o straen ar y teulu oherwydd byddai angen mynd â’r plant i’r un ysgol ar amseroedd gwahanol, a fyddai mewn gwirionedd yn gwneud bywyd yn anoddach. Roedd hefyd yn achosi mwy o straen oherwydd eu bod yn poeni y gallent gael eu cymryd i'r llys a'u dirwyo. Roeddent yn dweud bod angen cymorth i’r brodyr a chwiorydd.

**41.** Clywsom enghreifftiau o sut mae ysgolion yn methu â gwneud addasiadau o ran gwaith ysgol a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Dywedodd un rhiant fod eu plentyn yn cael yr un gwaith cartref â'r rhai heb anghenion ychwanegol. Roeddent yn dweud eu bod, drwy geisio ei gynnwys, yn ei allgau mewn gwirionedd gan nad oedd hyd yn oed yn gallu rhoi cynnig ar y gwaith hwn. Y cyfan oedd angen ei wneud oedd rhoi gwaith cartref penodol iddo a oedd yn ystyried yr hyn y gall ei wneud. Clywsom hefyd am blentyn a oedd yn cael trafferth gyda gêm ar yr iard, a phan ofynnwyd i staff esbonio sut mae'r gêm yn cael ei chwarae dywedodd y staff nad oedd ganddynt amser. Dywedodd y pennaeth y dylai pob plentyn orfod wynebu cywilydd. Mewn achos arall, roedd plentyn yn bryderus ynghylch dechrau yn yr ysgol gynradd, a chytunodd yr ysgol i gynnal ymweliad â’r ystafell ddosbarth cyn dechrau, a fyddai wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, ond ni threfnwyd hyn.

**42.** Clywsom hefyd am broblemau o ran ymweliadau ysgol a gweithgareddau hamdden. Dywedodd rhieni nad yw ysgolion yn cysylltu cyn gweithgareddau o'r fath, a bod yn rhaid i rieni gychwyn hyn bob tro. Awgrymwyd y “byddai’n well gan ysgolion inni eu cadw gartref”. Dywedodd rhiant arall “mae'n cael ei awgrymu nad yw'n addas iddynt fynychu” sy'n golygu na allant fwynhau'r un profiadau â'u cyfoedion. Disgrifiodd un rhiant brofiad ei blentyn mewn diwrnod mabolgampau. Bu'n rhaid iddynt gerdded canolfan hamdden gyfagos, ac ni ddarparwyd cludiant er bod eu plentyn ei angen. Yna nid oeddent yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiadau chwaraeon oherwydd eu bod wedi gorfod cerdded i'r lleoliad, felly roeddent wedi cerdded i ddigwyddiad lle na allent gymryd rhan. Roedd hyn yn arbennig o heriol, gan mai siomedigaeth yw un o’r pethau sy’n peri trallod i’w plentyn.

**43.** Dywedodd rhieni fod addysg yn beth sydd wir yn “allgau” a bod cynhwysiant ar gael dim ond “os ydych chi’n ffitio i mewn i flwch”. Ond dywedwyd wrthym fod gwneud i blant ffitio

mewn blychau penodol yn beth niweidiol iawn. Soniodd un rhiant am y gwahaniaethau y maent yn eu gweld yn y ffordd y mae eu dau blentyn yn cael eu trin, gydag un yn cael eu derbyn oherwydd bod eu hanghenion yn weladwy iawn, ac anghenion y plentyn arall heb eu derbyn oherwydd eu bod yn eu cuddio.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Eitem 8.6

# Sparkle – Grŵp Ffocws

15 Medi

**Yn bresennol:**

- Jayne Bryant AS
- Naomi Stocks, Clerc (cofnodydd).

## 1. Y cefndir

**1.** Hwyluswyd yr ymweliad hwn gan Sparkle, elusen swyddogol Canolfan Blant Serennu yng Nghasnewydd, Canolfan Blant Nevill Hall yn y Fenni a Chanolfan Blant Caerffili. Maent yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anawsterau datblygu a'u teuluoedd sy'n byw yng Ngwent.

**2.** Cynhaliwyd y sesiwn yn dilyn cais gan Sparkle i alluogi'r Pwyllgor i siarad yn uniongyrchol â theuluoedd ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor "A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?" Hysbysebodd Sparkle y sesiwn ar draws eu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol.

**3.** Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd ac a godwyd.

**4.** Nodwn fod yna rai pobl y byddent wedi hoffi gallu dod a rhannu eu profiadau ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny oherwydd roeddent yn gofalu am eu plant.

**5.** Roedd dros 25 o bobl yn bresennol yn y sesiwn. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor, Jayne Bryant AS, yn bresennol, ochr yn ochr â'r Clerc, Naomi Stocks (a gymerodd y nodiadau). Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r rhai a ddaeth ac a rannodd eu profiadau.

**6.** Clywsom ystod eang o brofiadau yn cwmpasu gwahanol oedrannau, mathau o anableddau, lefelau anghenion cymorth a phrofiadau addysgol a gofal plant. Y thema unol oedd angerdd clir i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg a gofal plant. Ynghyd â hyn oedd rhwystredigaeth a dicter ynghylch sut nad yw'r systemau presennol yn llwyddo hyd yn oed o ran anghenion sylfaenol. Soniodd nifer ohonynt am sut nad oedd hawl plentyn i addysg yn cael ei fodloni. I'r plant hynny sy'n gallu cael mynediad at addysg neu ofal plant, mae eu profiadau a'u cyfleoedd yn llawer mwy cyfyngedig na rhai eu cyfoedion nad ydynt yn anabl neu'n niwro-nodweddiadol.

**7.** Clywsom dro ar ôl tro nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn bodoli. Cymharodd llawer o bobl brofiadau eu plentyn anabl, â'u plant neu gyfoedion nad ydynt yn anabl, i dynnu sylw at y gwahaniaethau amlwg mewn profiadau. Mae'r annhegwch hwn yn ymestyn y tu hwnt i addysg a gofal plant, ac mae'n gyffredin ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dywedodd rhywun fod y materion a gafodd eu codi yn ystod ein trafodaethau yr un peth â'r rhai a godwyd ugain mlynedd yn ôl. Dywedodd un arall ei fod yn adlewyrchu sut rydym yn trin pobl anabl yn ehangach yn y gymdeithas, a galwodd iddynt gael eu trin fel plentyn yn bennaf oll, gyda'u hanabledd yn ffactor eilaidd.

**8.** Clywsom hefyd am ddiffyg cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau a gwasanaethau cymorth. Soniodd pobl am wahanol feini prawf ar gyfer cymorth ar draws gwahanol awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau cymorth, a chymysgedd dryslyd o wahanol ffrydiau cyllido. Dywedon nhw fod teuluoedd yn cael eu trosglwyddo'n rheolaidd o un sefydliad i'r llall, a'i bod yn anodd deall yn union pwy sy'n gyfrifol. Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch pa mor bell y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau oddi wrth y plentyn a'i deulu, a'i bod yn anodd sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn y strwythurau gwneud penderfyniadau hyn.

# 2. Darpariaeth ysgol statudol

**9.** Roedd rhai yn teimlo bod pa mor groesawgar, cynhwysol a hygyrch yw ysgol yn dibynnu mwy ar gymeriadau'r staff yn hytrach na'r systemau sy'n sail i system yr ysgol. Disgrifiodd pobl sut mae'r system yn achosi plant a phobl ifanc i fethu.

**10.** Mynegwyd pryderon am blant a phobl ifanc sydd wedi disgyn i 'ardal lwyd'. Clywsom am nifer o blant nad oedd eu hanghenion yn gofyn am leoliad arbenigol, ond a oedd yn cael trafferth ymdopi o fewn lleoliad prif ffrwd. Soniodd pobl am y 'bwlch mawr' yn y meini prawf rhwng cymorth prif ffrwd a chymorth arbenigol. Dywedwyd wrthym fod addysg mewn lleoliad prif ffrwd ac addysg mewn lleoliad arbenigol yn 'gwbl wahanol'.

**11.** Galwodd rhieni am lwybr clir a chyson i blant a phobl ifanc allu cael mynediad at Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Roedden nhw eisiau mwy o dryloywder ynghylch yr ystod o opsiynau a allai fod ar gael, gan bwysleisio y gall EOTAS fod yn briodol i blant sydd yn yr 'ardal lwyd'. Disgrifiodd un rhiant sut y bu'n yn rhaid iddo ddefnyddio cais Rhyddid Gwybodaeth i weld polisi EOTAS yr awdurdod lleol. Dywedodd fod penderfyniadau yn dal i gael eu gwneud ar sail diagnosis yn hytrach nag angen a dywedodd nad oedd llythyr meddyg teulu yn cael ei ystyried yn ddigonol.

**12.** Dywedodd un rhiant fod ei blentyn yn cael ei 'orfodi' i ddarpariaeth prif ffrwd nad yw'n diwallu ei anghenion. Dywedodd un arall fod angen i'w blentyn fod mewn lleoliad arbenigol ond nad oedd neb yn gwrando arno. Fe wnaeth un aelod o deulu ddisgrifio sut mae ei ysgol gynradd wedi ymdopi'n wych o fewn yr adnoddau sydd ganddyn nhw, ond bod y plant bellach yn gwrthod mynd. Mae wedi cael ei gynghori, os yw'n gwneud cais am le mewn lleoliad arbenigol, efallai y bydd yn cael lle fis Medi nesaf, a thrwy hynny bydd yn colli hyd yn oed mwy o addysg.

**13.** Disgrifiodd rhiant arall sut mae ei blentyn wedi colli chwe blynedd o ysgol gynradd oherwydd nad yw'r awdurdod lleol wedi darparu lle hygyrch mewn ysgol. Disgrifiodd sut yr oedd y lleoliad cyntaf wedi para chwe wythnos yn unig, oherwydd na chafodd y plentyn ei drin fel disgybl arferol. Yn yr ail ysgol, cadarnhawyd 12 pwynt o wahaniaethu ar sail anabledd. Er fod y plentyn bellach yn yr ysgol uwchradd, mae problemau yn ymwneud â chludiant, mynediad i'r toiled a chyfleusterau amser cinio, ac mae pob un ohonynt yn peri i'r person ifanc gael ei wahanu oddi wrth ei ffrindiau. Nid yw'r cynllun gofal na'r CDU yn cael eu dilyn felly nid yw cyfleoedd megis dysgu cyfunol yn digwydd.

**14.** Disgrifiodd un person y panel EOTAS fel y 'brocer pŵer go iawn' ond nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth am bwy sy'n eistedd arno. Ni chaniateir i'r ysgol, y teulu na'r dysgwr gynrychioli eu hunain yn y panel, ac eto mae'r panel hwn yn gwneud yr holl benderfyniadau, gan gynnwys ynghylch darpariaeth cludiant a lefel y cymorth arbenigol.

**15.** Fe aeth ymlaen i ddisgrifio achos ei blentyn, a oedd wedi cael diagnosis o awtistiaeth, ADHD a dyspracsia. Roedd ei blentyn yn ddisgybl o'r radd flaenaf, ond fe 'ddisgynnodd yn ddarnau' ar ôl y pandemig, ac nid yw hi wedi gallu mynychu'r ysgol. Yna, fe ddaeth ei blentyn yn anabl, ac er gwaethaf llythyrau gan tua 30-40 o weithwyr proffesiynol ar lefel ymgynghorydd proffesiynol, dywedodd y panel nad oedd tystiolaeth nad oedd ei hanghenion yn cael eu diwallu. Ond dywedodd yr ysgol nad oeddent yn gallu gwthio'r gadair olwyn, felly byddai angen cymorth un i un i fynd rhwng gwersi. Daeth yn heriol iawn, ac ni ddatblygodd yr ysgol gynllun i gefnogi ei blentyn. Pan ddechreuodd roi pethau'n ysgrifenedig i'r ysgol, cafodd y sefyllfa ei throi

yn ei erbyn, ac ymyrrodd y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd ei fod wedi treulio blwyddyn mewn uffern, ac yn lle ymladd dros ei blentyn, bu’n rhaid iddo ymladd i ddangos nad oedd yn brifo ei blentyn. Dywedodd fod ganddo weithiwr cymdeithasol da ac fe gafodd ei brofi’n gywir yn y pen draw, ond roedd y broses yn llawer gwaeth na delio gydag ymddangosiad anabledd corfforol difrifol ei blentyn.

**16.** Soniodd nifer o deuluoedd wrthym am effaith osgoi mynd i’r ysgol ar sail emosiynol, a diffyg cymorth priodol. Disgrifiodd un rhiant sut roedd nifer o ysgolion wedi dweud iddo dynnu enw ei blentyn oddi ar y gofrestr ond bod hyn i gyd yn cael ei wneud ar lafar, felly nid oedd trywydd papur. Roedd yn teimlo y byddai ei blentyn yn elwa o ddarpariaeth “Anogaeth”, a fyddai’n darparu’r cymorth emosiynol a chymdeithasol angenrheidiol sydd ei angen ar ei blentyn. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn arddangos ymddygiad heriol. O ganlyniad, nid yw ei blentyn wedi bod yn yr ysgol ers dwy flynedd. Nododd bod yr absenoldeb hwn wedi arbed llawer o arian i'r ysgol, ac nad yw'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yn bodloni ei ofyniad cyfreithiol i ddarparu addysg i'w blentyn.

**17.** Dywedwyd wrthym fod plant yn cael eu cau allan yn gorfforol o ystâd yr ysgol oherwydd eu hanableddau. Disgrifiodd rhieni awdurdodau nad oeddent yn gweld plentyn, ond ‘rhywbeth gwahanol’? Gofynnodd un rhiant pam nad ydym yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn o ddechrau eu bywydau? Clywsom hefyd fod nifer y plant a phobl ifanc ag anableddau yn cynyddu.

**18.** Dywedodd rhieni fod hygyrchedd yn dechrau y tu allan i giât yr ysgol, ac mae ysgolion yn aml yn anghofio hynny. Gwnaethant sôn am yr heriau o allu gollwng eu plant, gyda diffyg llefydd parcio diogel, neu fynediad i fannau anabl y tu allan i ysgolion.

**19.** Clywsom hefyd nad oedd plant a phobl ifanc anabl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd preswyl. Clywsom nad yw plant mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu yn cael cynnig unrhyw deithiau preswyl. Ond efallai na fydd hyd yn oed y rhai mewn lleoliadau prif ffrwd yn gallu mynd. Disgrifiodd un rhiant sut y cafodd ei blentyn ei wahardd rhag mynd oherwydd na fyddai digon o gefnogaeth ar gael. Fe gynigodd i fynd ei hun, ond nid oedd yn gallu cwblhau gwiriad DBS mewn pryd. Roedd yn teimlo y byddai wedi bod yn gyfle gwych i’w blentyn, ac roedd y ffaith nad oedd yn gallu mynd yn peri trallod i’r teulu cyfan. Fe alwodd am ddull sy’n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, ac awgrymodd y dylid neilltuo rhywfaint o arian y gellir ei gyrchu i alluogi plant a phobl ifanc anabl i gael mynediad at weithgareddau preswyl.

**20.** Clywsom am y diffyg dewis i blant a phobl ifanc anabl. Gall fod yn anodd dod o hyd i ysgol sy'n gynhwysol ac yn hygyrch, ac felly yn wahanol i gyfoedion nad ydynt yn anabl, yn aml

mae'n rhaid i'r plant hyn fynd i'r ysgol sy'n diwallu eu hanghenion orau hyd yn oed os nad dyna yw'r ysgol y byddent yn ei dewis yn arbennig.

## Cyllido ysgolion

**21.** Codwyd materion yn ymwneud â chyllid ysgolion dro ar ôl tro a'r effaith y mae cyllidebau cyfyngedig yn ei chael ar benderfyniadau ysgolion. Dywedodd teuluoedd bod angen gweithredu dull ysgol gyfan, ac y dylid ariannu ysgolion yn llawn i gyflawni hyn. Clywsom fod gan lywodraethwyr opsiynau cyfyngedig o ran rheoli cyllidebau, ac na ellir pennu cyllidebau diffygiol. Felly, gyda chostau eraill yn cynyddu, un o'r ychydig opsiynau sydd ar gael yw lleihau cynorthwywyr addysgu. Eto i gyd, mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud gwaith gwych, ac yn darparu cefnogaeth i blant ag ADY nad yw'n bosibl i athro sydd â chyfrifoldeb am hyd at 30 o blant eraill ei wneud. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â newidiadau gyda'r system ADY, disgrifiodd pobl sut roedd datganiadau wedi gweithredu fel rhwyd ddiogelwch oherwydd bod yr arian yn dilyn y plentyn, ond mae diwygiadau diweddar yn golygu bod y rhwyd ddiogelwch hon wedi mynd.

**22.** Dywedodd un person fod ysgolion yn gweithredu ar gyllideb ceiniog a dimai. Derbyniodd person arall mai dim ond o fewn y cyllidebau sydd ganddynt y gall ysgolion weithio. Fodd bynnag, nododd hefyd, er bod yr awdurdod lleol yn dweud y dylai ysgolion dderbyn addasiadau rhesymol i gefnogi addysg, nid nhw sy'n eu darparu mewn gwirionedd.

**23.** Clywsom yn aml y gall ysgolion fod yn ddibynnol ar gymorth gan elusennau a gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai a all fod â gwybodaeth arbenigol mewn cefnogi anableddau neu gyflyrau penodol.

## Hyfforddiant a chapasiti staff

**24.** Codwyd materion yn ymwneud â hyfforddiant i staff ysgolion. Roedd y materion penodol a amlygwyd yn cynnwys yr angen i Gydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig gael hyfforddiant gorfodol, yn ogystal â chynorthwywyr addysgu. Awgrymwyd y dylid cynnwys hyfforddiant penodol mewn graddau a meistri sy'n gysylltiedig ag addysg. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd athrawon mewn lleoliadau prif ffrwd hefyd yn delio â phlant ag ADY. Disgrifiodd pobl yr effaith wirioneddol y mae cael staff â'r sgiliau a'r profiad cywir yn ei chael ar eu plant. Dywedwyd wrthym ei bod yn bwysig bod oedolion dibynadwy o'u cwmpas sy'n deall eu hanghenion.

**25.** Galwodd un rhiant am fwy o hyfforddiant yn benodol ar gyfer staff mewn unedau adnoddau dysgu. Dywedodd nad yw ei blentyn wyth oed sydd â diagnosis o ADHD wedi cael

addysg lawn. Hyd yn oed mewn unedau adnoddau dysgu, nid yw eu diagnosis yn cael ei ystyried ac mae staff yn dweud eu bod yn 'ddrwg' pan mai ADHD y plentyn yw'r rheswm dros ei ymddygiad.

**26.** Clywsom ei bod yn bwysig i weithwyr addysg proffesiynol gael hyfforddiant ac amser i archwilio eu rhagfarnau anymwybodol eu hunain gan gynnwys ar anabledd. Dywedwyd wrthym, oni bai bod hyn yn digwydd, na fyddai'r diwylliant mewn ysgolion yn newid.

**27.** Cafodd amser wedi'i neilltuo ar gyfer cymorth ADY ei grybwyll. Clywsom am nifer o enghreifftiau lle'r oedd cyfrifoldebau cydlynu Anghenion Addysg Arbennig yn cael eu gwneud yn ogystal â swydd addysgu deiliad y swydd. O ganlyniad, ni allai plentyn ag ADY gael mynediad at y cymorth hwn gan nad oedd y Cydlynydd Anghenion Addysgu Arbennig ar gael oherwydd ei ymrwymiadau addysgu. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw athrawon weithiau'n cael eu talu am y cyfrifoldeb ychwanegol hwn.

## Diwygiadau ADY

**28.** Cafodd cyllid ar gyfer y diwygiadau ADY presennol ei godi. Roedd pryderon ynghylch pa mor hir y byddai'r cyllid ADY yn cael ei neilltuo. Roedd pobl yn bryderus, oherwydd yn flaenorol cafodd y gyllideb awtistiaeth ei neilltuo am gwpl o flynyddoedd, ond yn y pen draw dilëwyd y cyllid a neilltuwyd.

**29.** Soniodd un rhiant am orfod bygwth mynd i'r llys i gael datganiad. Dywedodd un arall y gwrthodwyd CDU i'w blentyn, a gafodd effaith uniongyrchol ar iechyd meddwl a llesiant ei blentyn, gan arwain at ymgais i ladd ei hun.

**30.** Clywsom gymariaethau rhwng y systemau blaenorol a newydd. Disgrifiodd un rhiant y profiadau a gafodd ei phlentyn hynaf gydag ASA, a phrofiadau ei phlentyn iau sydd ar y system newydd. Pan drosglwyddodd y plentyn hŷn o Ganolfan Adnoddau Dysgu i ddarpariaeth brif ffrwd, dilynodd y cyllid yn ddidrafferth, gan alluogi'r plentyn i droi'n ôl i'r cymorth ychwanegol gan y Ganolfan pan yr oedd angen. Fe wnaeth hyn helpu i gefnogi'r newid i ddarpariaeth prif ffrwd.

**31.** Fodd bynnag, gan fod ei mab iau bellach hefyd yn trosglwyddo o Ganolfan Adnoddau Dysgu i'r brif ffrwd mae cryn dipyn o drafod wedi bod gyda'r ysgol ynghylch y ffynonellau cyllido. (Ni ddigwyddodd hyn gyda'i phlentyn hŷn). Y rheswm am hyn yw bod y cyllid ar gyfer y rhai yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu sydd â CDU yn dod o'r awdurdod lleol, ond bydd yn rhaid i'r ysgol ei hun ariannu unrhyw gymorth pellach sydd ei angen ar ei phlentyn. Dywedon nhw fod angen i'w phlentyn fod mewn darpariaeth brif ffrwd, nid yw'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn

diwallu ei anghenion, ond mae angen help ychwanegol arno o hyd. Mae'r Cydgysylltydd ADY wedi dweud bod yr ysgol crafu gwaelod y gasgen o ran y gyllideb.

**32.** Wrth gymharu'r ddwy system newydd, dywedodd fod y gwaith papur yn welliant ar yr hen system. Roedd yn teimlo bod hyd rhai o'r dogfennau allweddol, fel datganiad y dysgwr, yn golygu nad oedd gan athrawon amser i fynd drwyddynt yn fanwl. Yn aml, roedd y datganiad yn mynd yn hen iawn, gan nodi, pan oedd ei phlentyn yn 15 oed fod y datganiad dal yn cynnwys manylion a oedd yn ymwneud â phryd y cafodd ddiagnosis yn ddwy oed. Roedd CDUau yn eu barn nhw yn gadarnhaol ar y cyfan, yn fwy cryno ac yn ymwneud mwy â'r sefyllfa bresennol y plentyn.

## Diagnosis, asesiad a chymorth

**33.** Soniodd nifer o rieni am orfod defnyddio gofal iechyd preifat er mwyn cael diagnosis ac asesiad. Roedd hyn yn bennaf oherwydd hyd rhestrau aros y GIG. Roedd hyn ar gyfer ystod o wahanol gyflyrau gan gynnwys ADHD, awtistiaeth a dyslecsia. Roedd hefyd yn amrywio o ddiagnosis meddygol ond hefyd yn cynnwys cymorth gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd megis therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, a therapyddion lleferydd ac iaith. I lawer ohonynt, roedd mynd yn breifat yn golygu cael mynediad at ystod o wahanol weithwyr proffesiynol trwy'r llwybr hwn, gyda'r costau'n gysylltiedig â cheisio amrywiaeth o gyngor proffesiynol gwahanol. Dywedodd rhywun ei fod bellach yn ystyried defnyddio gofal iechyd preifat er mwyn sicrhau diagnosis, gyda hyn yn debygol o gostio tua £6,000 i gyd.

**34.** Hyd yn oed yn yr achosion hynny lle mae cymorth yn cael ei ddarparu, gall fod costau cudd ac ychwanegol. Er enghraifft, disgrifiodd un teulu sut yr oeddent o'r diwedd wedi sicrhau dyfais gyfathrebu a ariennir, dim ond iddi dorri'n rheolaidd, ac mae'n rhaid i'r teulu dalu'r costau uchel i'w thrwsio.

## Tribiwnlysoedd

**35.** Soniodd nifer o deuluoedd am eu profiadau gyda thribiwnlysoedd. Dywedodd nifer o bobl y gallai'r arian y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar dribiwnlysoedd gael ei ailgyfeirio a'i wario ar ddarparu cymorth. Amlygwyd bod 70 y cant o dribiwnlysoedd yn llwyddiannus.

**36.** Tynnwyd sylw at hawl plentyn i addysg, ac eto, mae'n rhaid i rieni ymladd i sicrhau bod yr hawl sylfaenol hon yn cael ei bodloni. Dywedodd rhywun mai'r broblem fwyaf y maent yn ei wynebu wrth sicrhau addysg ei blentyn yw'r awdurdod lleol. Roedd pryder nad oes gan staff awdurdodau lleol ddigon o hyfforddiant nac ymwybyddiaeth o anableddau.

**37.** Disgrifiodd un ohonynt orfod darparu'r holl adroddiadau mewn termau meddygol, er nad oedd neb â chefndir meddygol ar y panel. Soniodd un arall wrthym am orfod mynd yn breifat i gael diagnosis ac nad oedd yr ysgol na'r awdurdod lleol yn fodlon ei dderbyn oherwydd na chafodd ei wneud drwy'r GIG. Ac eto, roedd rhestrau aros y GIG yn rhy hir. Gan na fyddai'r awdurdod lleol yn derbyn y diagnosis hwn, bu'n rhaid iddynt fynd i'r tribiwnlys, a gostiodd £17,000 iddynt, ac roedd yn llwyddiannus. Talwyd am hyn drwy ailforgeisio eu tŷ. Fe wnaethon nhw gwestiynu pam nad oedd yr awdurdod lleol wedi derbyn y diagnosis preifat yn y lle cyntaf, yn enwedig pan mai'r un meddyg fyddai wedi gwneud yr asesiad yn y GIG.

**38.** Clywsom am un achos penodol, lle o ganlyniad i deulu yn mynd drwy'r llwybr cyfreithiol i sicrhau addysg hygyrch a chynhwysol briodol, y gallant nawr ond cyfathrebu â'u hawdurdod lleol a'u hysgol trwy gyfreithwyr. Mae hyn yn cynnwys sgyrsiau syml fel rhoi gwybod i'r ysgol pan fydd gan eu plentyn apwyntiad ac y bydd yn hwyr i'r ysgol, neu hyd yn oed gyswllt arall â'r awdurdod lleol megis gofyn am gadi bwyd newydd er mwyn ailgylchu. Tynnwyd sylw at y gost i'r awdurdod lleol am hyn.

## Eithriadau

**39.** Clywsom am enghreifftiau o blant yn cael eu gwahardd oherwydd eu hanableddau. Soniodd un teulu am enghraifft o gael eu galw i mewn gan y pennaeth a ddywedodd wrthynt nad oedd yr ysgol am gael y 'math hwn o blentyn' yn eu hysgol. Mae gan eu plentyn awtistiaeth.

## Cludiant Dysgwyr

**40.** Codwyd materion yn ymwneud â chludiant hygyrch i ddysgwyr. Dywedodd pobl fod angen i'r ddarpariaeth teithio i ddysgwyr gael ei nodi'n gliriach, fel bod yr hyn y gall pobl gael mynediad ato'n glir.

**41.** Yn ogystal â chlywed am faterion yn ymwneud â chludiant cyn-16, clywsom am ddarpariaeth ôl-16. Dywedodd pobl nad oedd unrhyw gyfeiriad clir. Mae anawsterau'n codi wrth wneud dewisiadau ôl-16 oherwydd nad yw'r cludiant a gynigir yn hysbys. Dywedodd rhai y gwnaethant ganfod pa gludiant fyddai ar gael dim ond yr wythnos cyn y tymor newydd neu hyd yn oed y diwrnod cynt.

**42.** Disgrifiodd un rhiant orfod talu £178 yr wythnos am dacsi hygyrch er mwyn i'w blentyn fynd i'r coleg. Tynnodd sylw at y ffaith pe bai'n byw mewn awdurdod lleol gwahanol y byddai'r cludiant wedi cael ei ariannu'n llawn. Pan gododd hyn, dywedwyd wrtho na ddylai ei blentyn fod wedi'i gofrestru yn y coleg pan oedd yn gwybod nad oedd ganddo cludiant. O ganlyniad i hyn

mae wedi gorfod newid ei batrymau gwaith er mwyn iddo allu mynd â'i blentyn i'r coleg, gyda thacsi hygyrch yn casglu ei blentyn. Mae hyn yn costio £88 yr wythnos. Mae'r anghysondebau ar draws awdurdodau lleol yn sbarduno'r rhiant barhau i ymladd dros ei blentyn.

**43.** Dywedodd y person ifanc yn syml 'mae'n gwahaniaethu - alla i ddim mynd ar fws... Sut ydw i'n mynd i'r coleg heb drafnidiaeth?'. Tynnodd sylw at y ffaith y gall pobl ifanc nad ydynt yn anabl gael cymorthdaliadau i leihau'r gost cludiant, a gofynnodd pam nad oedd hyn ar gael i bobl ifanc anabl hefyd.

### Darpariaeth ôl-16

**44.** Er fod darpariaeth ôl-16 y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad, cafodd ei chodi gan deuluoedd fel maes sy'n peri pryder. Dywedwyd wrthym fod cymorth mewn lleoliad ysgol yn dod i ben yn 16 oed, sy'n golygu na all rhai plant fynd ymlaen i ddarpariaeth chweched dosbarth. Disgrifiwyd hyn yn syml fel 'gwahaniaethu'.

**45.** Roedd pryder ynghylch pa mor hir fydd y cyllid ar gael ar gyfer cymorth, a rhoddwyd enghraifft lle'r oedd person ifanc yn gorberfformio ac felly'n methu â chael cyllid ar ôl y ddwy flynedd gyntaf. Dywedodd y teulu pe bai eu plentyn wedi methu byddai'r cyllid wedi parhau. Gwnaethant ddweud er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes dim byd yn y fframwaith perthnasol sy'n nodi bod y cyllid hwn ond ar gael am ddwy flynedd, mae'r print mân yn golygu ei bod yn anodd iawn cael cyllid ychwanegol mewn gwirionedd.

## 3. Darpariaeth gofal plant

### Darpariaeth cyn ysgol

**46.** Nid oes digon o ddarpariaeth cyn ysgol ar gael i blant anabl. Disgrifiodd teuluoedd feithrinfeydd nad oeddent yn derbyn eu plant oherwydd na allent gael cyllid digonol ar gyfer y cymorth ychwanegol y byddai ei angen. Her benodol yw'r angen am fwy o staff.

**47.** Disgrifiodd un rhiant orfod talu am ddarpariaeth gofal plant preifat i helpu ei phlentyn i gymdeithasu â phlant eraill, ac eto roedd y ddarpariaeth hon a ariennir ar gael i blant nad oeddent yn anabl.

**48.** Disgrifiodd rhiant arall y profiad o sicrhau lle mewn meithrinfa ar gyfer ei blentyn ag anabledd corfforol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau addawol gyda'r feithrinfa, a chyfnod ymgartrefu, cafodd wybod y diwrnod cyn yr oedd y ddarpariaeth i fod i ddechrau na allai'r feithrinfa gynnal y plentyn. Nid oedd cyfle i drafod hyn ymhellach gyda'r feithrinfa, felly bu'n

rhaid iddo ddod o hyd i ddarparwr gofal plant arall ar fyr rybudd. Er gwaethaf yr heriau o fynd ar drywydd cwyn o ran yr amser y mae'n ei gymryd, ond hefyd er mwyn clirio ei feddwl, fe aeth ati i gwyno. Ni chafodd unrhyw ymateb uniongyrchol gan y feithrinfa. Fe gysylltodd ag Arolygiaeth Gofal Cymru ond nid oedd ei ymateb yn ddigonol. Safbwynt AGC oedd bod y feithrinfa wedi bod yn ymddiheurol ac nad oeddent wedi sylweddoli maint anghenion y plentyn. Roedd y rhiant yn teimlo'n rhwystredig na chafodd unrhyw ddewis arall. Er gwaethaf y ffaith ei fod wedi sicrhau lleoliad wedi hynny, pryd bynnag yr oedd gan y lleoliad broblemau staffio, ni allai ei blentyn fynd i mewn, gan effeithio ar allu'r rhiant i weithio.

**49.** Dywedodd y rhiant fod atebolrwydd yn allweddol ac awgrymodd y gallai hyn gael ei wella drwy sicrhau bod mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd i ddangos pryd mae plant a phobl ifanc yn gadael lleoedd meithrin neu ysgol. Dylai'r data hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch pam mae plant a phobl ifanc yn gadael eu meithrinfa neu ysgol. Awgrymwyd bod symud rhwng lleoliadau yn y sectorau cyn ysgol ac ysgolion oherwydd diffyg cymorth yn digwydd drwy'r amser, nid yw'n cael ei gydnabod ac mae'n diflannu'n ddiarwybod.

**50.** Disgrifiodd un rhiant sut y bu'n rhaid iddo gymryd seibiant gyrfa pan gafodd ei fabi ei eni yn ystod y pandemig. Oherwydd natur ei swydd, ac oherwydd bod ei blentyn yn agored i niwed yn glinigol, ni allai ddychwelyd. Roedd hon yn swydd yr oedd yn ei charu. Ar ôl iddo geisio dod o hyd i ofal plant ers hynny mae wedi bod yn anodd. Yn ystod sesiynau ymgartrefu, roedd ei blentyn yn cael ei leoli gyda babanod, er ei fod yn blentyn cyn ysgol. Er fod oedi yn natblygiad corfforol ei blentyn, mae ei hoedran yn gywir o ran datblygiad gwybyddol. Dywedodd meithrinfeydd wrtho nad oedd yn ymarferol yn ariannol i dderbyn ei blentyn.

**51.** Ers hynny mae wedi cael cymorth gan Blynyddoedd Cynnar Cymru, sydd wedi bod yn 'wych'. Asesodd Blynyddoedd Cynnar Cymru beth oedd lefel yr angen, a rhoddodd gyfle i'w blentyn fynychu meithrinfa. Roedd y teulu am gynyddu'r oriau, ond ni fyddai Blynyddoedd Cynnar Cymru yn talu am sesiynau ychwanegol, ac nid oedd y teulu'n cael talu am sesiynau ychwanegol. Bellach ni allant ddod o hyd i ofal cofleidiol ar gyfer darpariaeth feithrin yr ysgol. Yn eu hachos nhw, maen nhw'n gallu ariannu darpariaeth bellach, ond maen nhw'n cael eu hatal oherwydd 'ni chaniateir hyn'. Dywedon nhw 'hygyrchedd, ansawdd… does dim byd pendant yn dod allan o'r geiriau hyn'.

**52.** Dywedon nhw ei bod yn anodd iawn cael dealltwriaeth glir o ba gymorth yr oedd ganddynt hawl iddo, a sut i gael gafael arno. Roedden nhw eisiau llwybr clir sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am beth, a phwy sy'n atebol am sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod yr ysgol yn ceisio bod mor gynhwysol â phosibl, ond bod yr arian sydd ar gael yn gyfyngedig.

**53.** Ceir problemau hefyd ynghylch amserlenni a thargedau cyflawnadwy nad oeddent yn cyd-fynd. Er enghraifft, fe aethant at seicolegydd addysg a allai wedyn fwydo i mewn i'r CDU. Fodd bynnag, ni ellir cynnal yr asesiad tan fis Mehefin cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau ym mis Medi, sy'n agos at y cyfnod pontio. Roedd yn golygu bod gan yr ysgol 45 diwrnod i greu CDU, ac mae'r 'cloc yn stopio yn ystod gwyliau'r haf'. Dywedon nhw pe na baen nhw wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol am y flwyddyn flaenorol, ni fyddai eu plentyn wedi gallu dechrau tan fis Hydref. Er eu bod yn cydnabod bod datblygiad plant yn newid yn gyflym, roeddent yn teimlo bod angen edrych ar yr aliniad hwn.

**54.** Tynnwyd sylw at bwysigrwydd diagnosis cynnar ac ymyrraeth. Amlygodd pobl hefyd fod yr angen i sicrhau gofal plant priodol yn aml yn digwydd ar yr un adeg â phan y mae teuluoedd yn darganfod fod eu plentyn yn anabl. Disgrifiodd un rhiant sut yr oedd ei brofiadau o ymladd am ofal plant wedi effeithio wedyn ar sut yr aeth ati i sicrhau lleoliad ysgol. Roedd yn ofnus ac yn crynu wrth edrych am ysgolion oherwydd ei brofiadau anodd gyda gofal plant. (gweler paragraff 48.)

**55.** Cafodd sicrhau bod cymorth yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl ei bwysleisio, oherwydd os na wneir hynny, neu os caiff ei golli, ni fydd y plentyn byth yn cael y cyfle hwnnw eto gyda'i addysg. Clywsom am oedi cyn cael diagnosis, gan gynnwys aros am saith mlynedd i gael diagnosis o ASA ar gyfer un plentyn, a thair blynedd ar gyfer plentyn arall.

**56.** Cafodd materion gyda'r dalgylchoedd ar gyfer Dechrau'n Deg eu codi. Roedd un rhiant yn credu pe bai ganddo fynediad at ddarpariaeth Dechrau'n Deg, y byddai ei blentyn wedi cael diagnosis cynharach. (Tynnwyd sylw hefyd at system fynediad ar sail cod post Dechrau'n Deg, gyda phobl yn disgrifio sut y gall darpariaeth Dechrau'n Deg ddod i ben hanner ffordd drwy lwybr.) Dywedodd pobl nad yw'r hyn sydd efallai'n gwneud synnwyr ar fap yn gwneud synnwyr mewn bywyd go iawn.

## Darpariaeth cofleidiol a gwyliau

**57.** Soniwyd wrthym am ddiffyg darpariaeth clybiau gwyliau a chofleidiol priodol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Clywsom am sut y mae plant yn cael eu troi i ffwrdd o glybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol oherwydd eu hanableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Tynnwyd sylw at yr effaith ar rieni a'u gallu i weithio, neu ofalu am aelodau eraill o'u teulu. Dywedodd un rhiant ei fod yn gallu gweithio yn ystod y tymor yn unig, a soniodd rhai eraill am orfod rhoi'r gorau i weithio yn gyfan gwbl. Dywedodd un person ei fod yn garcharor gartref oherwydd nad yw'n gallu gadael ei dŷ oherwydd anghenion ei blentyn.

**58.** Tynnwyd sylw at yr adroddiad diweddar gan Contact yn edrych ar ddarpariaeth clybiau gwyliau i blant anabl. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU ac awdurdodau lleol i sicrhau bod o leiaf 15 y cant o'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy gynlluniau gwyliau a bwyd y llywodraeth yn benodol ar gyfer pobl ifanc anabl. Galwodd rhieni hefyd am i ganran o'r holl gyllid ar gyfer chwarae, chwaraeon a diwylliant gael ei dargedu at blant a phobl ifanc anabl. Roedden nhw hefyd eisiau gweld cosbau os na fyddai hyn yn digwydd.

**59.** Clywsom mai un o'r rhwystrau i ddarpariaeth gwyliau yw'r ffaith bod angen mwy o staff i ddarparu'r lefel gywir o gymorth, ac nad yw'n hawdd recriwtio i swyddi o'r fath dros dro.

**60.** Clywsom fod teuluoedd yn ddibynnol ar wasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, a chanolfannau fel Sparkle. Codwyd pryderon ynghylch lefel y cyllid sydd gan y grwpiau hyn, tra'r oedd galwadau clir am ehangu'r ddarpariaeth. Galwodd teuluoedd am i blant a phobl ifanc anabl gael eu cynnwys yn fwy yn y ddarpariaeth. Roeddent hefyd yn galw am fwy o ddarpariaeth gan awdurdodau lleol.

**61.** Cafodd digonolrwydd y ddarpariaeth pan oedd ar gael ei grybwyll, gydag un person yn tynnu sylw at y ffaith er bod rhywbeth yn cael ei nodi o fod yn 'gynhwysol' nad yw hynny'n golygu ei fod mewn gwirionedd.

# 4. Effeithiau darpariaeth anghyfartal

**62.** Thema glir iawn ymhlith pawb a siaradodd oedd eu bod yn brwydro'n barhaus i gael y cymorth sydd ei angen ar eu plant a phobl ifanc. Dywedodd un rhiant y bu'n rhaid iddo frwydro drwy'r amser a'i fod bellach yn colli'r ewyllys i frwydro yn ei frwydr ddiweddaraf i sicrhau cyllid ar gyfer teithio i ddysgwyr.

**63.** Roedd y straen emosiynol a achosir gan hyn yn amlwg. Dywedodd un person ei fod yn gwybod am nifer o bobl sydd wedi ceisio lladd eu hunain oherwydd straen a gorbryder. Disgrifiodd eraill sut y bu'n rhaid iddynt ddechrau cymryd cyffuriau gwrth-iselder. Fe ddywedon nhw hefyd fod y straen emosiynol yma wedyn yn cael effaith ar eu plant. Dywedodd un person ifanc ar ddiwedd y sesiwn nad oedd wedi sylweddoli hyd heddiw yr effaith yr oedd yr heriau o ran sicrhau ei addysg yn ei chael ar ei riant.

**64.** Clywsom am achosion lle y rhoddwyd gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am deuluoedd (gweler hefyd paragraff 15). Dywedodd un y cafodd ei riportio am fod ei blentyn wedi bod yn dreisgar yn yr ysgol, a oedd yn ganlyniad uniongyrchol i anghenion dysgu ychwanegol y plentyn. Dywedodd nad yw ysgolion yn diwallu anghenion addysgol neu gymdeithasol ei blentyn. Mae teuluoedd yn aml yn gorfod delio â'r un ymddygiad heriol nad yw

ysgolion yn gwybod sut i ddelio ag ef. Mae hyn wedyn yn cael effaith sylweddol ar y teulu cyfan. Roeddent yn teimlo pan y mae gwasanaethau cymdeithasol yn beio rhieni mai'r system addysg sydd ar fai.

**65.** Clywsom dermau fel 'dibwyllo' tra bod eraill yn dweud bod beio rhiant yn 'digwydd yn aml'. Dywedodd pobl fod yr atgyfeiriadau hyn at wasanaethau cymdeithasol mor niweidiol. Soniodd un am brifathro yn cyhuddo teulu o aflonyddu ac yna fe gawsant eu riportio i'r heddlu.

**66.** Clywsom dro ar ôl tro am yr effaith ehangach y gall mynediad anghyfartal ei chael ar deulu, mae llawer wedi gorfod naill ai lleihau eu horiau gwaith, newid swyddi, neu roi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl. Soniodd un rhiant am bwysigrwydd gweithio, nid yn unig er mwyn cynyddu incwm yr aelwyd, ond hefyd ar gyfer ei llesiant meddyliol ei hun.

Eitem 8.7

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant – grŵp trafod

15 Medi

## 1. Y cefndir

**1.** Roedd y sesiwn hon yn dilyn trafodaeth gyda rhieni fel rhan o ymweliad y Pwyllgor ag Ysgol Bryn Derw ym mis Gorffennaf 2023. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i drafod materion yn ymwneud â gofal plant yn fwy manwl gyda rhieni, gan gynnwys y rhai â phrofiad o sefydlu darpariaeth gofal plant.

**2.** Nodwn y gallai mwy o rieni fod wedi dymuno bod yn bresennol ond eu bod yn methu oherwydd cyfrifoldebau gofal plant. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd eraill a allai ddymuno cyfrannu at waith ein Pwyllgor mewn ffyrdd eraill ond yn methu gwneud hynny oherwydd diffyg amser, neu oherwydd

**3.** Daeth chwech o bobl i'r sesiwn. Roedd Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor, yn bresennol gyda Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor (cofnodwr). Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a ddaeth i rannu eu profiadau. Siaradodd pawb â gwir angerdd am eu plant a'u profiadau.

## 2. Oak Hill ASD Childcare

**4.** Oak Hill ASD Childcare yw'r unig ddarpariaeth gofal plant penodol i ASD yn ystod gwyliau ysgol yng Nghasnewydd. Fe'i sefydlwyd ar ôl i'r ysgol ofyn i'r llywodraethwyr a oeddent am

sefydlu darpariaeth gofal plant. Darpariaeth gofleidiol oedd hon i ddechrau, ond dywedodd rhieni bod gofal yn ystod gwyliau yn fater pwysicach. Roedd hyn oherwydd nad oes cludiant i'r ysgol ar gael ar gyfer darpariaeth gofleidiol, ac mae cadw at drefn yn fwy heriol yn ystod y gwyliau.

**5.** Sefydlwyd Oak Hill ASD Childcare yn 2020, gyda'r cynllun peilot yn rhedeg ym mis Hydref 2020. Aeth hyn yn dda iawn, ac roedd ei angen yn arbennig yn sgil cyfyngiadau'r pandemig, a olygodd y bu plant gartref gryn dipyn. Dilynwyd hyn gyda mwy o ddarpariaeth yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2021. Yna cafodd ei redeg yn haf 2021. Fodd bynnag, roedd ariannu a rhedeg y gwasanaeth yn 'frwydr barhaus'. Roedd yn amlwg nad oedd ei redeg yn wirfoddol yn unig yn gynaliadwy, felly penderfynwyd canolbwyntio ar ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r haf gan mai dyma oedd ei angen fwyaf. Yna cafodd ei redeg ar gyfer gwyliau haf 2022, ond gan nad oedd modd recriwtio rheolwr, camodd un o'r ymddiriedolwyr (a oedd â'r sgiliau a'r profiad iawn) i'r adwy.

**6.** Yn dilyn darpariaeth haf 2022, cytunwyd bod angen rheolwr blwyddyn gyfan oherwydd ei bod yn rhy anodd recriwtio rhywun ar gyfer gwyliau'r haf yn unig. Gallai'r rheolwr wedyn fod yn cynnal asesiadau drwy gydol y flwyddyn hefyd, a byddai'n deall pa gymorth sydd angen i'r ddarpariaeth ei gynnig. (Roedd person gwahanol wedi cynnal asesiadau yn y gorffennol.) Mae'n bwysig bod rheolwr y cynllun yn asesu'r plentyn yn yr ysgol ac yn y cartref i sicrhau y gall y ddarpariaeth fodloni ei anghenion. Mae'n bwysig nad yw rhagdybiaethau'n cael eu gwneud am anghenion unigol plentyn.

**7.** Hyd yn oed gyda swydd llawn amser, bu'n anodd recriwtio oherwydd gofynion AGC ar gyfer deiliad swydd o'r fath. Rhaid bod gan ddeiliad y swydd gymwysterau gweithiwr chwarae, profiad o reoli lleoliad gofal plant a dealltwriaeth o ADY.

**8.** Tynnwyd sylw at yr heriau o ran recriwtio staff, yn rhannol oherwydd ei fod yn waith dros dro, felly dim ond rhai mathau o bobl sy'n ymgeisio. Mae hyn, ynghyd â'r gofynion i fod â chymhwyster gwaith chwarae, yn gwneud pethau'n heriol. Hefyd oherwydd natur dros dro y gwaith, ni allant ddarparu prentisiaethau na chael mynediad at gyrsiau am ddim i ennill cymwysterau i ddarpar staff. Myfyrwyr yw'r staff yn aml, sy'n aml â phrofiadau personol neu gysylltiad ag awtistiaeth. Fodd bynnag, gall rhai staff synnu at lefel yr anghenion cymorth, er enghraifft gorfod newid cewyn person ifanc yn ei arddegau.

**9.** Mae AGC wedi rhoi esemptiad fel nad oes rhaid i bob aelod o staff fod â chymhwyster gweithiwr chwarae. Heb yr esemptiad ysgrifenedig hwn, byddai wedi gallu agor yn haf 2022. Fodd bynnag, rhaid bod gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr y cymhwyster hwn.

**10.** Maent wedi'u trwyddedu ar gyfer hyd at 16 o blant a phobl ifanc. Daw'r rhan fwyaf o'r plant o Ysgol Bryn Derw, ac mae ganddynt anghenion cymhleth. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd rhwng 6 ac 8 o blant a phobl ifanc ym mhob sesiwn ar gyfartaledd. Nid oedd yn llawn oherwydd nad oedd modd recriwtio digon o weithwyr cymorth, ac oherwydd y pandemig. Yn 2021, roedd 10 o blant a phobl ifanc yn bresennol. Llwyddodd i recriwtio myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd, ond wedyn nid oedd digon o le ffisegol ar gyfer mwy o blant a phobl ifanc. Ers hynny mae'r ysgol wedi darparu mwy o le.

**11.** Tra bod y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yn rhedeg hyd at 11 oed, mae Oak Hill yn darparu lleoedd i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 oed. Mae'r ystod ehangach hon o oedrannau yn arwain at heriau ychwanegol. Yn ogystal â bod yn gorfforol wahanol i'r plant iau, mae gan bobl ifanc yn eu harddegau ddiddordebau gwahanol. Er enghraifft, efallai y bydd plant hŷn eisiau chwarae gyda Lego, ond gallai hyn fod yn berygl tagu i blant iau. Fodd bynnag, bydd cael mwy o le yn galluogi Oak Hill i gynyddu capasiti

**12.** Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae ganddi restr aros. Ar wahân i'r materion recriwtio, mae heriau ariannu hefyd. Mae'n costio rhwng £40,000 a £50,000 ar gyfer darpariaeth gwyliau'r haf. Daw'r holl gyllid o grantiau. Er enghraifft, mae wedi cael arian gan y Grant Plant a Chymunedau, ond cronfa fach yw hon i gwmpasu Casnewydd gyfan, ac mae llawer o'r arian yn cael ei ddefnyddio gan blant mewn lleoliadau prif ffrwd. Maent hefyd wedi cael arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer swydd rheolwr llawn amser.

**13.** Er bod rhieni'n talu fel y byddent mewn lleoliad prif ffrwd, nid yw'r ffioedd yn talu costau cymorth 1:2:1, 2:2:1 na hyd yn oed 3:2:1. Darparu gofal diogel o ansawdd uchel yw'r ethos bob amser. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi caniatáu i rai rhieni ddefnyddio'u taliadau uniongyrchol i dalu'r costau, ond nid yw hyn yn cael ei hysbysebu'n eang. Mae taliadau uniongyrchol yn achosi straen yn eu hunain ac anodd i rieni/gofalwyr eu gweinyddu a'u defnyddio.

# 3. Profiadau teuluoedd

## Gofal plant

**14.** Clywsom am yr heriau dros haf 2023 oherwydd nad oedd Oak Hill ar gael. Dywedodd un rhiant y cynigiwyd pedair sesiwn tair awr dros yr haf cyfan. Dim ond ar 17 Gorffennaf y cynigiwyd dyddiadau ar gyfer y gofal plant hwn. Wrth gwestiynu'r dyddiadau a gynigiwyd dywedwyd wrthynt 'hen dro, nid gofal seibiant yw hwn, chwarae yw hyn, nid gofal plant'. Roeddent yn cymharu hyn â'r dewisiadau a'r argaeledd ar gyfer plentyn nad yw'n anabl.

Roeddent yn dweud bod plant a phobl ifanc anabl yn cael 'dim dewis'. Roedd pobl yn dweud na allant ddewis ble i fynd i gael gofal plant a'u bod ond yn gallu cymryd y ddarpariaeth gyfyngedig sydd ar gael.

**15.** Dywedodd un rhiant fod y gwyliau ysgol yn rhy hir i blant mewn lleoliadau arbenigol, gan am edrych ar hyd y gwyliau ar gyfer y garfan hon o blant a phobl ifanc. Roeddent yn dweud bod eu hanghenion yn wahanol iawn i'r rhai mewn lleoliadau prif ffrwd, ac felly y dylid cael gwyliau gwahanol.

**16.** Galwodd rhieni am ddarpariaeth fwy hyblyg yn ystod y gwyliau, gan gynnwys mynd y tu hwnt i 12 oed. Disgrifiodd un rhiant eu plentyn a allai fynd i ddarpariaeth prif ffrwd, ond 'na fydd yn cael y cyfle'.

**17.** Mae gofal plant hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr amser i'w dreulio gyda'u plant eraill a'u teuluoedd.

**18.** Galwodd pobl am gysylltiad agosach rhwng addysg a gofal plant, tra'n dweud nad yw creu'r cysylltiadau agosach hyn yn golygu bod angen i ofal plant ddod yn addysg. Clywsom fod ysgolion am gadw llinell glir rhwng ysgol a gofal plant. Amlygwyd bod darpariaeth gofal plant yn cael ei rheoleiddio'n fwy llym na darpariaeth ysgol, gan nodi bod modd cyflogi cynorthwyydd addysgu mewn lleoliad ysgol heb unrhyw gymwysterau, ac eto mae'n rhaid cael cymwysterau penodol ar gyfer swydd debyg ym maes gofal plant. Clywsom am yr angen am ddull mwy cyfunol rhwng addysg a gofal plant.

**19.** Awgrymwyd y gallai adeiladau ysgol gwag fod yn gyfle i gynnig darpariaeth mewn mannau a fyddai'n gyfarwydd i blant a phobl ifanc. Hyd yn oed pe na baent ar gael ar gyfer gofal plant, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r lleoedd hyn yn hygyrch i deuluoedd dros yr haf.

**20.** Fodd bynnag, dywedodd un o ymddiriedolwyr Oak Hill fod yn rhaid talu rhent i'r ysgol o hyd. Ceir costau sylweddol o hyd, sef pam y mae'n rhedeg fel elusen, gan na fyddai'n hyfyw yn ariannol fel busnes. Byddai'n hoffi cynnig darpariaeth dros y gwyliau haf cyfan, ond nid yw hyn yn ymarferol.

**21.** Mynegodd pobl bryderon nad yw hyfforddiant a chymwysterau, fel y cymhwyster gwaith chwarae, yn cwmpasu sut mae plant ag ADY yn chwarae, sydd yn aml yn dra gwahanol i'w cyfoedion heb ADY. Roeddent yn awgrymu bod angen cwrs chwarae anghenion cymhleth, a fyddai'n cwmpasu gwahanol ffyrdd o chwarae, sbardunau, a dad-ddwysáu. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng rôl cynorthwyydd addysgu mewn lleoliad prif ffrwd o gymharu ag un mewn lleoliad arbenigol, gan ddweud bod hyn yn 'fyd gwahanol'. Roeddent yn galw am hyfforddiant sy'n addas i'r lleoliad.

**22.** Dywedodd un o rieni/ymddiriedolwyr Oak Hill na ddylai fod yn gyfrifoldeb ar elusen a gwirfoddolwyr i redeg darpariaeth o'r fath. Dywedodd fod y ddarpariaeth yn wych, ond eu bod yn methu mynd â phethau i'r lefel nesaf. Dywedodd mai peth arbennig o ddigalon yw bod y plant na allant eu cymryd yn Oak Hill yw'r plant sydd eisoes wedi cael eu troi i ffwrdd o leoliadau prif ffrwd. Gofynnodd nhw i ble maen nhw'n mynd, os na all hyd yn oed lleoliadau arbenigol eu cymryd.

**23.** Roedd yn sôn am sut nad yw'r plant hyn yn cael eu gweld, ond yn aml fel rhiant yn 'gwthio'i hun i fynd allan' i wneud yn siŵr bod eu plant yn cael eu gweld. Soniodd rhieni eraill am sut y bydd yn rhaid iddynt feddwl yn ofalus am ble y gallant fynd i fannau cyhoeddus fel parciau gyda'u plant, gan orfod mynd yn gynnar iawn yn y bore yn aml. Roedd yn disgrifio'u bod yn 'rhan gudd o gymdeithas'.

**24.** Roedd awgrymiadau eraill a allai helpu i wella argaeledd gofal plant yn cynnwys galluogi cynorthwywyr addysgu i gael eu cyflogi yn yr haf i weithio mewn darpariaeth gofal plant. Nodwyd nad yw cynorthwywyr addysgu yn cael eu talu dros wyliau'r haf, felly gallai hyn fod yn incwm ychwanegol defnyddiol.

**25.** Cafwyd trafodaeth hefyd am y disgwyliadau sy'n cael eu rhoi ar staff. Nodwyd bod swyddi o'r fath yn aml yn rhai isafswm cyflog neu gyflog byw, ond eto'n gorfod darparu lefel uchel o ofal. Roeddent yn dweud, er bod pobl yn ymwybodol o'r materion hyn yn achos gofal pobl hŷn, fod yr un materion yn gyffredin i blant a phobl ifanc ac yn llai hysbys.

**26.** Disgrifiodd un rhiant y dull a ddefnyddir yn Awstralia, lle mae rhieni'n talu am eu darpariaeth gofal plant, ond gyda chymhorthdal ar raddfa symudol yn dibynnu ar faint rydych chi'n ei ennill. Roedd hefyd yn nodi bod plant ag AAA yn Awstralia yn cael cymorth unigol.

## Darpariaeth ysgol

**27.** Er gwaethaf yr heriau o ran sicrhau diagnosis, mae nifer y plant sy'n cael diagnosis wedi cynyddu, ond ar yr un pryd, fwyfwy, nid yw lleoliadau prif ffrwd yn cymryd y plant hyn.

**28.** Mynegodd pobl bryderon diogelu am y diffyg cyswllt pan fydd eu plentyn yn aros gartref. Roeddent yn dweud, os nad yw eu plentyn yn mynd i'r ysgol, nad oes unrhyw un yn cadw golwg arnynt, nac yn darparu cymorth tra eu bod i ffwrdd o'r ysgol. Dywedodd un person fod yr ysgol yn cymryd y cyllid ar ei gyfer, ond bod neb wedi bod mewn cysylltiad.

**29.** Clywsom fod angen i ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig ystyried anghenion plant unigol. Dywedodd un rhiant y gall cyflwyno'r Gymraeg fod yn heriol i blant sydd eisoes ag anawsterau iaith.

**30.** Dywedodd un rhiant ei bod yn bwysig cydnabod bod magu ac addysgu plant sydd â'r mathau hyn o anableddau a chyflyrau yn wahanol, a bod angen newidiadau i sicrhau bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y system addysg a'r cymorth ehangach.

## Cymorth gan wasanaethau statudol

**31.** Rhannodd rhieni eu profiadau ehangach. Dywedwyd wrthym nad yw teuluoedd yn aml yn gwybod pa gymorth y mae ganddynt hawl iddo, ac nad ydynt yn gwybod beth y gallant ofyn amdano. Roeddent yn dweud nad yw'r cyngor a'r gwaith papur a gewch yn nodi gwybodaeth glir am y cymorth y mae modd ei gael. Nid oes gan bob teulu weithiwr cymdeithasol, a gall fod yn anodd cael cymorth o'r fath. Dywedodd pobl fod teuluoedd yn cwympo'n ddarnau oherwydd diffyg cymorth, ac mai 'lwc pur' yw pwy sy'n cael cymorth. Mae hyd yn oed y rhai sy'n cael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol yn credu bod y cymorth yn gallu bod yn dameidiog ac yn amrywiol. Disgrifiodd un person weithiwr cymdeithasol gan ddweud ei fod yn 'anablu ei blentyn drwy honni' bod angen cymorth gwaith cymdeithasol. Dywedwyd wrthym bod 'neb yn gwneud dim byd' a bod teuluoedd yn 'methu ennill'.

**32.** Disgrifiodd pobl 'feini prawf dirgel' heb unrhyw sail resymegol glir dros y penderfyniadau a wneir. Clywsom ei bod yn aneglur sut y gellid gwneud penderfyniadau pan nad oedd asesiadau llawn wedi'u cynnal, na thrafodaethau manwl wedi'u cynnal gyda'r plentyn/person ifanc a'i deulu.

**33.** Disgrifiwyd yr heriau o ran cael mynediad at gymorth megis gofal seibiant dros nos. Dywedodd un person ei fod yn adnabod teulu a brynodd garafán er mwyn i'r rhieni gael rhywle i gysgu, ac yn benodol er mwyn sicrhau y gallai'r rhieni gadw cyflogaeth.

**34.** Dywedwyd wrthym fod swm y gwaith papur y mae'n rhaid ei gwblhau yn flinedig ac yn boenus. Mae natur y ffurflenni yn aml yn golygu bod yn rhaid i deuluoedd siarad am eu plant mewn termau negyddol iawn. Clywsom y byddai gostyngiad yn lefelau biwrocratiaeth yn helpu i ryddhau teuluoedd i dreulio mwy o amser yn cefnogi eu plentyn. Roeddent yn galw am symleiddio a cydgysylltu gwell rhwng gwahanol wasanaethau. Mae angen symleiddio prosesau, ac ni ddylai teuluoedd orfod erfyn am y pethau sylfaenol y mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn anabl yn eu cael yn awtomatig. Clywsom hefyd fod angen i awdurdodau lleol fod yn fwy agored i adborth.

## Effeithiau ar y teulu ehangach

**35.** Roedd thema gref iawn ynghylch yr effeithiau ar sefyllfa ariannol y cartref, yn ogystal â'r effeithiau emosiynol a llesiant ehangach yn sgil rhieni a gofalwyr yn methu gweithio. Dywedodd

pobl eu bod wedi clywed y dylent roi'r gorau i weithio i ofalu am eu plentyn, ac eto nid yw'r system yn helpu i gefnogi teuluoedd yn ariannol i wneud hyn. Disgrifiodd un rhiant fod diffyg dealltwriaeth neu gymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i weitio'n rhan amser.

**36.** Disgrifiodd un rhiant sut y bu'n rhaid gadael gyrfa ar ôl geni plentyn a'i bod wedi methu gweithio ers hynny. Yn ogystal â cholli ei gyrfa, mae hefyd wedi colli ei phensiwn yn y dyfodol. Roedd ei gŵr hefyd wedi colli ei swydd. Dywedodd, 'gofal plant, beth yw hynny?', gan egluro pan oedd wedi ceisio dod o hyd i ofal plant, byddai gwarchodwyr plant yn fodlon helpu ond yn methu fforddio cymryd ei phlentyn oherwydd bod angen cymorth unigol pwrpasol. Dywedwyd wrthym, unwaith y bydd plentyn wedi derbyn diagnosis cymhleth 'mae popeth yn cael ei stripio'n ôl'. Disgrifiodd rhiant arall hefyd orfod rhoi'r gorau i gwaith a gyrfa.

**37.** Dywedodd rhieni wrthym am yr effeithiau ariannol ac emosiynol ehangach ar eu teuluoedd oherwydd diffyg cymorth. Dywedwyd wrthym fod pedwar o bob pum rhiant plant anabl yn ysgaru, a bod hyn wedyn yn cael effaith feddyliol negyddol ar blant. Mae rhoi'r gorau i weithio hefyd yn cael effaith ehangach ar riant a'r teulu, yn enwedig o ran llesiant meddyliol. Dywedodd un rhiant 'rwy'n hoffi fy swydd, mae'n rhoi hoe i mi'. Dywedodd rhiant arall, o ganlyniad i orfod rhoi'r gorau i weithio, nad oes ganddo bensiwn bellach, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r wladwriaeth ei gefnogi am fwy o amser. Dywedodd ei bod yn llawer gwell cael gofal plant a chymorth hygyrch fel y gall rhieni fynd yn ôl i weithio, sy'n arbed arian i'r wladwriaeth yn y tymor hwy.

**38.** Dywedodd fod pwyslais gan Lywodraeth Cymru i leihau tlodi, a thlodi plant. Fodd bynnag, dywedodd fod tlodi yn mynd y tu hwnt i dlodi ariannol, ond hefyd tlodi o ran ansawdd bywyd. Dywedodd nad oes gan lawer o deuluoedd unrhyw ansawdd bywyd. Mae teuluoedd yn ei chael yn anodd gyda'r gwyliau ysgol hir. Os ydynt yn gweithio, ni allant gymryd chwe wythnos i ffwrdd o'r gwaith, ac mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael trafferth gyda diffyg trefn a pharhad. Dyna'n union pam y sefydlwyd Oak Hill.

**39.** Soniodd rhieni am y 'profiad gwahanol iawn' o fod â phlentyn ag ADY. Roeddent yn dweud nad oes 'hoe fach am baned, a dim seibiant'. Roedd yn disgrifio sut y mae'n rhaid iddynt ddarparu cymorth 24 awr y dydd. Dywedodd un rhiant bod hyn 'fel cael babi, ond un mawr iawn!'

**40.** Clywsom am enghreifftiau lle mae plant yn yr ysgol yn cael cymorth 2:2:1 neu 3:2:1, ond mae disgwyl i deuluoedd ddarparu'r cymorth hwn gartref ar eu pen eu hunain. Gall hyn fod yn arbennig o heriol mewn aelwydydd un rhiant. Roeddent yn dweud, os bydd cydnabyddiaeth bod angen mwy o gymorth yn yr ysgol, pam nad yw hyn yn trosi'n fwy o gymorth gartref. Dywedwyd wrthym fod 'teuluoedd yn cael eu torri'.

**41.** Er bod hyn y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad, codwyd materion yn ymwneud â dewisiadau ôl-16. Clywsom nad oedd dim byd lleol ar gyfer un person ifanc, a'i bod yn debygol y bydd yn rhaid iddo fynd i ffwrdd.

## Materion eraill

**42.** Roedd rhwystredigaeth amlwg nad oedd neb y tu allan i'r teuluoedd yn poeni am eu plant, na'r hyn sy'n digwydd iddynt. Clywsom fod y rhain yn blant a phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed. Hyd yn oed yn yr achosion hynny pan fo plant a phobl ifanc yn lleisio'u barn, nid oes unrhyw beth yn digwydd o ganlyniad. Dywedodd un rhiant wrthym am sefyllfa bryderus iawn lle'r oedd eu plentyn yn ceisio dangos drwy ei ymddygiad nad oedd yn ymddiried gweithiwr proffesiynol, ond na chymerwyd y mater o ddifrif oherwydd ei fod yn methu lleisio hyn.

**43.** Roedd yn siarad am gamsyniadau ynghylch sut y bydd plentyn neu berson ifanc awtistig yn ymddwyn, neu'n ymddangos. Gall hyn fod gyda gweithwyr proffesiynol a hefyd y cyhoedd ehangach.

**44.** Clywsom hefyd am faterion ehangach ynghylch y diffyg cymorth i'r plant hyn. Disgrifiodd un person faterion yn ymwneud â chael cymorth meddygol addas i'w blentyn, gan ddweud na fyddai wedi bod mor anodd pe bai ei blentyn wedi bod yn niwronodweddiadol. Bu'n rhaid bygwth gwneud cwyn er mwyn cael cymorth priodol.

**45.** Clywsom hefyd am ddiffyg mannau chwarae hygyrch a chynhwysol. Soniodd rhieni am sut mai canolfannau chwarae meddal, trampolinau a pharciau awyr agored yn aml yw'r lleoedd y mae eu plant yn dymuno mynd iddynt pan ofynnir iddynt. Ond mae'r sesiynau hygyrch ar gyfer y lleoedd hyn, os cânt eu cynnal, yn aml yn digwydd yn rhy gynnar neu'n hwyr yn y dydd. Wrth iddynt fynd yn hŷn, daw'r opsiynau hyn yn fwy cul gan nad yw'r cyfleusterau hyn yn addas. Nid yw hyd yn oed mannau fel Sparkle yn diwallu anghenion plant hŷn.

**46.** Wrth gloi, dywedodd un rhiant yn rymus ei fod wedi 'gwneud popeth roedd cymdeithas eisiau i mi ei wneud, ac fe gafodd popeth ei gymryd i ffwrdd. Nid bai fy mhlentyn yw hyn; '[ef/hi] yw cannwyll fy llygad. Mae pawb arall yn ceisio ein chwalu'.

Eitem 8.8

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

23 Tachwedd 2023

**Cyflogadwyedd**

Annwyl Vaughan

Yn ystod eich datganiad diweddar yn y Cyfarfod Llawn: Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, tynnais sylw at rai o'r heriau i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol o ran sicrhau a chynnal cyflogaeth â thâl. Mae hyn wedi dod i'n sylw trwy ein hymchwiliad: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Rydym wedi clywed tystiolaeth bersonol bwerus gan deuluoedd am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar eu teuluoedd yn fwy eang, nid yn unig o ran incwm yr aelwyd ond hefyd yr effaith ehangach ar lesiant a all ddeillio o gyflogaeth ac rwyf yn rhannu'r rheini isod.

Diolch ichi am eich ymateb cadarnhaol i'm cwestiwn yn ystod y datganiad hwn, pan ofynnais pa gamau oedd yn cael eu cymryd fel rhan o'r cynllun cyflogadwyedd a sgiliau i sicrhau y gall y rhieni a'r gofalwyr hyn naill ai barhau mewn cyflogaeth neu, sicrhau cyflogaeth. Croesewais y wybodaeth a roesoch am y cymorth posibl i'r rhieni a'r gofalwyr hyn a ddarperir drwy Cymunedau am Waith+ a ReAct+.

Er bod y Cynllun yn cynnwys camau gweithredu ynghylch ehangu'r cynnig gofal plant, rydym wedi clywed, hyd yn oed i'r rhieni / gofalwyr hynny sy'n gymwys ar hyn o bryd (a llawer o'r rhieni / gofalwyr hyn nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd), ni allant sicrhau gofal plant priodol, cynhwysol, c maen nhw felly yn methu â manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. (Ar nodyn ar wahân, rydym hefyd wedi clywed gan ddarparwyr gofal plant nad yw'r Cynnig Gofal Plant yn talu costau darparu cymorth ychwanegol sydd ei angen ar rai plant.)

A fyddech cystal ag amlinellu sut y gall y camau gweithredu yn y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau gefnogi gallu rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl i sicrhau a chynnal cyflogaeth, a pha waith, os o gwbl, a fydd yn cael ei wneud yn y maes hwn?

Lansiwyd ein hymchwiliad yn gynharach eleni. Mae cwmpas yr ymchwiliad yn cynnwys yr holl ddarpariaeth gofal plant ac ysgol statudol rhwng 0 ac 16 oed, ac mae'n cwmpasu niwroamrywiaeth; anableddau corfforol, synhwyraidd a / neu ddysgu.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffaith bod effaith diffyg addysg a gofal plant cynhwysol ar allu rhiant/gofalwr i weithio wedi dod i'r amlwg yn naturiol o'r dystiolaeth, ac nad oedd yn rhan benodol o'n cylch gorchwyl. Mae'n bosibl, felly, pe bai hyn wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, y byddem wedi casglu mwy fyth o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod hyn wedi dod yn thema glir drwy'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn fater mawr i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ochr yn ochr â'n tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ffurfiol, rydym wedi bod yn siarad â theuluoedd yn fwy anffurfiol, drwy ymweliadau ag ysgolion anghenion addysgol arbennig, ac â Chanolfan Serennu yng Nghasnewydd ac ASD Rainbows yn Aberpennar. At hynny, rydym wedi bod yn cyflwyno enghreifftiau o'n gwaith achos fel Aelodau unigol o'r Senedd.

Mae ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi cynnal dros 40 o gyfweliadau teuluol yn cwmpasu 20 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Er ein bod yn dal i gwblhau crynodeb y gwaith hwn, gallwn rannu rhai o'r straeon perthnasol â chi. Rydym wedi bod yn clywed tystiolaeth bwerus iawn gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o'r effaith y mae mynediad anghyfartal at addysg a gofal plant yn ei chael ar bob agwedd ar eu bywydau, a'r effeithiau tymor hwy y gall y mynediad anghyfartal hwn eu cael. Rwyf wedi cynnwys rhai enghreifftiau yn yr atodiad. Gobeithiwn y gellir defnyddio'r rhain i ddatblygu cymorth pellach i helpu pobl i sicrhau a chynnal cyflogaeth.

Rydym yn pryderu y bydd llawer o'r teuluoedd rydym wedi siarad â hwy yn wynebu cyfuniad o'r holl faterion hyn. Rydym hefyd yn hynod ymwybodol bod ein gwaith casglu tystiolaeth wedi ein galluogi i gymryd "cipolwg" yn unig o dystiolaeth, ac y bydd teuluoedd sy'n cael profiad o faterion eraill nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Gwnaethom hefyd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, i helpu i lywio eu gwaith diweddar yn edrych ar Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cadeirydd hefyd.

Yn sgil natur drawsbynciol y materion hyn, rwyf hefyd wedi cynnwys y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (bydd pob un ohonynt yn rhoi tystiolaeth inni ar yr ymchwiliad hwn ar 29 Tachwedd 2023.)

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 4 Ionawr 2024.

Diolch eto am ystyried y mater pwysig hwn.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1 Tystiolaeth yn sgil casglu gwybodaeth gan y Pwyllgor

## Rhwystrau sy'n atal rhieni a gofalwyr rhag gweithio

Mae gennym nifer o dystiolaethau personol gan deuluoedd sydd naill ai'n methu gweithio o gwbl neu sy'n methu gweithio nifer yr oriau yr hoffent weithio oherwydd na allant gael mynediad at y gofal plant iawn. Mae'r mater hwn yn parhau i lawer o deuluoedd wrth i'r plentyn fynd yn hŷn a mynd i'r ysgol.

### Cael mynediad at ofal plant cynhwysol

Clywsom dystiolaeth bwerus gan riant a oedd yn gweithio ym maes nyrsio pediatrig sydd, ar hyn o bryd, ar seibiant gyrfa o swydd y mae'n hoff iawn ohoni oherwydd nad yw wedi gallu sicrhau gofal plant priodol. Pan ddaeth o hyd i ofal plant ymhen amser, nid oedd yn gallu cynyddu'r oriau, er ei fod yn barod i dalu am hyn ei hun. Mae'r rhiant yn parhau i fethu gweithio oherwydd nad yw bellach yn gallu sicrhau darpariaeth gofleidiol o ddarpariaeth feithrin yr ysgol.[1]

Dyfynnodd Mudiad Meithrin riant sengl a oedd "wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith oherwydd nad oedd cyllid ar gael i'w phlentyn ag anghenion dwys i fynychu gofal cofleidiol ar safle'r ysgol erbyn hyn". Dywedodd y rhiant yma ei bod yn haws pan oedd ei merch yn iau ond nad yw'n gallu gweithio nawr oherwydd nad oes gofal plant addas na rhywle sy'n cynnig gofal cofleidiol ar gyfer ei hysgol. Mae'r rhiant wedi sôn bod colli gwaith yn "ergyd ddwbl" oherwydd yr effeithiau ariannol ac iechyd meddwl.[2]

Gellir cael problemau hyd yn oed pan fo gofal plant yn cael ei sicrhau. Soniodd un rhiant am sicrhau lle gofal plant. Roedd nifer o sesiynau ymgartrefu llwyddiannus, ond y diwrnod cyn i'r gofal plant ddechrau, dywedodd y darparwr wrtho nad oedd yn gallu cefnogi'r plentyn. Dywedodd y rhiant ei bod yn ffodus bod ei chyflogwr yn gefnogol ond tynnodd sylw at effeithiau ymarferol ac emosiynol colli lleoliad gofal plant y diwrnod cyn y disgwyliwyd iddo ddechrau.[3]

Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at yr effaith y gall materion staffio i ddarparwyr gofal plant ei chael ar allu darparu gofal plant rheolaidd a chynaliadwy. Dywedodd fod rhieni wedi dweud wrtho mai staffio,

[1] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn gan Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023
[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin
[3] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn gan Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

yn aml, oedd y rheswm nad oedd eu plant yn gallu mynd mor rheolaidd â phlant eraill, ac y bydd yr anghysondeb hwn "yn achosi problemau i rieni/gofalwyr sy'n gweithio…"[4]

Soniodd un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol nad oedd gofal plant yn gweithio i'w deulu:

> *"… dw i'n cael trafferth ffeindio lle sy'n gallu delio â'i anghenion […] does dim llawer o lefydd sy'n gallu gwneud hynny […]nes i roi cynnig ar ofal plant ac roedd e yno ddwywaith ac o'n nhw ddim yn gallu gwneud iddo fe weithio, o'n i'n gorfod cadw pigo fe lan."*[5]

Rydym wedi clywed am yr ymdrech i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith, a'r pwysau y mae hyn yn eu rhoi ar deuluoedd. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei fab sy'n gymwys i gael 12 awr o addysg blynyddoedd cynnar yn cael 5 awr yn unig, a bod ganddo hawl i 17 awr o ran gofal plant ond nad yw'n cael dim:

> *"I am left doing a full time job on 5 hours childcare a week. …is missing out on the early years foundation phase he's entitled to. He spends large parts of his days unstimulated in front of screens as I have no other way of keeping him occupied so he doesn't cause disturbance while I take work calls, many of which are of a sensitive nature. I work with victims of domestic violence and modern day slavery.*
>
> *As a full time working parent I am reaching crisis point. I have no family members who can care for… I cannot use a childminder as… is impulsive around roads and runs very fast and there is a high risk he would run Into a road and a childminder be unable to catch him. I own my own home with a mortgage. I cannot stop work as won't be entitled to benefits."*[6]

At hynny, cododd rhanddeiliaid bryderon am ddarpariaeth gofal plant cynhwysol gyfyngedig. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y canlynol:

> *"Our members are concerned that private nurseries are difficult for children with special education needs and disabilities (SEND) to access to enable parents to go to work. They suggest there is inequitable access to funding for the additional support or equipment necessary to include children with additional needs in settings across Wales - some areas will fund equipment/support while others will not."*[7]

---

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

[5] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 04, Unigolyn

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Ond tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw at y ffaith bod teuluoedd yn aml yn gorfod gwneud iawn am y diffyg cyllid:

> *"If a child needs additional adult support or resources to attend childcare, this can often be limited, for example, if a local authority scheme only offers 5 hours one to one support a week but the child needs to attend for 15 hours to enable the parent to work how is this shortfall managed."*[8]

Dywedodd Oxfam Cymru fod gofal plant yn parhau i fod yn un o'r prif resymau y mae menywod yn economaidd anweithgar. Dywedodd nad yw 25.5 y cant o fenywod economaidd anweithgar yn gweithio oherwydd cyfrifoldebau teuluol a gofal cartref.[9]

## Cael mynediad at ddarpariaeth ysgol gynhwysol

Hyd yn oed pan fydd plant yn cyrraedd yr oedran i gael mynediad at ddarpariaeth ysgol statudol, mae teuluoedd yn canfod bod yn rhaid iddynt fod ar gael drwy'r dydd, sy'n golygu bod gwaith yn amhosibl yn aml.

Soniodd un a ymatebodd i'n hymgynghoriad am y brwydrau parhaus y mae'n eu cael wrth gael mynediad at addysg i'w fab sydd â niwed i'r ymennydd yn dilyn tiwmor ar yr ymennydd.

> *"He is in ....primary has one to one support for 7.5 hours a week!!!!! There have been horrendous behavioural issues in school to the point..... stays in school 20-30 mins unsupervised then has to be collected. The only way.... remains in school currently is if myself or my son go in with him, stay with him, supervise him, try to teach him and ultimately take responsibility for him.*
>
> *"I was working but had to give up my job as what employer will let you leave after 20 minutes on a repeated basis. Childcare options for children with needs are very limited, I'm a single parent with no local family support and am ex husband who is very intermittent in his commitment to my son."*[10]

Dywedodd rhiant arall wrthym fod ei blentyn yn aml yn cael ei "chicio allan o'r ysgol" oherwydd na all y staff ymdopi, ac y cysylltir ag ef dro ar ôl tro i ddod i'w chodi. O ganlyniad, mae'n amhosibl i'r rhiant weithio, gan nad yw'n gwybod pryd y bydd yr ysgol yn ei alw.[11] I riant arall, mae'r amserlen lai y mae ei blentyn yn ei dilyn yn golygu'r canlynol:

---

[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53, Blynyddoedd Cynnar Cymru

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 12, Unigolyn

[11] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*"Dw i wedi gorfod rhoi'r gorau i waith – dw i'n cael fy nosbarthu fel gofalwr, os oedd opsiynau ar gael i fi, byddwn i wedi achub arnyn nhw, o'n i wrth fy modd yn gweithio ond roedd yr amserlen lai'n gwneud pethau'n gyfyngol iawn. Nawr mae'n rhaid i ni oroesi ar fudd-daliadau."*

Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n fodlon i'w blentyn ddilyn amserlen lai pe bai "gofal cofleidiol" yn cyd-fynd â hi pan na fydd yn dysgu ond y bydd dan ofal yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi'r rhiant i achub ar gyfleoedd gwaith.[12]

Tynnodd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sylw hefyd at yr effaith y gall amserlenni llai neu waharddiadau ei chael ar allu teulu i weithio:

*"But we know that where pupils are regularly excluded, actually, parents are far more likely to only be able to work part time because they know that they've got to keep picking them up, and I think SNAP alluded to that—that parents were being disciplined in work. So, an exclusion for a child, apart from them missing out on so much socialisation, let alone education, really has an impact on the whole family and the parents as well."*[13]

Gofynnwyd i un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol a yw'n gallu gweithio dan oriau ysgol presennol y plentyn, gan ddweud "fyddai neb eisiau fi am ryw ddwy awr y dydd, neb."[14]

Dyfynnodd Oxfam Cymru riant a ddywedodd y canlynol:

*"If you have a disabled child, it is impossible to work full-time. Childcare for disabled children is next to non-existent. School holidays are impossible. They don't even get the same amount of time in school as non-disabled children. Her school day is 30 minutes shorter every day; she has 2.5 hours less schooling per week than her non-disabled sibling! We have to use hours meant to be for respite to cover the gap between school finishing (early because she doesn't get a full school day - why??) and work finishing. Disability discrimination at its finest."*[15]

Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan hefyd wrthym am y ffactorau gofal eraill a allai effeithio ar allu rhiant/gofalwr i weithio:

*"... That lack of specialised support—and this is extensive, because that specialised support could be tube feeding, it could be toilet changes, it could be sensorial needs, it could be specialised autism support—the lack of that means that the parent is going to have to have*

[12] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[13] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

[14] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

*an impact on their own life and employment, having to come and pick up the child early, being reprimanded both from the school and their job, but also it's watching your child struggle through years of education and having to make the decision of, 'Am I going to watch my child struggle or am I going to put my well-being in second place, my job, my interests, my life, and stay at home and home school my child?'"*[16]

Rydym hefyd yn clywed enghreifftiau o deuluoedd sy'n teimlo mai addysg yn y cartref yw'r unig ddewis i'w plant:

*"I've always had to homeschool my child. The schools around where we live wouldn't take them and the nearest school was so far away logistically it wouldn't make sense, we would have spent all day travelling back and forth and with my child's disabilities, that wouldn't be possible." Ceredigion"*[17]

## Mynediad at ofal plant ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau

Mae problemau sylweddol hefyd gyda theuluoedd yn gallu sicrhau darpariaeth gynhwysol mewn clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae rhieni a gofalwyr wedi sôn mai dim ond swyddi sy'n cynnig gweithio yn ystod y tymor y gallant eu gwneud, neu orfod rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl. Efallai yr hoffech fod yn ymwybodol o'r adroddiad gan Contact ar ddarpariaeth clybiau yn ystod y gwyliau i blant anabl.

Rhoddodd Adele Rose-Morgan, sy'n ymgyrchydd addysg gynhwysol, dystiolaeth ar ran Anabledd Dysgu Cymru a soniodd am geisio cael mynediad at ofal plant i'w mab:

*"On childcare, we eventually moved him to a unit for deaf children, because we found out late that he was deaf, and there was a breakfast club there. He could only go there with support, and the support came from a fund outside of education. And at one time, the funding criteria changed, and my husband's wage had gone up a little bit, so it was outside the criteria. So, the headmistress called me in and said, 'Look, you're no longer entitled to this but we will pay it'—out of the parental contributions that they used to collect. I just couldn't do that, so I used to just pay for the breakfast club. I used to give £10. It was one day a week, just so he had that social inclusion. I also refused a taxi. I insisted on taking him, and I was able to do it. He was my youngest, and we were able to have a second car, so it worked. He started and finished at different times. That posed a problem because the private childcare within the school didn't start their session until 10 minutes after he'd finished, and they weren't sure, because he would need one to one, whether it would cost a*

[16] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

*lot more. I applied for a job and I couldn't pursue that because I couldn't work out the childcare around that."*[18]

Dywedodd rhiant sy'n aelod o Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe:

> *"My child is now 12. He still needs childcare. At the same age I was able to leave his sister for short periods of time. He cannot access holiday schemes, childminders as he would need 1:1 care and the cost makes this inaccessible and he is too old for private nurseries. Breakfast clubs and after school clubs are not an option because the school cannot afford to cover 1:1 and still run these. I can't work as a result"*[19]

Yn ôl rhiant, wedyn, a fynegodd farn trwy holiadur a ddosbarthwyd gan Sparkle:

> *"My daughter only attended primary school part time in reception as the LA only provided funding for 16 hours 1:1 support and school refused to allow her to attend outside of the hours she had 1:1 funding. Roedd hyn yn golygu nad oeddwn yn gallu gweithio gan mai dim ond tan amser cinio bob dydd yr oedd hi'n mynychu."*

### Effeithiau ar deuluoedd

Fel y gwelwch o'r enghreifftiau uchod, mae rhieni'n gorfod rhoi'r gorau i swyddi/yrfaoedd er mwyn gofalu am blant. Mewn rhai achosion oherwydd y cyfrifoldebau gofalu ar draws y teulu, mae'r ddau riant/ofalwr wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio. Gall straen ymdopi â'r pwysau hyn arwain at chwalu teuluoedd a fydd yn cael effaith ar incwm yr aelwyd.[20] Dywedwyd wrthym fod pedair priodas o bob pump â phlentyn anabl yn methu.[21] Dywedodd Sparkle fod perthnasoedd yn aml yn chwalu oherwydd na all rhieni dreulio amser o ansawdd gyda'i gilydd na rhannu profiadau oherwydd eu bod yn aml yn 'llongau sy'n mynd heibio yn y nos' yn colli ei gilydd oherwydd y bydd un rhiant yn gweithio pan fydd y llall gartref, oherwydd na allant weithio ar yr un pryd oherwydd diffyg gofal plant.[22]

Soniodd un ymatebwr am yr effaith benodol ar ei deulu:

> *"....Because of his needs I was not able to find any childcare for him at all. This meant his father had to give up work to care for him and this eventually helped contribute to the breakdown of our nuclear family as financial pressures were building. The rate of divorce in*

[18] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 122

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe

[20] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn gan Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

[21] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nodyn o ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

*families with a child with disabilities is far higher than the average population because of the isolation from society and lack of support that other parents can access."*[23]

Yn y gwaith ymchwil y mae wedi'i wneud, mae Sparkle wedi tynnu sylw at y canlynol:

> *"Parents talk of finding jobs that fit around their family commitments, rather than jobs they are qualified for or would enjoy. Many parents work at supermarkets because they can work around school hours or late in the evenings when another parent is home. These are specific employment restrictions and considerations that families with typically developing children may not face."*[24]

Bydd heriau sicrhau cyflogaeth sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn llawer mwy o broblem yn y tymor hir i'r teuluoedd hyn:

> *"Another parent commented that when someone has a child with a disability their expectations surrounding parenting have to change; most parents expect that when their child is around 12/13 years old, they'll be able to spend an hour home alone after school, meaning the parent can work typical '9-5' hours. However, parents of children with disabilities are not able to do this due to their child's high support needs; they describe their child's lack of cognitive development as essentially meaning they care for a 12/13 year old toddler, and as they have no sense of danger they cannot be left alone for any time. Parents therefore have no choice but to be at home with their child if they cannot source appropriate childcare, limiting their employment options and the number of hours they can work."*[25]

Bydd hyn hefyd yn cael effaith ar allu rhieni/gofalwyr i weithio, ynghyd â'r costau ychwanegol a all ddeillio o addysgu yn y cartref.

### Effaith ar incwm aelwydydd yn y tymor hir

Yn ogystal â lleihau incwm yn y presennol, mae'r materion hyn yn arwain at effaith ar incwm yr aelwyd yn y tymor hir. Yn benodol, mewn perthynas ag incwm yr aelwyd yn gyffredinol, incwm pensiwn neu achosi cyfyngiadau ar allu teulu i brynu neu rentu cartref o'i ddewis mewn ardal o'i ddewis. Dywedodd un rhiant nad oedd wedi gallu gweithio ers 15 mlynedd oherwydd diffyg gofal plant priodol ac, o ganlyniad, nad oes ganddo bensiwn, sy'n arwain at yr angen am fwy o gymorth gan y wladwriaeth. Dywedodd pe bai wedi gallu cael mynediad at ofal plant, y byddai wedi gallu gweithio, gan leihau ei ddibyniaeth ar gymorth y wladwriaeth ac arbed arian i'r wladwriaeth.[26]

---

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31, Unigolyn

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[26] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn gan Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

Dywedwyd wrthym hefyd fod methu gweithio'n cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol - fel y dywedodd rhywun, 'mae'n newid eich dyfodol.'[27]

## Cadarnhau anfantais

Rydym yn ymwybodol bod teuluoedd â phlant anabl yn fwy tebygol o fod yn byw islaw'r ffin dlodi, ac y gall hyn wedyn greu rhwystrau ychwanegol iddynt gael mynediad at wasanaethau a chymorth cynhwysol sy'n diwallu anghenion y plentyn a'r teulu ehangach, gan gadarnhau anfantais ymhellach yn y tymor hwy.

Cododd sefydliadau fel Anabledd Cymru bryderon am yr effaith y mae plant anabl yn ei hwynebu sy'n gorfod byw gydag effaith eu hanabledd a'u tlodi, a'r hyn y gall hyn ei olygu ar gyfer deilliannau addysgol plant. Nodwyd gwahaniaethau rhwng nifer y bobl anabl sy'n gadael addysg heb gymwysterau a'r rhai nad ydynt yn anabl.[28]

> "I*t is well established that educational outcomes for disabled people differs to non-disabled people. In Wales, from June 2020-2021, 37.9% of non-disabled people's highest qualification was a degree or equivalent, compared to 21.5% of disabled people. In the most even statistics, 21.6% of non-disabled people's highest qualification was a A-level or equivalent, compared to 20.7% of disabled people. 18.8% of non-disabled people's highest qualification was GCSE grade C or above or equivalent, compared to 24% of disabled people. 9.4% of non-disabled people's highest qualification was another form of higher education, compared to 7.3% of disabled people. 5.9% of non-disabled people had no qualifications, compared to the significantly higher 16.4% of disabled people.*"[29]

Yn amlwg, gall deilliannau addysgol gael effaith gydol oes ar gyfleoedd unigolyn i ennill arian, fel bod hyn yn ongl arall y mae angen ei hystyried yn y Strategaeth Tlodi Plant. Mae angen meddwl yn ofalus hefyd am groestoriadedd y materion hyn a dylid mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw strategaeth wrth geisio lleihau tlodi plant.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gofal plant, galwodd Oxfam Cymru am hyn, yn enwedig ar gyfer darparu gofal plant a mynediad at addysg gynnar i blant o gefndiroedd ethnig gwahanol a phlant anabl. Dywedodd mai dim ond drwy gydnabod anghenion a heriau unigryw y plant hyn a mynd i'r afael â hwy y gellir sicrhau bod gofal plant ac addysg gynnar yn wirioneddol gynhwysol a theg.[30]

---

[27] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nodyn o ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[28] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-65

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09, Anabledd Cymru

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

21 Tachwedd 2023

**Teithio gan Ddysgwr**

Annwyl Lee,

Ar hyn o bryd, mae ein Pwyllgor wrthi'n ystyried a oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal i addysg a gofal plant. Mae hwn yn ddarn eang o waith, sy'n edrych ar bob agwedd ar addysg a gofal plant, o 0 i 16 oed. Fel y gallwch weld o'r cylch gorchwyl, mae'n cwmpasu anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu, a niwroamrywiaeth.

Ochr yn ochr â chlywed tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig ffurfiol, rydym hefyd wedi bod yn clywed yn uniongyrchol gan deuluoedd ledled Cymru am eu profiadau. Mae'r tystiolaethau personol hyn wedi bod yn rhai hynod bwerus. At hynny, maent wedi nodi ystod eang o faterion y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at addysg a gofal plant cynhwysol a hygyrch, ac effeithiau'r mynediad anghyfartal hwn. Byddwn yn archwilio llawer o'r materion hyn gyda'r Gweinidog Addysg, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol pan fyddant yn rhoi tystiolaeth inni ar 29 Tachwedd 2023.

Fodd bynnag, gan fod un o'r materion allweddol yn ymwneud â thrafnidiaeth, roeddem am fynd ar drywydd y materion hyn yn uniongyrchol gyda chi. Mae'r sylfaen dystiolaeth hon hefyd yn adeiladu ar dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad i absenoldeb disgyblion, a gwaith gan y Comisiynydd Plant, Plant yng Nghymru ac yn fwyaf diweddar, Senedd Ieuenctid Cymru.

## Y dystiolaeth a gasglwyd gennym

Rydym wedi clywed gan deuluoedd a rhanddeiliaid unigol sut mae diffyg teithio hygyrch, cynhwysol a fforddiadwy i ddysgwyr yn creu rhwystrau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd rhag cael mynediad i

addysg a gofal plant. At hynny, clywsom y gall trafnidiaeth dda i ddysgwyr helpu i feithrin annibyniaeth, a darparu man cymdeithasol y tu allan i'r ysgol a'r cartref i blant a phobl ifanc.[1]

Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan fod diffyg trafnidiaeth hygyrch yn effeithio ar y plant a'r teulu ehangach fel ei gilydd mewn ffordd nad ydynt, o reidrwydd, yn deall ei maint, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.[2]

Dywedodd un rhiant wrthym:

> *"I feel that money is placed above the welfare of the child in the scenario of transport."*[3]

Dywedodd Estyn wrthym eu bod, yn eu hadroddiad thematig diweddar yn edrych ar y system anghenion dysgu ychwanegol newydd, wedi nodi mai un o'r rhwystrau oedd yr "heriau wrth gludo plant a phobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth addysg a gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion." At hynny, gwnaethant amlygu nad yw plant ag anghenion ychwanegol yn aml yn gallu cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol oherwydd cyfyngiadau trafnidiaeth.[4] Codwyd y ddau fater hyn hefyd yn y trafodaethau a gawsom gyda theuluoedd.

Dywedodd rhiant sy'n rhan o Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe nad yw clybiau brecwast yn bosibl os yw plentyn yn defnyddio cludiant a rennir, oherwydd efallai na fydd y plant eraill y maent yn rhannu cludiant â nhw yn bresennol, a bod yr un peth yn wir am glybiau ar ôl ysgol.[5] Cawsom wybod gan UCAC am rwystr ychwanegol, sef y gall darpariaeth a gynigir y tu allan i oriau ysgol arwain at oblygiadau ariannol i ysgolion, gan mai'r ysgol ac nid yr awdurdod lleol sy'n gorfod ariannu unrhyw 'addasiadau rhesymol' a wneir ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol.[6] Dywedodd y Comisiynydd Plant fod y diffyg cludiant hwn ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol yn cynyddu arwahanrwydd plant ac yn llywio eu holl fywyd cymdeithasol y tu allan i'r ysgol i fod yn gyfan gwbl ar-lein. Dywedodd fod methu â chael mynediad i weithgareddau ar ôl ysgol yn cael effaith ar lesiant corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc.[7]

Mae trefnu cludiant, yn syml, i ddysgwyr yn y lle cyntaf yn gallu bod yn heriol. Fel y dywedodd un teulu:

---

[1] Nodyn o'r ymweliad ag ysgol 3 – 29 Mehefin 2023, paragraff 15 a Nodyn o'r ymweliad ysgol 1 – 29 Mehefin 2023, paragraff 19

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 272

[3] Ymgysylltu â Dinasyddion – nodiadau o gyfweliadau (heb eu cyhoeddi eto)

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 48, Estyn

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55, Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 67, UCAC

[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 46

*"At another provision like this we used to be offered two session for three hours a week. I had to travel such a distance to get there and back and by the time I had done this it wasn't worth coming home in between. I had hoped to spent some time with my daughter but in the end it just couldn't work because there is no time allowance for the travel. I was then eventually awarded transport."*[8]

I deulu arall, roedd materion ynghylch trafnidiaeth yn ffactor o ran eu penderfyniad i addysgu gartref:

*"I've always had to homeschool my child. The schools around where we live wouldn't take them and the nearest school was so far away logistically it wouldn't make sense, we would have spent all day travelling back and forth and with my child's disabilities, that wouldn't be possible.*[9]*"*

Yn achos teulu arall, wedyn, cafodd eu trafnidiaeth ei ddileu yn sgil y pandemig:

*"Because of the pandemic, the school transport was suspended, which means we had to take our child to school, which we could do whilst we were working from home, but the transport service didn't start again, even after lockdown was lifted and schools had reopened and were back to normal, until we threatened judicial review. It shouldn't be like this; my child has a right to access school."*[10]

Soniodd teuluoedd eraill am y frwydr i gael cludiant i'r ysgol fwyaf priodol i'w plentyn. Dywedodd un rhiant wrthym, ar ôl sicrhau lle mewn ysgol a oedd fwyaf addas ar gyfer plentyn awtistig i'r rhiant – ond nid yr ysgol agosaf – fod yr awdurdod lleol wedi gwrthod cludiant yn llwyr, er bod cyngor cyfreithiol yn dweud ei fod yn ddyledus i'r sawl o dan sylw, gan iddo gael ei enwi mewn datganiad. Gan na allai fforddio cyfreithiwr, roedd yn rhaid talu am gludiant, ac roedd hynny'n her.[11]

Clywsom gan eraill am ddiffyg cysondeb o ran gwneud penderfyniadau gan awdurdodau lleol. Mewn un ymweliad ysgol, cawsom wybod am achos gyda dau o blant yn byw yn yr un tŷ, ond dim ond un plentyn a gafodd gynnig cludiant.[12] Cododd eraill bryderon ynghylch diffyg eglurder o ran pwy sy'n gymwys ar gyfer darpariaeth teithio i ddysgwyr.[13]

Clywsom bryderon am ansawdd trafnidiaeth a hebryngwyr lle mae teithio gan ddysgwyr ar gael. Clywsom, er enghraifft ei bod yn bosibl fod gan yrwyr tacsi neu hebryngwyr wybodaeth gyfyngedig am sut i ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth. At hynny,

---

[8] Ymgysylltu â Dinasyddion – nodiadau o gyfweliadau (heb eu cyhoeddi eto)

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 08, Unigolyn

[12] Nodyn o'r ymweliad ag ysgol 3 – 29 Mehefin 2023, paragraff 15

[13] Nodyn – Grŵp Ffocws Sparkle, Medi 2023, paragraff 40

clywsom nad yw'r contractau trafnidiaeth i ddarparu teithio i ddysgwyr yn arbennig o ddeniadol, yn enwedig ar gyfer y contractau hynny ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.[14] Dywedodd rhieni wrthym am broblemau diogelu enfawr gyda chludiant, a chawsom wybod am achosion lle na chynhelir gwiriadau cefndir. Clywsom bryderon yn ogystal bod y broses gaffael yn caniatáu is-gontractio a all wanhau ansawdd y ddarpariaeth.[15]

Galwodd un rhiant am i bob hebryngydd a gyrrwr hefyd dderbyn hyfforddiant ADY/anabledd, ynghyd â hebryngwyr i gael eu hyfforddi mewn technegau cyfathrebu llwyr.[16] Tra gofynnodd rhieni eraill a oedd unrhyw ganllawiau ar recriwtio hebryngwyr tacsi, gan amlygu y gall diffyg hyfforddiant achosi niwed uniongyrchol i'r plentyn.[17]

Rhannodd un teulu eu henghreifftiau penodol am ddiffyg cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r hebryngwr:

> *"What I want to know when he comes off the bus and he's screaming I want to know what is wrong. For example, it stipulated that my child doesn't go into the school hall, however the other day they did sports day in the hall because they had bad weather and he was screaming coming off the bus. I looked in the communications book and I knew it'd say that he'd been in there. The escort didn't know. There is no communication and you are left to just guess what has happened. And there have been many instances like that."*[18]

Tra bod un arall wedi rhannu enghraifft o heriau pan fo plentyn yn gorfod rhannu cludiant gyda phlentyn arall sy'n ymosod yn gorfforol:

> *"Nothing was done, until one day the children came home hysterical because they had been hit and had their hair pulled out and I complained and said I didn't feel that they were safe. Transport always wants evidence, it's disgusting that they don't listen to what you say. I had to put my children in a taxi with this child until the other child was violent and until that point, nothing could be done."*[19]

Er bod darpariaeth ôl-16 y tu allan i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, rydym wedi cael tystiolaeth ar y mater hwn, ac yn enwedig materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Cawsom wybod gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth wrthym eu bod yn pryderu nad yw dysgwyr awtistig sy'n aml yn cael addysg bellach y tu hwnt i 19 oed yn cael eu gwasanaethu gan ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Amlygwyd anghysondebau ar draws gwahanol awdurdodau lleol, gyda rhai awdurdodau lleol yn darparu

---

[14] Nodyn o'r ymweliad ag ysgol 2 – 29 Mehefin 2023, paragraff 15

[15] Nodyn o'r ymweliad ag ysgol 2 – 29 Mehefin 2023, paragraffau 34-36

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33, Unigolyn

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 66, Joining the Dots Parent Carers

[18] Ymgysylltu â Dinasyddion – nodiadau o gyfweliadau (heb eu cyhoeddi eto)

[19] Ymgysylltu â Dinasyddion – nodiadau o gyfweliadau (heb eu cyhoeddi eto)

teithiau i ddysgwyr i golegau a chweched dosbarth yn ôl disgresiwn. Roeddent yn galw am ddod â hyn i gwmpas y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol.[20] Dywedodd Natspec fod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynd i coleg Addysg Bellach arbenigol yn wynebu anfantais oherwydd diffyg polisi cludiant addysg ôl-16 sy'n addas i'r diben.[21]

Roedd hyn hefyd yn adleisio rhai o'r profiadau a glywsom yn uniongyrchol gan rieni. Dywedodd un rhiant wrthym, pan ddechreuodd plentyn y rhiant o dan sylw mewn coleg addysg bellach, y dyfynnwyd cost o £178 yr wythnos am dacsi hygyrch, ac eto pe bai wedi byw mewn awdurdod lleol cyfagos, yr awdurdod lleol fyddai wedi talu'r gost hon. Pan godwyd hyn, dywedwyd wrth y rhiant na ddylai'r plentyn gael ei gofrestru yn y coleg pan oedd yn gwybod nad oedd ganddo unrhyw gludiant. Yn dilyn hynny, bu'n rhaid i'r rhiant newid patrymau gwaith er mwyn gallu mynd â'r plentyn i'r coleg, gyda'r tacsi yn codi'r plentyn. Mae hyn yn dal i gostio £88 yr wythnos. Dywedodd y person ifanc wrthym mai gwahaniaethu yn unig ydoedd, oherwydd ni all y person ifanc fynd ar fws.[22] Clywsom hefyd gan rieni eraill am faterion yn ymwneud â chludiant ôl-16, gydag un teulu yn gorfod mynd at y papurau a chael gwasanaeth cyfreithiwr.[23]

Beth yw eich barn ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym? A yw hyn yn adlewyrchu eich dealltwriaeth o'r materion ledled Cymru, a'r effaith y gall ei chael ar fynediad i addysg a gofal plant?

## Adroddiad Absenoldeb Disgyblion

Yn ein Hadroddiad Absenoldeb Disgyblion, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod penderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr yn cael eu llywio gan anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc. Gwnaethom ddweud y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu hariannu i ddarparu dull dysgwr yn gyntaf o deithio gan ddysgwyr. At hynny, gwnaethom ddweud y dylai'r adolygiad presennol o'r mesur teithio gan ddysgwyr fod yn radical wrth chwilio am atebion arloesol. Er ein bod yn falch o weld yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn mewn egwyddor, roedd y naratif yn fyr o ran sicrwydd y byddai ein hargymhelliad yn cael ei gyflawni yn y pen draw.

A allwch chi amlinellu safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar ein hargymhelliad?

## Deisebau

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 38, Natspec

[22] Nodyn – Grŵp Ffocws Sparkle, Medi 2023, paragraff 42

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 08, Unigolyn

At hynny, mae nifer o ddeisebau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Deisebau, sy'n gysylltiedig â'r materion hyn:

Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun

Wrth ymateb i'r ddeiseb gyntaf a restrir uchod, fe ddwedoch, yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr a ddaeth i ben yn 2022, bod gwaith pellach wedi dechrau ar yr adolygiad ehangach o'r mesur, ac y byddai canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o arfer da o ymchwil lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn llywio'r cyngor oedd i'w roi i chi i'w adolygu yn ystod yr haf.

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, a allwch chi roi gwybod beth sydd wedi digwydd ers i'r cyngor hwn gael ei gyflwyno i chi dros yr haf? Beth fydd y camau nesaf, a phryd y byddant yn arwain at newid ar lawr gwlad i ddysgwyr ledled Cymru? Er ein bod yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n ymwneud â theithio gan ddysgwyr a'r heriau ariannol parhaus a wynebir ar draws y sector cyhoeddus, credwn fod gwir angen cyflymdra a brys wrth ymdrin â'r mater pwysig hwn.

## Y Comisiynydd Plant

Fel y gwyddoch, mae'r Comisiynydd Plant wedi argymell dro ar ôl tro y dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc. Yn ei hadroddiad blynyddol mwyaf diweddar, galwodd y Comisiynydd ar i'r cynllun gweithredu tlodi plant "gynnwys ymrwymiad i beilot trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn y tymor Senedd hwn." Mae hyn yn adeiladu ar argymhellion tebyg a wnaed yn flaenorol gan y Comisiynydd.

Yn ei thystiolaeth i ymchwiliad presennol y Pwyllgor, dywedodd "nid yw plant anabl bob amser yn cael cludiant hygyrch a diogel at addysg" a oedd yn sicr yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a glywsom yn uniongyrchol gan rieni. At hynny, dywedodd, er ei bod yn falch bod yr adolygiad yn mynd rhagddo, ei bod wedi ei "siomi â'r cynnydd araf, sydd wedi bod yn wir am flynyddoedd lawer".[24] Dywedodd ei fod yn fater sy'n gwneud gwahaniaeth mor sylfaenol i blant a phobl ifanc.[25]

Byddem yn croesawu eich barn ar argymhelliad y Comisiynydd ar gyfer cynllun peilot trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn ystod tymor y Senedd hon.

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 01, Comisiynydd Plant Cymru

[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

## Plant yng Nghymru

Yn adroddiad canfyddiadau Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol 2023 Plant yng Nghymru, nodwyd costau trafnidiaeth ac argaeledd fel un o'r 5 mater sy'n ymwneud â thlodi pennaf. Roedd hyn yn wir mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Nododd yr adroddiad, wrth i deuluoedd gael trafferth gyda chostau cynyddol aelwydydd, eu bod yn lleihau nifer y dyddiau y mae eu plant yn mynd i'r ysgol, oherwydd na allant fforddio mynd â'u plant bum diwrnod yr wythnos. Wrth ymateb i'r arolwg, nododd ymarferwyr fod costau cludiant yn cyfateb yn uniongyrchol i'r cynnydd mewn ceisiadau am addysg hyblyg, neu mewn rhai achosion, addysgu gartref ar sail amser llawn. Mae hynny, yn ei dro, yn cael effeithiau ehangach ar blant, sy'n dod yn fwy ynysig, ac yn gallu bod ar ei hôl hi gyda gwaith ysgol. Dywedodd Plant yng Nghymru hefyd fod llai o bresenoldeb yn yr ysgol yn effeithio ar rieni, gyda chostau bwyd uwch, straen a phryder, a llai o bobl ar gael i weithio. Mae'r ymarferwyr yn galw am gludiant am ddim i bob dysgwr mewn addysg amser llawn; mwy o hygyrchedd ac argaeledd cludiant ysgol.[26]

Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru pwysau costau byw ar gostau trafnidiaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd?

## Senedd Ieuenctid Cymru

Yn yr adroddiad diweddar gan Bwyllgor Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru, Ffyrdd Gwyrdd, gwnaethant ddweud ei bod yn amlwg mai prisiau tocynnau yw un o'r materion mwyaf sy'n atal pobl ifanc rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Roeddent yn galw am gyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i'r rheini dan 25 oed, ynghyd â nifer o fesurau eraill i wella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy i blant a phobl ifanc.

Beth yw eich barn ar yr argymhellion a wnaed gan Senedd Ieuenctid Cymru?

## Pwysau ariannol ar awdurdodau lleol

Yn olaf, rydym yn ymwybodol – wrth i awdurdodau lleol ystyried eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod – y gallai fod risg i unrhyw ddarpariaeth teithio i ddysgwyr yn ôl disgresiwn, y maent yn ei darparu ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn ystyried yn ofalus unrhyw wasanaeth neu ddarpariaeth anstatudol.

Er enghraifft, gwyddom fod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ystyried adolygiad o'r ddarpariaeth teithio i ddysgwyr. Yn eu cyfarfod Cabinet ar 20 Tachwedd fe wnaethant ystyried adroddiad a edrychodd ar dri opsiwn:

[26] Plant yng Nghymru, Canfyddiadau'r Arolwg Blynyddol o Dlodi Plant a Theuluoedd 2023: Trafnidiaeth ysgol: Crynodeb

a. Status quo;

b. darparu cludiant prif ffrwd i ysgolion Cymraeg, Saesneg a Ffydd, cynradd ac uwchradd, yn ogystal â cholegau, yn unol â meini prawf pellter statudol;

c. cael gwared ar yr holl ddarpariaeth ddewisol.

Mae'r adroddiad yn amlinellu mai'r opsiwn a ffafrir yw opsiwn b, a fyddai'n arwain at arbedion o tua £2.5 miliwn flwyddyn. Byddai newidiadau o'r fath yn golygu nad yw tua 2,750 o ddisgyblion, bellach, yn cael mynediad i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. At hynny, mae'n datgan y byddai hyn yn golygu bod y Cyngor yn cwrdd â gofynion y Mesur, gyda 18 o'r 22 Cyngor yng Nghymru eisoes yn mabwysiadu'r gofynion pellter statudol.[27]

Er nad ydym yn gwneud sylwadau ar y manylion yn Rhondda Cynon Taf, rydym yn defnyddio hon fel astudiaeth achos i dynnu sylw at drafodaethau a allai fod yn digwydd mewn awdurdodau lleol eraill.

Yn amlwg, fel yr ydym wedi ei argymell yn flaenorol ac wedi'i ailadrodd yn y llythyr hwn, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn gallu gwneud penderfyniad dysgwr yn gyntaf ar deithio gan ddysgwyr, yn hytrach na chael eu hysgogi gan rheidrwydd ariannol. Rydym yn deall y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ond o'r farn bod teithio fforddiadwy a hygyrch gan ddysgwyr yn hanfodol i blant a phobl ifanc allu mynychu'r ysgol, a ffynnu yno.

I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn monitro newidiadau yn narpariaeth awdurdodau lleol o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol; a'r effaith y mae hynny wedyn yn ei chael ar ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr?

[27] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyfarfod y Cabinet, Eitem 4, adolygiad o bolisi trafnidiaeth y Cyngor o'r cartref i'r ysgol, 20 Tachwedd 2023

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ddarparu ymateb erbyn 3 Ionawr 2024.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Bwyllgor Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru; Pwyllgor Deisebau a Gweinidog y Gymraeg a Addysg.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Copi i: Jack Sargeant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Pwyllgor Hinsawdd a'r Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru

# Eitem 8.10

**Date**/Dyddiad: 14 November 2023
**Ask for**/Gofynnwch am:
**Telephone**/Rhif ffôn
**Your Ref**/Eich Cyf:
**My Ref**/Fy Nghyf: DRT/AMB/S23/40556
**e-mail**/e-bost chiefexecutive@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk

Jane Bryant MS
Chair
Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

seneddchildren@senedd.cymru

Dear Jane,

**WELSH GOVERNMENT (WG) FUNDING OF THE FAMILY DRUG AND ALCOHOL COURT (FDAC) PILOT**

Thank you for your correspondence in relation to the above.

The Cardiff and Vale of Glamorgan Family Drug and Alcohol Court pilot was funded by Welsh Government for a period of 2 years which concludes at the end of November 2023. As the programme for parents can last for approximately 20 weeks, it was necessary to ensure that all parents had the opportunity to complete the full programme within the timescales of the pilot and so the project stopped taking new referrals in June /July of this year.

Welsh Government also funded CASCADE to undertake a research evaluation of the pilot and the outcomes of that evaluation will be available in early 2024.

It is anticipated that the outcomes of the evaluation will help shape and inform the future planning of drug and alcohol services for parents going through the family courts within Wales.

Some confusion may have arisen regarding your impression that the funding of the pilot was withdrawn. Due to the time discrepancies between the end of the pilot and completion date of the CASCADE Evaluation report, Cardiff and Vale of Glamorgan local authorities requested that Welsh Government consider extending the FDAC pilot funding for a period of 1 year. This was to allow sufficient time to circulate, review and


**Correspondence is welcomed in Welsh or English**/Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

consider any learning from the Evaluation report prior to the cessation of the pilot and the disbanding of the team.
As this hadn't been factored into WG budget planning it was decided by WG that any extension to the pilot was not feasible within their current budget constraints and that any decisions regarding the future of FDACs in Wales should be informed by the evaluation.

Although no new referrals were accepted into the FDAC pilot from July 2023 (to ensure that all families were timetabled to conclude within the FDAC pilot timeframe) a small number of families may require an extension to the 'Trial for Change' stage of the programme and if this is agreed this date would surpass the pilot end date.

For these families a community intervention plan will be recommended with FDAC trained staff from the regional Integrated Family Support team continuing to support the family through the FDAC process.

I hope this clarifies the position in relation to the temporary nature of the funding of the FDAC pilot by WG, the necessity to conclude the programme in a safe way for families and the intention that any future plans in relation to FDACs in Wales will be informed by the research that has been commissioned by WG.

Yours Sincerely

Robert Thomas
**CHIEF EXECUTIVE**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

14 Tachwedd 2023
Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

## Cyllideb ddrafft 2024-25

Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i sôn am waith ymgysylltu’r Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb.  Ar 12 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor ei ddadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb arfaethedig, ac rwy’n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd.  Rwy’n ysgrifennu’n awr i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

### Ymgynghori a’r amserlen

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad cyn y gyllideb, ar ran pob Pwyllgor, sy'n cau ar 30 Tachwedd. Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

Gan y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad yr hydref ar 22 Tachwedd, mae’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi’r Gyllideb amlinellol ddrafft a’r gyllideb fanwl ddrafft gyda'i gilydd ar 19 Rhagfyr.  Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid y diwrnod wedyn, ar 20 Rhagfyr, ar gyfer sesiwn dystiolaeth gychwynnol.

### Ffocws y Gyllideb

Mae’r gyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar effaith yr argyfwng costau byw, chwyddiant a

thryloywder penderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru.  Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- yr agwedd tuag at wariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (caiff gwariant ataliol ei ddiffinio fel gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio ar ôl gadael yr UE ddod i ben.

Yn ogystal â hyn, nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau yn ystod y digwyddiadau i randdeiliaid a'r gwaith ymgysylltu a drefnwyd gan y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- yr angen i wasanaethau gydweithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol;
- yr angen i roi digon o adnoddau i lywodraeth leol fedru ymdrin â phwysau cynyddol
- yr angen i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg;
- yr angen i ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb;
- yr angen i roi'r gorau i ariannu'r sector gwirfoddol drwy drefniadau ad-hoc

- yr angen i ganolbwyntio ar wireddu potensial ynni gwyrdd Cymru.

Gobeitho y bydd ein gwaith ymgysylltu, a'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig, yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws wrth i chi graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388, seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl

Ifanc ac Addysg

Senedd Cymru

Trwy ebost

Dydd Iau 16 Tachwedd 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Testun: Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A Yw Cymru'n Decach? 2023**

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad carreg filltir ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn 2023. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyd-destun Cymreig ac yn cyd-fynd â'n hadroddiad ar Brydain yr ydym wedi'i osod yn Senedd y DU ac a gyhoeddwyd heddiw (16 Tachwedd). Yn benodol, hoffem dynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion sy'n

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

berthnasol i chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn dilyn ymlaen o’n hadroddiad olaf “A yw Cymru’n Decach?” yn 2018, mae’r Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru’n Decach 2023 yn defnyddio’r data cynhwysfawr a amlinellir yn ein Fframwaith Mesur i asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf ledled Cymru.

Yn gyffredinol, rydym wedi canfod bod heriau sylweddol wedi bod i gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys:

- effaith ddofn y pandemig COVID-19
- ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd
- y cyfnod o chwyddiant uchel yn ogystal ag effaith economaidd y rhyfel yn yr Wcrain

Mae'r digwyddiadau hyn wedi gwaethygu rhai anghydraddoldebau parhaus, hirdymor. Er enghraifft, mae’r data’n dangos, er bod mwy o bobl ifanc wedi bod yn adrodd am gyflyrau iechyd meddwl ers 2010, mae’r niferoedd wedi codi ymhellach yn ystod y pandemig ac yn parhau i fod yn uchel.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Mae'r digwyddiadau hyn hefyd wedi bod yn gatalydd ar gyfer tueddiadau newydd. Er enghraifft, mae'r cynnydd mewn gweithio gartref wedi bod o fudd i rieni, pobl hŷn a phobl anabl, a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan. Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at rai o'n canfyddiadau lle rydym wedi gweld y canlynol:

- Mae'r bwlch cyrhaeddiad addysg ar lefel cyfnod sylfaen rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl wedi ehangu ac mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl.
- Mae gostyngiad wedi bod yn y gyfran o droseddau treisio a gofnodwyd yn erbyn merched sy'n arwain at gyhuddiadau. Mae pobl ddu neu bobl ethnig gymysg yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn y flwyddyn ddiwethaf na grwpiau ethnig eraill.
- Mae bylchau data cydraddoldeb a hawliau dynol sylweddol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol ym mhob maes bywyd ac yn ychwanegol ar gyfer hil ym meysydd addysg drydyddol ac iechyd.
- Mae cyfran penodiadau cyhoeddus pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol ac fel prif weithredwyr mewn penodiadau cyhoeddus wedi codi.

Mae ein hadroddiad hefyd yn nodi argymhellion i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad cynyddol rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl a thangynrychiolaeth pobl anabl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ac yn eu cwblhau.
- Dylai Llywodraeth Cymru, heddluoedd ac aelodau eraill o Fwrdd Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru ddeall yn well wahaniaethau ethnig mewn profiadau o ymosodiadau rhywiol a sicrhau bod cyfraddau cyhuddo ar gyfer troseddau casineb, ymosodiadau rhywiol, a threisio yn briodol i'r lefelau a adroddir ac a gofnodwyd.
- Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus yn nodi sut y gallant ddeall materion yn well a llenwi bylchau tystiolaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol i ddiwallu anghenion eu cymunedau.
- Er mwyn cynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol ac i sicrhau bod data amrywiaeth yn cael ei gasglu, dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd alw ar lywodraeth y DU i gychwyn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, i drosglwyddo'r pwerau i wneud hynny, neu i ddeddfu ar gyfer trefniadau etholiadol y Senedd.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) gyhoeddi amcanion cydraddoldeb penodol a mesuradwy. Mae ein hargymhellion wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad yr amcanion hyn a helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon mewn ffordd sy'n strategol ac yn canolbwyntio ar yr heriau cydraddoldeb mwyaf arwyddocaol a nodir gan y data.

Byddwn yn eich annog i ystyried sut y gall ein canfyddiadau a’n hargymhellion lywio gwaith y Pwyllgor a chefnogi’r gwaith o graffu ar gamau gweithredu a chynnydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau.

Byddem yn awyddus i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn fanylach a byddem yn falch iawn o gynnig cyfarfod i chi pan fydd yn gyfleus i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission



Parch Ruth Coombs,
Pennaeth Cymru,
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
**Ffôn uniongyrchol:** 029 2044 7720

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner





Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Jane Bryant AS
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jane.bryant@senedd.cymru

17/11/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr**

Heddiw rwyf yn cyhoeddi adroddiad ymchwil i brofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Cyfrannodd dros 1,000 o bobl ifanc at yr ymchwil, sydd yn darparu dealltwriaeth werthfawr o'u barn a'u profiadau, gan gynnwys eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwynt eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Cyflwynir y prif ganfyddiadau isod ac atodir copi o'r adroddiad llawn er gwybodaeth i chi.

**Prif ganfyddiadau'r ymchwil:**

- Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaol.
- Mae cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg.
- Mae mwyafrif y dysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn dweud bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor pwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Mae’r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o’u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a’u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.
- Prif resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg oedd:
  - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
  - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
  - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg.

Daw’r adroddiad i’r casgliad y bydd angen ystyried yn ofalus sut mae cefnogi a chryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector addysg ôl-16, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu sgiliau iaith gweithlu’r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at ddatblygu ac ehangu addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio’r iaith mewn addysg a thu hwnt. Gobeithiwn felly gyfrannu at gyrraedd targedau strategaeth Cymraeg 2050.

Hyderwn y bydd yr adroddiad o ddiddordeb i chi a byddem yn croesawu cyfle i’w drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: SeneddPlant@senedd.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr

17 Tachwedd, 2023

## Cipolwg ar y prif ganfyddiadau

- Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaol.
- Mae cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg.
- Mae mwyafrif helaeth y dysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn nodi bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor pwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.
- Mae'r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.
- Prif resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd: y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt; nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg; fod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg, yn eu tyb hwy.

## Cyflwyniad

Mae gan y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl cwbl allweddol wrth sicrhau dilyniant ieithyddol i ddysgwyr. Dyma'r cyfnod sy'n pontio addysg statudol a'r byd gwaith, ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at y nod o greu siaradwyr Cymraeg tymor hir.

Bwriad yr ymchwil hwn oedd dysgu am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Y nod oedd darganfod beth oedd eu rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, eu barn am y ddarpariaeth a'u bwriad o safbwynt eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

## Sampl

Defnyddiwyd samplo pwrpasol er mwyn cael adborth gan bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau addysg bellach sydd yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Cysylltwyd ag ysgolion a

cholegau addysg bellach mewn trawstoriad o ardaloedd a holwyd y dysgwyr trwy holiadur ar lein ddechrau 2023. Ymatebodd 1063 o unigolion o 37 sefydliad addysg gwahanol, gan gynnwys pum coleg addysg bellach a 32 ysgol. Roedd 637 o'r ymatebwyr yn ddysgwyr Blwyddyn 12 neu 13 mewn ysgolion, a 426 yn mynychu colegau addysg bellach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu gallu yn y Gymraeg, ar raddfa pum pwynt, a gwelir eu hymateb yn Ffigur 1 isod.

Gan mai pwrpas yr holiadur oedd casglu barn a phrofiadau dysgwyr oedd yn debygol o dderbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r drafodaeth isod, mewn nifer o achosion, yn canolbwyntio ar ymateb y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn unig. Mae hyn hefyd yn caniatáu cymhariaeth decach rhwng canlyniadau dysgwyr ysgol a choleg.


**Ffigur 1:** Canfyddiad dysgwyr o'u gallu yn y Gymraeg

| | Cyfanswm | Ysgol | Coleg |
|---|---|---|---|
| Rwy'n rhugl yn y Gymraeg | 70% | 93% | 35% |
| Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg | 9% | 5% | 15% |
| Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg | 8% | 0% | 20% |
| Rwy'n gallu dweud ychydig o eiriau yn unig | 8% | 0% | 19% |
| Dydw i ddim yn gallu siarad Cymraeg | 4% | 0% | 10% |

## Cyfrwng iaith astudio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa bynciau roeddent yn eu hastudio, ac ym mha iaith roeddent yn astudio'r pynciau hynny.

**Ffigur 2:** Canran y pynciau y mae siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gyfrwng y Saesneg, neu yn ddwyieithog




O ystyried yr holl siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, gwelir eu bod yn astudio 61% o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. O gymharu dysgwyr ysgol a choleg â'i gilydd, fodd bynnag, gwelir bod gwahaniaeth mawr rhwng canran y pynciau yr oedd dysgwyr ysgol yn eu hastudio drwy

gyfrwng y Gymraeg (72%) a’r ganran yr oedd dysgwyr coleg yn eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg (4%). Roedd gwahaniaeth mawr hefyd rhwng y ddwy garfan o safbwynt canran y pynciau yr oeddent yn eu hastudio drwy gyfrwng y Saesneg. Roedd 33% o’r siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn astudio pob un o’u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn gyfystyr â 44% o’r dysgwyr ysgol ac 1% yn unig o’r dysgwyr coleg a ymatebodd i’r holiadur, sy’n wahaniaeth amlwg arall rhwng y ddwy garfan.

Ceir cyd-destun i’r canlyniadau uchod yn ystadegau Llywodraeth Cymru ar weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg ôl-16 yn ystod 2021–22.[1] Y flwyddyn honno roedd 15.2% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion, a 0.2% yn unig o weithgareddau sefydliadau addysg bellach, yn rhai cyfrwng Cymraeg. O gymharu gweithgareddau a labelwyd yn rhai dwyieithog, gwelwn mai 5.9% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion oedd yn y categori hwnnw a 3.7% o weithgareddau sefydliadau addysg bellach.

Gofynnodd yr holiadur i’r siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, nad oedd yn astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, am eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Daeth tri phrif ateb i’r amlwg.


**Ffigur 3:** Tri rheswm mwyaf cyffredin siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg



- Canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt
- Nid yw’r pwnc/pynciau ar gael yn Gymraeg
- Canfyddiad bod astudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg

Gofynnwyd i’r siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg a fyddai’n well ganddynt astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg, neu yn ddwyieithog.

**Ffigur 4:** Dewis cyfrwng iaith delfrydol siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg





[1] Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 19 i 30 Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU

Mae'r ffaith fod dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn nodi eu bod yn ffafrio addysg ddwyieithog yn codi cwestiynau pellach. Er enghraifft, beth yw ystyr addysg ddwyieithog i'r dysgwyr hynny? Gall addysg ddwyieithog amrywio yn sylweddol o safbwynt sut a phryd y defnyddir y ddwy iaith. Gall deilliannau'r addysg honno amrywio yn sylweddol hefyd, yng nghyd-destun cyrhaeddiad dysgwyr yn y ddwy iaith a'r dystiolaeth mai addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o sicrhau fod gan ddysgwyr sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bwysig ystyried y canlyniadau hyn yng nghyd-destun barn dysgwyr am bwysigrwydd y Gymraeg iddynt. Rhaid trin yr ystadegau hyn yn ofalus felly a gwneud ymchwil pellach gyda dysgwyr ôl-16 er mwyn darganfod beth yw ystyr addysg ddwyieithog iddynt.

## Rhesymau dros ddewis man astudio


**Ffigur 5:** Rhesymau mwyaf cyffredin dysgwyr dros ddewis eu man astudio




Mae'r ffigur uchod yn dangos rhai gwahaniaethau diddorol rhwng dysgwyr ysgol a cholegau addysg bellach, yng nghyd-destun eu rhesymau dros ddewis eu man astudio. Er enghraifft, mae iaith y dysgu yn ffactor a nodwyd gan bum gwaith mwy o ddysgwyr ysgol nag o ddysgwyr coleg. Gwelir hefyd fod y dewis neu amrywiaeth o bynciau yn ffactor a nodwyd gan dros hanner y dysgwyr coleg, o'i gymharu â thraean y dysgwyr ysgol.


Gofynnwyd i'r sampl pa mor bwysig oedd hi iddynt bod yr ysgol neu'r coleg a ddewiswyd ganddynt yn cynnig cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. I 65% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, roedd argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bwysig iawn neu'n bwysig wrth ddewis man astudio. Ymhlith y dysgwyr ysgol, roedd hyn yn wir am 73% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, o'i gymharu â'r ffigur cyfatebol o 41% ar gyfer dysgwyr colegau addysg bellach. Gwelir eu hymateb isod.

**Ffigur 6:** Pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg wrth ddewis man astudio




Gofynnwyd hefyd am bwysigrwydd cyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg a gwelir ymateb y dysgwyr isod.


**Ffigur 7:** Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg oedd yn nodi bod y materion isod yn bwysig iddynt wrth ddewis man astudio





## Profiadau a barn ynghylch addysg Gymraeg neu ddwyieithog

Gofynnwyd i'r dysgwyr ddisgrifio eu profiad o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, a gwelir eu hymateb isod.

**Ffigur 8:** Profiad siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn ysgolion






**Ffigur 9:** Profiad siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn colegau



Roedd 90% o siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rhai sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg oedd yn mynychu ysgolion yn dweud fod eu profiad yn dda neu yn dda iawn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer colegau addysg bellach oedd 80%. Ar gyfer dysgwyr ysgol a cholegau addysg bellach, y prif resymau dros nodi bod eu profiad yn dda neu yn dda iawn oedd athrawon da, cefnogaeth dda a bod yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardderchog.

**Ffigur 10:** Ysgolion a cholegau addysg bellach sy’n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, yn seiliedig ar ymarferiad mapio yn 2021




Gofynnodd yr holiadur i’r dysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â’r datganiad bod digon o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Roedd 60% yn cytuno neu yn cytuno’n gryf. Roedd cyfran yr ymatebion cadarnhaol yn amrywio yn ôl y rhanbarth lle roedd y dysgwyr yn astudio. Yng nghanolbarth Cymru roedd 78% o’r dysgwyr yn cytuno neu yn cytuno’n gryf gyda’r datganiad, a dylid nodi mai o orllewin y rhanbarth y daeth mwyafrif helaeth yr ymatebion. Yng ngogledd Cymru roedd 68% o’r dysgwyr yn cytuno neu yn cytuno’n gryf â’r datganiad. Yn ne-orllewin Cymru 57% oedd y gyfran ac yn ne-ddwyrain Cymru 47% o’r dysgwyr oedd yn cytuno neu yn cytuno’n gryf. Dengys y mapiau uchod leoliad yr ysgolion a’r colegau addysg bellach yng Nghymru sy’n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gwelir bod prinder amlwg darpariaeth ôl-16 mewn sawl ardal.

## Defnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol a gwelir eu hymateb isod.


**Ffigur 11:** Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn ysgolion a cholegau oedd yn cytuno neu yn cytuno'n gryf â'r datganiadau isod

| | Ysgol | Coleg |
|---|---|---|
| Rwy'n falch fy mod yn gallu siarad Cymraeg | 96% | 92% |
| Bydd gallu siarad Cymraeg yn fy helpu yn fy ngyrfa neu gyda fy rhagolygon swyddi | 87% | 80% |
| Rwy'n hyderus bod gennyf sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ngyrfa | 93% | 81% |
| Rwy'n hyderus y byddaf yn defnyddio'r Gymraeg yn fy ngyrfa | 60% | 58% |


Roedd mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac yn ystyried eu sgiliau iaith o fantais iddynt yng nghyd-destun eu rhagolygon gyrfaol. Roedd canran uchel ohonynt yn hyderus yn eu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gyrfaoedd ond, yn arwyddocaol, canran is oedd yn hyderus y byddent yn *defnyddio'r* sgiliau hynny. Mae hyn yn codi cwestiwn am ganfyddiad dysgwyr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn awgrymu bod angen trafod hynny a chodi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael eu man astudio presennol ac a oeddent yn bwriadu gwneud hynny yng Nghymru:

**Ffigur 12:** Bwriadau siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg o safbwynt parhau â'u haddysg ar ôl gadael eu man astudio presennol




**Ffigur 13:** Bwriadau siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, sy'n dymuno parhau â'u haddysg, o safbwynt aros yng Nghymru




Gwelir mai 40% yn unig o ddysgwyr ysgol a choleg sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg sy'n bwriadu aros yng Nghymru. Ceir cyd-destun i'r ffigur hwn yn ystadegau Llywodraeth Cymru ar lif trawsffiniol myfyrwyr yn 2020/21.[2] Dengys yr ystadegau hyn fod 62% o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig o Gymru wedi mynd i brifysgolion yng Nghymru, tra bod 37% wedi mynd i brifysgolion yn Lloegr. Yn yr un flwyddyn, aeth 95% o fyfyrwyr o Loegr i brifysgolion yn Lloegr ac aeth 95% o fyfyrwyr o'r Alban i brifysgolion yn yr Alban. Dengys hyn fod canran sylweddol o fyfyrwyr o Gymru yn gadael eu gwlad i astudio, o'i gymharu â sefyllfa myfyrwyr o Loegr a'r Alban.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, ac a ddywedodd eu bod yn bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, pa mor bwysig oedd gallu astudio yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn eu man astudio nesaf. Gwelir bod 79% o ddysgwyr ysgolion yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol. O'r 40% oedd yn bwriadu aros yng Nghymru, roedd 82% ohonynt, y mwyafrif helaeth, yn nodi bod gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn bwysig iawn neu'n bwysig iddynt. Roedd 58% o siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg mewn colegau addysg bellach yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gorffen eu cwrs. O'r 40% o'r dysgwyr rhain oedd yn bwriadu aros yng Nghymru, roedd 68% yn ystyried bod gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn bwysig iawn neu'n bwysig iddynt.

**Ffigur 14:** Barn siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ynghylch pwysigrwydd gallu parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn eu man astudio nesaf




[2] [Llif trawsffiniol myfyrwyr amser llawn yn ôl lefel astudio (llyw.cymru)]

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Prif ganfyddiadau ac ystyriaethau

## Pwysigrwydd y Gymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae'r **canlyniadau yn dangos yn glir iawn bwysigrwydd y Gymraeg i ddysgwyr yng Nghymru**. Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg yn falch eu bod yn gallu siarad yr iaith (Ffigur 11). Maent hefyd yn nodi fod cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd yr ysgol neu'r coleg a gyda'u ffrindiau (Ffigurau 6 a 7). Mae'r canfyddiadau hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun cynllunio darpariaeth ôl-orfodol yn y dyfodol.
- Cadarnhaol iawn hefyd oedd y neges glir gan fwyafrif y dysgwyr ledled Cymru fod eu **profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn un da neu dda iawn** (Ffigurau 8 a 9).

## Gwahaniaethau yn sefyllfa'r Gymraeg mewn ysgolion a cholegau

- Amlygodd yr ymchwil **wahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg**.
- Rhaid ystyried y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth yn y ddau fath o sefydliad wrth ddehongli'r canlyniadau uchod, a hefyd wrth **ddatblygu polisïau ym maes addysg ôl-orfodol yn y dyfodol.**

## Rhwystrau

- Mae angen ystyried ymhellach **resymau dysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.** Mae **diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg**, yn enwedig mewn meysydd mwy galwedigaethol, yn anhawster y mae angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael ag ef. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau fod **digon o staff â sgiliau Cymraeg i addysgu holl ystod pynciau'r** cyfnod addysgol hwn. Mae'n bwysig cydnabod fod strategaeth Cymraeg 2050[3] a'r *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*[4] â'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Fel mae Ffigur 3 yn ei awgrymu, mae **diffyg hyder dysgwyr yn eu sgiliau Cymraeg o'i gymharu â'u sgiliau Saesneg** yn fater i'w ystyried ymhellach yng nghyd-destun cyrhaeddiad ieithyddol dysgwyr o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Yn gysylltiedig â hynny mae canfyddiad rhai dysgwyr mai sgiliau Saesneg fydd fwyaf manteisiol iddynt ar gyfer astudiaethau pellach. Mae hyn yn amlygu angen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddefnyddio eu Cymraeg wrth iddynt barhau â'u haddysg, a manteision gwneud hynny. Mae hefyd yn tanlinellu'r hyn a ddangosodd yr ymatebion i'r holiadur, sef bod llai na hanner y dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn bwriadu aros yng Nghymru (Ffigur 13).

## Dwyieithrwydd

- Mae'r ffaith fod dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn nodi eu bod yn ffafrio addysg ddwyieithog yn codi cwestiynau pellach ynghylch beth **yn union a olygir gan addysg ddwyieithog** (Ffigur 4).

---
[3] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)
[4] tuagatcymraeg2050.pdf (colegcymraeg.ac.uk)

- Rhaid ystyried y materion uchod yng nghyd-destun **canfyddiad dysgwyr o bwysigrwydd y Gymraeg i'w gyrfaoedd ac i ba raddau mae gwahanol fodelau ieithyddol addysg yn debygol o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr yng Nghymru**. Fel y nodwyd uchod, gall deilliannau addysg ddwyieithog amrywio'n fawr yng nghyd-destun cyrhaeddiad dysgwyr yn y ddwy iaith, ac mae'n hysbys mai addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o arwain at sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid sicrhau bod cyrhaeddiad ieithyddol pob dysgwr yn cael cefnogaeth gref ac ymarferol ar bob cam o'i addysg, ac mae angen **cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 er mwyn cyflawni hynny.**

## Cefnogi cynnydd a dilyniant

- Dywed Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru y 'bydd angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o fanteision parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a phwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder'.[5] Bydd **cynyddu'r niferoedd sy'n astudio cymwysterau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol o addysg statudol i addysg bellach a'r byd gwaith.**
- Mae'n amlwg bod siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu sgiliau Cymraeg fel mantais iddynt yng nghyd-destun eu rhagolygon gyrfaol. Roedd canran uchel ohonynt yn hyderus yn eu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gyrfaoedd ond, yn arwyddocaol, **canran is oedd yn hyderus y byddent yn *defnyddio'r* sgiliau hynny** (Ffigur 11). Fel y trafodwyd uchod, mae hyn yn awgrymu fod angen trafod canfyddiad dysgwyr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Amlygodd yr ymatebion hefyd **bwysigrwydd parhad darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wrth i ddysgwyr symud ymlaen i astudiaethau pellach** (Ffigur 14). Mae'r canlyniadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, sydd yn un o flaenoriaethau strategol Comisiynydd y Gymraeg. Mae angen ystyried hefyd a fyddai darparu rhagor o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fodd o gynyddu'r niferoedd sy'n dewis parhau i astudio yng Nghymru a lleihau'r niferoedd o bobl ifanc sgilgar sy'n gadael y wlad.

## Cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y sector ôl-orfodol: edrych tua'r dyfodol

- Mae'r canlyniadau yn codi **cwestiynau arwyddocaol ynghylch sut mae cryfhau darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-orfodol a beth fydd cyfeiriad polisi cyhoeddus** yn y maes hwn. Mae'r cwestiynau hyn yn hynod amserol, o ystyried bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrthi yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.
- Cafwyd datblygiad pwysig yn 2017 pan gyhoeddwyd yr *Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, gan argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.[6] Yn dilyn hyn cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* yn 2019. Seiliwyd y cynllun ar y weledigaeth y dylid galluogi pob dysgwr i gynnal neu ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg. Mae'r cynllun yn gosod cyfrifoldebau clir ar nifer o bartneriaid dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â chwe maes strategol allweddol, gan gynnwys cynyddu capasiti staffio, gwella darpariaeth ac ehangu adnoddau. Mae'r Coleg wedi sefydlu

---

[5] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)
[6] adolygiad-o-weithgareddau'r-coleg-cymraeg-cenedlaethol-adroddiad-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen.pdf (llyw.cymru)

Bwrdd Strategol Ôl-16 sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr, a sicrheir bod lleisiau'r dysgwyr eu hunain hefyd yn cael eu clywed. Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu'n fawr ac mae angen cefnogi'r Coleg yn ei ymdrechion i sicrhau newidiadau pellgyrhaeddol yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ôl-16.

- Ar lefel gyffredinol, rhaid i'r sector addysg ôl-16 weithredu'n gadarnhaol i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg pobl ifanc Cymru, ar bob lefel hyfedredd. Er mwyn gwneud hyn bydd **rhaid mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau amlwg sy'n atal rhai dysgwyr rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg** a sicrhau bod cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o sefydliad addysg ôl-16.
- Yn ogystal â chryfhau darpariaeth yn y sector addysg bellach, mae angen hefyd ystyried yn ofalus sut mae cefnogi ac adeiladu ar y ddarpariaeth lle mae ar ei chryfaf ar hyn o bryd. Ym mwyafrif ardaloedd Cymru, **mewn ysgolion mae'r ddarpariaeth honno ar ei chryfaf, ac mae angen rhoi ystyriaeth genedlaethol i beth fydd rôl ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn nhirwedd addysg ôl-orfodol y dyfodol.** Dylai hyn gynnwys cynllunio a chydweithio ar lefel ranbarthol rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gael ac yn cael ei hyrwyddo er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'n hanfodol fod y cynllunio strategol hwn yn digwydd er budd y Gymraeg, ac yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth gref sy'n bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd.
- Yn olaf, mae angen ystyried y **negeseuon a gyflëir i ddysgwyr am werth a phwysigrwydd sgiliau Cymraeg** a sut i gefnogi dysgwyr i fanteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Fel rhan o hyn dylid sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddwyieithog a darpariaeth Gymraeg yn cefnogi cyrhaeddiad ieithyddol pob dysgwr yn drylwyr, ac mae'n hanfodol fod hyn yn cael **ei ystyried yng nghyd-destun datblygu sgiliau iaith gweithlu'r dyfodol.**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

comisiynyddygymraeg.cymru

welshlanguagecommissioner.wales

@ComyGymraeg

# Eitem 8.14

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jack Sergeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

20 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

**Deiseb P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref. Cafodd y llythyr ei nodi a'i drafod yn ein cyfarfod ar 25 Hydref.

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar ichi am ddod â'r ddeiseb hon i'n sylw. Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal ymchwiliad i fynediad cyfartal at ofal plant ac addysg i blant a phobl ifanc anabl ar hyn o bryd. Mae'r materion a godwyd gan y deisebydd wedi'u codi drwy gydol y gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Gwnaethom gytuno y dylid ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r ddeiseb fel rhan o'r dystiolaeth ehangach ar gyfer yr ymchwiliad.

Os yw'r deisebydd yn fodlon ichi rannu ei fanylion cyswllt â ni, gallwn roi gwybod iddo sut y gall gyflwyno rhagor o wybodaeth i helpu i lywio ein hymchwiliad.

Diolch i chi unwaith eto am ddod â'r ddeiseb hon i'n sylw.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant MS Chair
Paul Davies MS, Chair
Economy, Rural Affairs and Trade Committee

20 November 2023

Dear Jayne,

As requested by the Children, Young People and Education Committee, please see further information below on Post 16 Education and Skills, following the joint scrutiny session on 5th July.

**Drop off rates for apprenticeships -** *During the session, we asked about the decrease in people completing their apprenticeships, for which the competition rates dropped from 80.9% in 2018-2019 to 66.3% in 2021-22. During the session, the Minister for Economy said that the initial evidence indicates that cost of living pressures are one of the main factors for this decrease. He also indicated that this was an issue of concern, and that "we still want to understand how far, and is it more than the cost-of living crisis or not."*

Our response: The labour market has become more fluid for people in lower paid occupations such as those in social care, where individuals are finding it easier to find higher paid employment in sectors such as retail and hospitality. This might well be why we are seeing apprentices leave to go into employment elsewhere - leaving their employer for higher wages and better terms and conditions.

Careers Wales recently gave evidence to the Economy, Trade, and Rural Affairs Committee on cost of living pressures and the Young Person's Guarantee. It was their view that many young people are giving up apprenticeships to take paid employment elsewhere. Some young people are choosing to take on better paid roles with no training, perhaps without understanding the impact that has on them in the longer term.

*We are concerned that the target of creating 125,000 all-age apprenticeships may be affected by factors that are causing this increase in the drop off rate. We note that the timeline for this target has been extended by a year, but are concerned that the wider pressures for people to get into full time paid employment may affect the attractiveness of apprenticeships. The pressure to pay bills right now could over-ride the longer-term financial benefits of completing an apprenticeship.*

Our response: Overall, there are three unavoidable factors impacting on the target, including the lack of replacement EU funds, pay and inflationary pressures and increasing costs of frameworks for priority interventions supporting wider Welsh Government priorities. For context, ESF allocations supported around 5,000 apprentices per year.

These factors combined with the extremely challenging 2024-25 budget year situation are going to make our ambitions to achieve 125,000 new apprenticeships extremely difficult, however, we remain committed to delivering a high quality apprenticeship product which is valued by learners and employers. To support this, significant time has been spent enabling providers to plan their delivery. Officials have worked early with the provider network to plan 2023/24 delivery and expand eligibility to reach a wider learner base – while maintaining Minister's focus on quality provision

We will continue to raise awareness of the programme by promoting the benefits to both employers and learners via a range of marketing and communications activity throughout the year. The Apprenticeship Week and the Apprenticeship Awards Cymru provide us with further opportunities to raise the profile of the apprenticeship and promote the key benefits of becoming (and recruiting) an apprentice, showing parity of esteem.

*Can you outline what work you are doing to better understand the reasons behind the drop off rates, and if you can commit to share this work with us? We'd also like more information on how the Welsh Government is working to support and encourage take up of apprenticeships as an attractive option particularly during the current cost of living crisis.*

*Our response:* We are developing new statistical methods to add to our understanding of the reasons behind the drop-in success rates. This method would allow us to analyse apprenticeship incomes and more directly examine the link between income and success rates for apprentices. The method is highly experimental, but if it produces results in the near future, we will share the evidence with the committee.

In an addition to this we have been examining using an apprentice's history of free school meal eligibility as an indicator of deprivation, and the link between this and success rates. That work will be published in an article Using free school meal history as an indicator of deprivation for apprenticeship and adult learning outcomes: August 2021 to July 2022 on the 7th of November.

The apprenticeship programme is augmented by a number of initiatives which support and encourage the take up of apprenticeships, for example, in 2023-24 we have invested £1m for Health and Wellbeing support. Improving the Health and Wellbeing of both staff and learners supports quality delivery and is expected to help increase apprenticeship completion rates. This funding enables learners, staff and organisations to access the required support to deliver successful outcomes.

We are committed to removing barriers to getting an apprenticeship and whilst we have made significant progress to improving access to apprenticeships for disabled learners we need to do more. In Wales there still remains too many employers with

negative attitudes to employing disabled people and reports of a lack of support for companies considering the employment of persons with disabilities. Via the Employer Incentive Scheme for disabled apprentices, £0.4m has been provided in 2023-24 to incentivise employers to take on apprentices with disabilities.

There is anecdotal evidence that the requirement for apprentices to undertake Essential Skills Qualifications (ESQs) are hindering achievement. Apprentices are predominately required to take essential skills in literacy and numeracy where they don't already have alternative qualifications, such as GCSEs. We have therefore commissioned Estyn to carry out a thematic review of ESQs undertaken by apprentices to understand, amongst other aspects, the benefits of ESQs and their impact on apprentices.

The national apprentice minimum wage rate is sometimes a disincentive. Careers Wales has examples where people are giving up apprenticeships because they can get a job paying twice the apprenticeship minimum wage. A year one apprentice or those under 19 get National Minimum Wage of £5.28; they can earn double that. So, apprenticeships can be a hard sell to keep people engaged. Sometimes people can earn more in a part-time job than a full-time job.

Low salaries impact on transport costs. We know that jobs with low wages are less attractive when a sizable chunk of the cost are absorbed by travel expenses. Apprentices on the National Minimum Wage rate are particularly vulnerable.
I recently responded to the Low Pay Commission on the future of the Apprentice Rate of the National Minimum Wage (NMW). The Welsh Government believes that the Apprentice Rate should be increased and aligned to the current National Minimum Wage 21-22 rate to help incentivise 16–19-year-olds to start an apprenticeship and influence young people when choosing education and employment options. This is particularly important given the pressures arising from the cost-of-living crisis and inflationary pressures.

A higher rate for apprentices would enhance the profile of 'earn while you learn' training opportunities and help apprentices in meeting living costs. In particular, a higher rate would build parity with young learners in full-time education and address child benefit disparity, where families lose child benefit for children who take up apprenticeships. Any perceived productivity differences between younger and older workers need to be balanced against the longer-term value of the apprenticeship to both the employer and the apprentice.

Further, we are continually working with providers to understand what additional support can be provided to ensure people complete their training. This may include adapting delivery mechanisms to that people achieve sooner or certain elements of the programme are delivered upfront or later to reduce pressure on individuals.

**Careers advice -** *As raised during the session, concerns around the quality and breadth of careers advice being given to young people with disabilities has been raised as part of our inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare? We will continue to explore this as part of that work, but at this stage, we would welcome further information on how the Welsh Government can ensure that children and young people with disabilities can get the*

*best quality careers advice to ensure they can pursue the right education and career opportunities that meet their aspirations*.

Our response – We want to ensure that children and young people with disabilities can get the best quality careers advice to ensure they can pursue the right education and career opportunities that meet their aspirations.

Careers Wales has a dedicated careers adviser linked to every special school – they also offer a bespoke employer engagement support to all special schools and PRUs. The offer will include an average of two employer events per setting which will enable them to better meet the needs of learners. All Additional Learning Needs (ALN) young people are offered:

- Impartial guidance and coaching support.
- Relevant careers information group sessions.
- transition reviews for young people with Individual Development Plans (IDPs), with priority given to young people entering the labour market.

Careers Wales also:

- Attend parent events.
- Supports Local Authorities in implementing Transition support.

Digital support specifically targeting ALN young people Careers Wales have:

- Future Jobs Wales (https://careerswales.gov.wales/future-jobs-wales) is a targeted section on the Careers Wales website, this includes a section titled 'About Jobs'
- Developed Careers Match Quiz

Six special schools across Wales are taking part in the recently launched Careers Wales Quality Award – an award for schools to support the implementation of careers and work-related experiences (CWRE):

| | |
|---|---|
| Canolfan Addysg y Bont | Anglesey |
| Hafod Lan | Gwynedd |
| Ysgol Bryn Castell | Bridgend |
| Maes y Coed | NPT |
| Chepstow | Monmouthshire |
| Ysgol y Deri | Vale |

In 2022 Careers Wales introduced a British Sign Language (BSL) channel in their digital platform and across all of their careers centres.

From September 2022- August 2023 Careers Wales carried out 4,110 interviews with 2,642 young people identified with Additional Learning Needs - Statemented or Statemented Equivalent.

Young people identified with Additional Learning Needs who are planning to progress to College or Training after Year 11 will have a Learning and Skills Plan (LSP) completed by their Careers Adviser to help them identify their needs and aspirations, and ensure that their next lead provider can effectively support them. As part of that process Careers Wales will meet with the young person sometime after to review the LSP, and ensure that it's still an accurate reflection of what they want, and that their identified needs have been met. 2022-23 CW completed 336 LSPs.

Working Wales deliver careers guidance to young people and adults that identify themselves with a disability. Between April and Sept 2023 Working Wales delivered:

- 203 episodes of careers and employability support to disabled young people
- 1,386 episodes of support to disabled adults
- 81 episodes of support to disabled young people and adults supported in prisons
- 17 episodes of support to disabled young people and adults referred by probation

Careers Wales and Working Wales also support traveller young people and adults with careers information and guidance, an example can be seen here:

https://vimeo.com/792846107/6f28fd688a

**Big Ideas Wales** - *We would also welcome some more information on how Big Ideas Wales is promoted, the levels of take-up and the outcomes or any current evaluation on the programme.*

Big Ideas Wales improves awareness of entrepreneurship and self-employment through several routes to reach young people under 25 years, whilst in education, or beyond. Big Ideas Wales is a service delivered as part of Business Wales to raise aspirations, support young people's understanding of business, and enable young people access advice and support to start-up.

Welsh entrepreneurs act as Big Ideas Wales role models and run workshops and events in schools, colleges, universities and with community groups outside education to help young people learn about enterprise and raise awareness of support available to start a business; in 2022/23 they reached 75,210 individuals.

Big Ideas Wales is also promoted via a campaign, which has a dedicated website, digital advertising, social media channels (Facebook, Twitter and Instagram) which provides regular engagement with young people. In 2022/23 the website had 400,000 visitors and is currently followed by 33,874 young people.

In 2022/23, 945 young people accessed business advice and support through Big Ideas Wales and this helped create 329 new businesses.

In July 2022, the Welsh Government launched the Young Person's Start Up Grant targeting unemployed young people.   The grant is promoted alongside a package of start up support to assess viability of business ideas. To date 1,145 young people have expressed an interest in the support and 347 grants awarded.

Furthermore, a network of Enterprise Champions operate in all further and higher education institutions in Wales to raise awareness of entrepreneurship, provide practical experience of businesses, and nurture and support young entrepreneurs to start a business.  The Champions' network play a key part in working with Big Ideas Wales, wider youth entrepreneurship partners and business. Part of the Young Persons Guarantee, Employment and Enterprise Bureaus in further educations colleges support student transition to self-employment; supporting 702 students in 2022/23 to take positive steps towards self-employment and supporting 85 to become self-employed or start a business. The Enterprise Champions at higher education have supported over 1,300 students and graduates to validate and develop their business ideas. The latest published HEBCIS data reported 362 graduate starts in 2021/22 from universities in Wales representing 7.6% of all graduate starts.

An evaluation of the Youth Entrepreneurship Programme 2016-2022 was undertaken by Arad Research.  Its conclusions were positive and the recommendations were used to shape the procurement of the Business Wales entrepreneurship & start-up service. Review of Welsh Government Youth Entrepreneurship Programme 2016 to 2022: final report | GOV.WALES

The evaluation findings noted:

- That the programme has become more agile and responsive since its launch in 2016, having an impact at a local and regional level as well as linking to key national policies and economic and social drivers. Programme flexibility and support for joined up partnership approaches indicate the programme has the potential to support current and future Welsh Government policy, in particular the Young Persons Guarantee.

- The report shows that the programme exceeded its engagement targets in relation to reaching education settings to promote enterprise activities and Big Ideas Wales services. The use of digital technology, especially social media has supported the programme's effective marketing and promotion.

- Big Ideas Wales Role Models were positively received by all audiences and partners and therefore were recommended to be an integral element of future programmes and their potential to engage wider audiences across programme delivery in future has been actioned in future Business Wales services whilst noting the need to address shortages in some sectors ICT/construction and the opportunity to develop Role Models in social enterprise.

- The 1-to-1 advisory support provided by Big Ideas Wales, as well as the annual Bootcamp to Business sessions have been well received and had a positive impact on participants starting a business.   The need to provide

enhanced advisory support and wraparound support and events through Big Ideas Wales was recommended in order to meet policy commitments in the Young Persons Guarantee which also takes into account the length of time young people need to progress to start-up.

- The report also concluded that future youth entrepreneurship services should consider a hybrid approach to delivery, making use of digital delivery where it can enhance delivery, drive efficiencies and value for money, and increase reach of specialist support and participation across Wales.

I hope this information is helpful to the Committee. I look forward to meeting with you again soon.

Yours sincerely,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

# Eitem 8.16

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Tŷ Hywel
Bae Caerdydd, CF99 1SN

21 Tachwedd 2023

Annwyl Jayne

Sesiwn dystiolaeth ar gyfer Deiseb P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Cymerodd y Pwyllgor Deisebau dystiolaeth ynghylch y ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd 2023. Roedd hon yn sesiwn addysgiadol a phryderus a oedd yn amlygu'r sefyllfa ariannol gynyddol anodd sy'n wynebu ysgolion ledled Cymru.

Clywsom gan lywodraethwyr a phenaethiaid, a rannodd yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth wynebu toriadau mewn termau real yn y gyllideb, yn ogystal â chynyddu anghenion dysgu ac iechyd ychwanegol ymhlith eu disgyblion.

Gyda phwyllgorau polisi ar fin dechrau'r cylch craffu ar y gyllideb, roeddem o'r farn mai'r peth gorau y gallem ei wneud fel Pwyllgor Deisebau fyddai rhannu'r sesiwn hon gyda'r pwyllgorau hynny sydd ar fin edrych yn agosach ar gyllid addysg. Credwn y byddai'r dystiolaeth a gawsom yn amhrisiadwy i'ch pwyllgor.

Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd a rannwyd gan y panel a gododd nifer o faterion pryderus. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pryderon am y model cyllido presennol ar gyfer ysgolion ac annhegwch y cyllid rhwng ysgolion;
- y nifer o ysgolion sy'n gosod cyllidebau diffyg gyda disgwyl mwy o wneud hynny y flwyddyn nesaf;
- yr anallu i gynnig contractau parhaol i staff cymorth addysgu;
- lleihau cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol;
- yr effaith negyddol ar bynciau a gynigir neu weithgareddau ysgol; a
- effaith sylweddol ar iechyd a lles staff a llywodraethwyr ysgolion.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41888&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy’r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio’r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.